



Cyfiawnder Troseddol
yng Nghymru
Criminal Justice
in Wales



Deall y materion a all fod yn cyfrannu at wahaniaethu ar sail hil o fewn y dulliau Dargyfeirio cyn Achos Llys yng Nghymru i bob grŵp o bobl, gan ganolbwyntio ar Fenywod a Phlant.

Gorffennaf 2025

Ysgrifennwyd gan Mark Jones,
Cyfarwyddwr Higher Plain ac Athro Gwadd yng
Nghanolfan Troseddeg, Prifysgol De Cymru.



Glasbriant Cyfiawnder
i Fenywod
Women's Justice
Blueprint



Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Crynodeb Gweithredol	7
Trosolwg o'r Llenyddiaeth: Deall Dargyfeirio cyn Achos Llys,	
Anghymesuredd a Hiliaeth.....	15
Dull Cynhwysol at Ymchwil	23
Dadansoddiad a Thrafodaeth	28
Creu Model Gwrth-hiliol ar gyfer Dargyfeirio cyn Achos Llys gan	
ganolbwytio ar Blant a Menywod	44
Ffeithlun ar gyfer Cefnogi Ymarfer Dargyfeirio cyn Achos Llys Gwrth-hiliol	
gyda Phlant ac Oedolion Ifanc o Gefndiroedd Amrywiol o ran Ethnigrwydd	49
Ffeithlun ar gyfer Ymarfer Dargyfeirio cyn Achos Llys Gwrth-hiliol	
gyda Menywod o Gefndiroedd Amrywiol o ran Ethnigrwydd.....	55
Ffeithlun i gefnogi Dealltwriaeth o Drawma Hiliaeth ac Ymateb iddo	57
Casgliad	58
Llyfryddiaeth a Chyfeiriadau	60

Cydnabyddiaethau

Hoffwn ddiolch i aelodau Grŵp Llywio Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru am gefnogi'r prosiect dargyfeirio hwn, ynghyd â'r Partneriaid Comisiynu a sicrhodd bod yr adolygiad hwn yn bosibl. Ni fyddai'r gwaith hwn wedi bod yn bosibl chwaith heb flaengaredd Heddlu De Cymru a swyddfa'r Comisiynydd Troseddau. Hoffwn hefyd ddiolch i'r gwasanaethau hynny a gymerodd ran yn y prosiect hwn ac a rannodd eu profiadau o gefnogi gwaith dargyfeirio cyn achos llys yn ne Cymru, ynghyd â chefnogi eu defnyddwyr gwasanaeth i rannu eu profiadau bywyd. Ymysg y gwasanaethau dargyfeirio a gymerodd ran yn y prosiect hwn mae B The Change, Media Academy Cymru, Ymddiriedolaeth Nelson, Cymru Ddiogelach, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Abertawe, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Castell-nedd Port Talbot, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Rhondda Cynon Taf, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Bro Morgannwg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Pen-y-bont ar Ogwr a Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd. Yn olaf, diolch o galon i'r plant, yr oedolion ifanc a'r menywod a gymerodd ran yn yr ymchwil hon ac a rannodd eu bywydau â mi. Cefais sgysiau mor onest, poenus, myfyriol a phwerus o hiliaeth a thrawma hiliol, heriau personol, newid, twf ac, yn y pen draw, y daith o ganfod ein hunain er mwyn creu dyfodol gwell. Mae dargyfeirio cyn achos llys cynhwysol a gwrth-hiliol effeithiol yn gymhleth ac yn cymryd amser, ond os caiff ei ddatblygu a'i hwyluso gan ddefnyddio'r dulliau cywir gall fod yn gyfle pwerus i gefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd i ddeall eu hunain yn well, i gael rheolaeth dros eu bywydau eu hunain ac i wneud dewisiadau bywyd hyddysg a chadarnhaol. Yn bwysig, mae dargyfeirio cyn achos llys gwrth-hiliol hefyd yn herio hiliaeth sefydliadol, ddiwylliannol a phersonol o fewn y gwasanaeth cyfiawnder troseddol ac mae'n cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol i bob unigolyn o bob cefndir ethnig a diwylliannol.

Manylion yr awdur:

Mark Jones (Ef)

Cyfarwyddwr, Higher Plain Research & Education Ltd
Athro Gwadd, Canolfan Troseddeg,
Prifysgol De Cymru

Ffôn: 07967839933

E-bost: higherplainresearcheducation@gmail.com

Gwefan: <https://www.higherplainresearchandeducation.co.uk/>



Cyflwyniad

Teimlwyd effeithiau marwolaeth drasig George Floyd ledled y byd a thynnodd sylw at ein heriau ein hunain â hiliaeth yn y DU ac yng Nghymru. Arweiniodd y protestiadau a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ac mewn dinasoedd eraill yng Nghymru, fel rhan o fudiad Mae Bywydau Du o Bwys, at broses fyfrio mewn sawl rhan o gymdeithas gan y sefydliadau sy'n ei llywio ac sy'n dylanwadu arni, gan gynnwys y System Cyfiawnder Troseddol. Mewn ymateb, bu Cyfiawnder Troseddol Cymru yn cydweithio â phob partner yn y System Cyfiawnder Troseddol i ddatblygu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth drwy waith ymgysylltu ymroddedig â grwpiau a chymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd ledled Cymru i sicrhau ei fod yn cael ai lunio ar y cyd.

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ym mis Medi 2022 ar ôl cyhoeddi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru gan Llywodraeth Cymru ym mis Mai. Mae cynllun Llywodraeth Cymru a chynllun y System Cyfiawnder Troseddol yn cyd-fynd ac yn cefnogi ei gilydd gyda'r nod o gyflwyno dull gwrth-hiliaeth system gyfan a newid ym mhob rhan o gymdeithas. Mae'r Cynllun Gweithredu Gwrth-

hiliaeth ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (2022) wedi gwneud saith ymrwymiad i'r cyhoedd yng Nghymru ac mae'n nodi y bydd yn cyflawni'r cynllun drwy gadw at ddiffiniad a dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o faterion gwrth-hiliaeth.

Yn fwy diweddar, gwnaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron (2024) hefyd ymrwymiad gwell i herio anghymesuredd wrth gyhoeddi ei Gynllun Gweithredu Anghymesuredd ym mis Tachwedd 2024. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn nodi ei fod yn ymrwymo i ddatblygu diwylliant ac arferion gwrth-hiliol a chael gwared ar ragfarn hiliol wrth wneud penderfyniadau ac i gydweithio â phartneriaid cyfiawnder troseddol i fynd i'r afael ag anghymesuredd hiliol.

Gellid dadlau bod ymrwymiad mwy a chryfach i fod yn gymdeithas wrth-hiliol yng Nghymru, fel y dangosir gan y cynlluniau gweithredu pwysig hyn. Mae'r tri chynllun hyn wedi cael eu cyhoeddi'n gymharol ddiweddar ac felly amser a ddengys a fydd yr ymrwymiad hwn i greu cymdeithas wrth-hiliol sy'n rhydd o hiliaeth a gorthrwm a gwahaniaethu hiliol yn llwyddiannus yng Nghymru.



Sefydliwyd Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar y sail dystiolaeth a realiti bywyd

Mae'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn seiliedig ar dystiolaeth a chafodd ei lywio gan lenyddiaeth, ymchwil a pholisi diweddar priodol a chafodd ei gyd-greu â'r sawl sydd ag arbenigedd mewn gwrth-hiliaeth a themâu cysylltiedig. Yn bwysig, cynhaliwyd y broses o lunio'r cynllun ar y cyd ag arbenigwyr sydd wedi byw realiti'r System Cyfiawnder Troseddol a/neu sy'n gweithio ym maes gwrth-hiliaeth. Mae ymchwil yn awgrymu y gall y sawl sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys menywod a phlant o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd wynebu anfantais ddwbl, driphlyg neu bedwarplyg wrth ryngweithio â'r System Cyfiawnder Troseddol oherwydd eu hoedran, eu rhywedd, eu hethnigrwydd a'u crefydd. Yn wir, mae'r rhan fwyaf o academyddion a gwaith ymchwil yn y maes hwn o'r farn bod y System Cyfiawnder Troseddol yn hiliol ar lefel bersonol, ddiwylliannol, sefydliadol a strwythurol. Yn 2017, tynnodd Adolygiad Lammy sylw hanfodol at y gwahaniaeth o ran y driniaeth a gaiff pobl amrywiol o ran ethnigrwydd, a'r canlyniadau iddynt, o fewn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae diffynyddion amrywiol o ran ethnigrwydd yn fwy tebygol o bledio'n 'ddieuog' na'r mwyafrif o ddiffynyddion Gwyn yn y DU ac, o ganlyniad, os cânt eu canfod yn 'euog', yna maent yn fwy tebygol o wynebu dedfrydau cosbol na phe byddent wedi cyfaddef eu bod yn euog. Nododd Lammy mai diffyg ymddiriedaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol sydd wrth wraidd y mater hwn.

Mae'n amlwg nad yw hiliaeth ac anghymesuredd hiliol yn gyfyngedig i'r System Cyfiawnder Troseddol ac, yn wir, mae hiliaeth a gwasanaethau hiliol yn nodwedd gref o gymdeithas yn y DU ac yn amlwg yn y prif sefydliadau cymdeithasol eraill a rhannau o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys: iechyd, addysg, cyflogaeth ac o fewn polisi mewnfudo. Canfu Amnesty International ac Ymddiriedolaeth Runnymede (2024) fod hiliaeth a gwahaniaethu ar sail hil wedi gwaethygu dros y pedair blynedd diwethaf yn bennaf oherwydd methiant parhaus llywodraeth y DU i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol ac mai'r diffyg gweithredu hwn sydd ar fai am y ffrwydrad diweddar o hiliaeth dde eithafol a thrais Islamoffobaidd ar strydoedd y DU yn 2024. Yn wir, canfu eu hymchwiliad a'r adroddiad dilynol a gyflwynwyd i Bwyllgor y CU ar Ddileu Gwahaniaethu Hiliol fod deddfwriaeth a pholisiau llywodraeth y DU

yn torri erthyglau allweddol ar y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethu Hiliol, sy'n un o gytuniadau cytûn y CU. Mae'r adroddiad yn nodi bod deddfwriaeth o'r fath, hiliaeth ac arferion sefydliadol ac arferion cymdeithasol y DU yn cyfuno i barhau i orthrymu pobl sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd. Daw eu hadroddiad i'r casgliad, oherwydd methiant y llywodraeth i wella canlyniadau i bobl amrywiol o ran ethnigrwydd, drwy ymosod a chyfyngu ar y ffyrdd y gall unigolion, grwpiau a chymunedau o'r fath anghydfurfio a phrotestion, mae'n creu sefyllfa drychinebus i lawer o bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sydd wedi'u hamddiffyn yn annigonol ac sy'n cael eu plismona'n ormodol a phrofi realiti canlyniadau ac ansawdd gwasanaethau anghymesur mewn cymdeithas yn y DU (Amnesty International ac Ymddiriedolaeth Runnymede, 2024).

Felly, er y gellid dadlau y gwnaed rhywfaint o gynnydd yng Nghymru gyda thri ymrwymiad polisi clir o ran gwrth-hiliaeth, mae'n amlwg bod taith hir iawn o'n blaenau o hyd i fynd i'r afael â hiliaeth, gorgynrychiolaeth a thriniaeth wael o bobl amrywiol o ran ethnigrwydd. Mae realiti o'r fath yn arbennig o orthrymus i'r bobl hynny sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd ac sydd â nodweddion gwarchodedig ychwanegol a/neu fregusrwydd fel menywod a phobl ifanc, nid dim ond mewn perthynas â'r System Cyfiawnder Troseddol ond hefyd o ran cymdeithas ehangach yng Nghymru a'r DU.



Ffocws ar Fenywod a Phlant yng Nghymru

Nododd Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ar y cyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru (2019) weledigaeth i adeiladu ar y broses o drawsnewid gwasanaethau i wella canlyniadau a phrofiadau menywod ledled Cymru, drwy ddull system gyfan. Mae'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (2019) wedi ceisio hyrwyddo'r angen i gymryd dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd wedi'i lywio gan drawma i ddarparu a dylunio gwasanaethau i fenywod. Mae'r Glasbrint yn canolbwyntio ar gyflawni ar draws nifer o feysydd thematig sy'n adlewyrchu camau allweddol o'r daith cyfiawnder troseddol, lle ceir ffocws penodol ar atgyfnerthu cyfleoedd am ymyriad cynnar ac atal i fenywod ledled Cymru a chreu opsiynau cadarn sy'n seiliedig ar y gymuned sy'n diwallu anghenion menywod.

Fodd bynnag, mae'r Glasbrint hefyd yn cydnabod bod bylchau allweddol yn y sail dystiolaeth mewn perthynas â menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd, a all

fod yn effeithio ar y gallu i gynnig y cymorth cywir. Drwy beidio â deall yr heriau posibl a wynebier gan yr unigolion hyn, y risg yw efallai nad ydynt yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a/neu efallai eu bod yn ymddieithrio o'r gwasanaethau sydd ar gael am nad yw eu hanghenion yn cael eu deall yn llwyr.

Ers mis Ebrill 2025, mae'r Glasbriant Cyfiawnder i Fenywod wedi symud i gam cyflawni newydd a fydd yn cynnwys adeiladu ar y fframwaith a'r egwyddorion presennol, gan barhau i ymgorffori arferion gorau yn y system gyfiawnder i fenywod yng Nghymru. Mae Bwrdd Menywod mewn Cyfiawnder Cymru Gyfan (AWWIJB) wedi cael ei gydnabod fel y fforwm priodol i roi cyfeiriad strategol i bartneriaid cyflawnder troseddol a chymdeithasol er mwyn helpu i sicrhau darpariaeth effeithiol barhaus o flaenoriaethau ac egwyddorion strategol y Glasbriant ac o fewn polisïau ehangach sy'n ymwneud â menywod a'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Er parch i blant a phobl ifanc, mae'r Glasbriant Cyfiawnder Ieuencid (2019) yng Nghymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogi plant sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod sydd â risgiau uwch o lawer o gyflawni trais a chael eu hanfon i'r carchar na phlant nad ydynt wedi cael profiadau o'r fath. Mae'r Glasbriant yn canolbwyntio'n bennaf ar atal a lleihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chefnogi newid cadarnhaol ymysg plant gan ddefnyddio model ymarfer 'Rhoi'r Plentyn yn Gyntaf'. Fel y Glasbriant Cyfiawnder i Fenywod, y nod yw cyflawni hyn drwy ddull system gyfan gan ddefnyddio ymarfer a system sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n ystyriol o drawma. Prif elfennau'r Glasbriant Cyfiawnder Ieuencid yw ymgorffori dull o roi'r plentyn yn gyntaf sy'n canolbwyntio ar y canlynol: camau atal wedi'u targedu, dargyfeirio cyn achos llys a gwasanaethau cymunedol gyda phwyslais ar gyflwyno dull gweithredu ymarfer sy'n seiliedig ar drawma.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu, er bod dargyfeirio ieuencid yn fuddiol i'r plant sy'n ei brofi ac y dangoswyd ei fod yn lleihau achosion o aildroseddu, bod anghymesuredd o ran mynediad plant amrywiol o ran ethnigrwydd iddo a'u lefelau ymgysylltu. Mae gwaith ymchwil yn dangos yn gryf bod triniaeth anghyfartal yn gynnar yn y System Cyfiawnder Troseddol yn arwain at wahaniaethau mwy yn nes ymlaen yn y broses (Y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder, 2021).



Rhoi'r Ymrwymiadau yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ar waith

Mae'r realiti hwn wedi llywio'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ac mae'n cyd-fynd â sawl thema yn y cynllun ond mae'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag Ymrwymiad 7 mewn perthynas â'r gwaith gwrth-hiliol sydd ei angen o fewn 'Atal, Ymyrraeth Gynnar ac Adsefydlu' o fewn y System Cyfiawnder Troseddol.

Mae ymrwymiad i wneud y canlynol:

“Byddwn yn gweithio gyda’n gilydd i roi terfyn ar orgynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig sydd wedi cyflawni trosedd a diffynyddion yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru” ac y “Byddwn yn rhoi cymorth holistaidd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy’n seiliedig ar drawma i droseddwyr a’r rheini sydd mewn perygl o droseddu er mwyn iddyn nhw allu gwneud dewisiadau bywyd gwybodus ar gyfer cyflogaeth, addysg, perthnasoedd cymdeithasol, ac iechyd a lles meddyliol a chorfforol.”

Mae hyn yn golygu bod angen cyflawni hyn er mwyn deall mwy am realiti bywyd ac anghenion pob grŵp amrywiol o ran ethnigrwydd o fewn prosesau dargyfeirio cyn achos llys (a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach) gan ganolbwyntio ar Fenywod a Phlant a dyma nod cyffredinol y prosiect gwaith hwn.

Cafodd y syniad ar gyfer y prosiect hwn ei gynnig i ddechrau gan Dasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd gyda chefnogaeth swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru. Nod Tasglu Caerdydd oedd nodi cyfleoedd ymarferol ar gyfer newid gwrth-hiliol i wella cydraddoldeb hiliol yn y ddinas, canfod ffyrdd newydd a allai ddefnyddio dulliau lleol o wella profiadau a chanlyniadau i breswylwyr amrywiol o ran ethnigrwydd. Bu'r Tasglu yn cydweithio mewn partneriaeth â chymunedau, unigolion â realiti bywyd a sefydliadau arbenigol, i nodi'r problemau ac, yn bwysicach, i gydweithio ar sefyllfaoedd i fynd i'r afael â hiliaeth a gwahaniaethu ar sail hil. Nododd y Tasglu a

swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru yr angen i fynd i'r afael â phrofiadau dargyfeirio negyddol y mae plant, menywod a dynion o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn eu cael wrth gymryd rhan.

Tynnwyd sylw at y ffocws hwn fel angen ledled Cymru mewn gwaith ymchwil a llenyddiaeth flaenorol ac wrth ysgrifennu'r Cynllun Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a ddefnyddiodd ddull llunio ar y cyd er mwyn gwrandao ar unigolion o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a dysgu ganddynt. Felly, fel rhan o'r gwaith o roi'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol ar gyfer Cyfiawnder leuenctid yng Nghymru (2022), y Glasbriant Cyfiawnder i Fenywod ar y cyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru (2019) a'r Glasbriant Cyfiawnder leuenctid (2019) ar waith yng Nghymru, comisiynwyd prosiect mewn partneriaeth â Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Comisiynwyd Mark Jones, Cyfarwyddwr Higher Plain Research and Education Ltd, ac Athro Gwadd ym Mhrifysgol De Cymru fel ymchwilydd ar gyfer y prosiect hwn.

Prif ffocws y prosiect hwn yw deall anghymesuredd y profiadau a wynebwr gan bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd wrth gymryd rhan mewn cyfleoedd dargyfeirio cyn achos llys a Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Felly, mae'r ymchwil hon wedi meithrin dealltwriaeth o anghymesuredd o ran dargyfeirio i bob unigolyn o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd ond gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau ac anghenion menywod a phlant.

Fel y nodwyd uchod, daeth y syniad ar gyfer y prosiect gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Caerdydd ac, oherwydd hyn, ar y dechrau roedd dyluniad y prosiect yn cynnwys elfen astudiaeth achos yn ardal Caerdydd a gafodd ei ehangu yn ddiweddarach i ganolbwyntio ar Dde Cymru er mwyn cefnogi gwaith ymgysylltu effeithiol â phob rhanddeiliad, yn enwedig y rhai sydd â realiti bywyd o gael cymorth dargyfeirio cyn achos llys.



Defnyddio'r gwaith ymchwil hwn i ddatblygu ymarfer dargyfeirio cyn achos llys gwrth-hiliol yng Nghymru

Cafodd y prosiect hwn ei reoli a'i gefnogi gan randdeiliaid allweddol ac roedd ymarferwyr arweiniol o Hyb ACE Cymru, y Glasbriant Cyfiawnder i Fenywod, y Glasbriant Cyfiawnder leuenctid, Heddlu De Cymru, Swyddfa Comisiynwyr Heddlu a Throseddau De Cymru a Chyfiawnder Troseddol Cymru yn rhan o'r grŵp

llywio. Dechreuodd yr ymchwil ym mis Chwefror 2023 a daeth i ben ym mis Mawrth 2024 ac elfen olaf y prosiect ymchwil hwn fydd rhannu canfyddiadau'r adroddiad hwn fel y nodwyd uchod, gyda'r nod o wella profiadau dargyfeirio cyn achos llys i bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

Caiff y canfyddiadau a'r gwersi i'w dysgu o'r prosiect ymchwil hwn eu rhannu ledled Cymru, drwy'r trefniadau llywodraethu cyfiawnder troseddol presennol ledled Cymru, Bwrdd Menywod mewn Cyfiawnder, Byrddau Cyfiawnder leuenctid a rhwydweithiau a fforymau proffesiynol, polisi ac academaidd lle y bo'n briodol. Defnyddir y prosiect ymchwil hwn i lywio'r broses ddylunio a'r ymateb i wasanaethau dargyfeirio ar gyfer unigolion o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd ledled Cymru. Oherwydd ffocws daearyddol yr ymchwil hon ar Dde Cymru, bydd prosesau ymgysylltu hefyd â Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru a phartneriaid rhanbarthol a lleol allweddol eraill. Yn y pen draw, caiff yr ymchwil hon ei rhannu lle gall ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddealltwriaeth o ymarfer gwrth-hiliol cynhwysol a gwaith datblygu polisiâu a lle mae angen ac ymrwymiad i weithio tuag at fodel a dull gweithredu dargyfeirio cyn achos llys gwrth-hiliol.



Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ym mis Medi 2022 ar ôl cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ym mis Mai. Mae cynllun Llywodraeth Cymru a chynllun y System Cyfiawnder Troseddol yn cyd-fynd ac yn cefnogi ei gilydd gyda'r nod o gyflwyno dull gwrth-hiliaeth system gyfan a newid ym mhob rhan o gymdeithas. Mae'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (2022) wedi gwneud saith ymrwymiad i'r cyhoedd yng Nghymru ac mae'n nodi y bydd yn cyflawni'r cynllun drwy gadw at ddiffiniad a dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o faterion gwrth-hiliaeth.

Mae gan y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (2022) saith ymrwymiad i roi diwedd ar hiliaeth ac mae'r gwaith ymchwil a'r adroddiad hwn yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag Ymrwymiad 7 sy'n canolbwyntio ar ymarfer gwrth-hiliol 'Atal, Ymyrraeth Gynnar ac Adsefydlu' o fewn y System Cyfiawnder Troseddol.

Prif ffocws y prosiect a'r adroddiad hwn yw rhannu dealltwriaeth well o'r profiadau anghymesur a wynebwr gan bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd wrth ymgysylltu â chyfleoedd dargyfeirio cyn achos llys a Datrysiaid y Tu Allan i'r Llys. Felly, mae'r ymchwil hon wedi meithrin dealltwriaeth o anghymesuredd mewn prosesau dargyfeirio i bob unigolyn o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd ond gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau ac anghenion menywod a phlant ac oedolion ifanc (18-25 oed).

Caiff y canfyddiadau a'r gwersi i'w dysgu o'r prosiect ymchwil hwn eu rhannu ledled Cymru, drwy'r trefniadau llywodraethu cyfiawnder troseddol presennol ledled Cymru, Bwrdd Menywod mewn Cyfiawnder, Byrddau Cyfiawnder leuenctid a rhwydweithiau a fforymau proffesiynol, polisi ac academiaidd lle y bo'n briodol. Defnyddir y prosiect ymchwil hwn i lywio'r broses ddylunio a'r ymateb i wasanaethau dargyfeirio ar gyfer unigolion o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd ledled Cymru. Oherwydd ffocws daearyddol yr ymchwil hon ar Dde Cymru, bydd prosesau ymgysylltu hefyd â Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru a phartneriaid

rhanbarthol a lleol allweddol eraill. Yn y pen draw, caiff yr ymchwil hon ei rhannu lle gall ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddealltwriaeth o ymarfer gwrth-hiliol cynhwysol a gwaith datblygu polisiâu a lle mae angen ac ymrwymiad i weithio tuag at fodel a dull gweithredu dargyfeirio cyn achos llys gwrth-hiliol.

Prif nod a chanlyniad y prosiect yw llunio cyfres o argymhellion, gan roi sylw penodol i fenywod a phlant, a fydd yn cyfrannu at y broses o ddatblygu:

Dulliau amgen neu wedi'u teilwra o ddargyfeirio ar gyfer grwpiau amrywiol o ran ethnigrwydd sydd hefyd yn ystyriol o drawma. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cyfle cyfartal ar gyfer dargyfeiriadau oddi wrth y System Cyfiawnder Troseddol ac i wasanaethau sy'n seiliedig ar gymorth.

Nod y prosiect hwn yw cyflawni hyn gan ddefnyddio dull gweithredu cynhwysol wedi'i lunio ar y cyd, gan sicrhau bod pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd, sy'n arbenigwyr drwy eu realiti bywyd, yn cael eu clywed ac y gwrandewir arnynt fel yr amlinellir fel ymarfer angenrheidiol yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (2022).

Er mwyn cyflawni hyn, defnyddiwyd dull methodolegol cymysg dilyniantol, sy'n golygu y defnyddiwyd dulliau meintiol ac ansoddol i gyflawni nodau a chwmpas y prosiect ymchwil hwn gan gynnwys defnyddio adolygiad llenyddol systemataidd, data yr Heddlu ar Ddatrysiaid y Tu Allan i'r Llys gan Orsaf Heddlu Bae Caerdydd, grwpiau ffocws a chyfweliadau unigol a dau ddigwyddiad ymgysylltu.





Gwersi i'w Dysgu ac Argymhellion ar gyfer Datblygu Dargyfeiriad Cyn Achos Llys Gwrth-hiliol ar gyfer Plant ac Oedolion Ifanc Amrywiol o ran Ethnigrwydd.



1. Model a ddiffiniwyd ac y cytunwyd arno yn genedlaethol ar gyfer Dargyfeiriad Cyn Achos Llys ar gyfer Plant (hyd at 17 oed) ac Oedolion Ifanc (18-25 oed) o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd (er bod llawer o argymhellion hefyd yn gymwys i ethnigrwydd Gwyn DU) sy'n:

- i. Lle y bo'n bosibl, dylid defnyddio dargyfeiriad Adeg Arestio i leihau effaith a thrawma y broses arestio a'r ddalfa a chyfeirio plant ac oedolion ifanc at wasanaethau cyfiawnder troseddol, cymorth gwaith ieuencid a darparwyr dargyfeirio gyda'r gwasanaethau hynny yn cael eu hysbysu i gysylltu a chynnig eu cymorth.
- ii. Dylid defnyddio amodau cymhwysra cynhwysol ar gyfer dargyfeirio cyn achos llys / Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys heb fod angen pledio'n euog, cwrmpas ar gyfer sawl ymgais i ddargyfeirio a ffocws cychwynnol ar amodau cyffyrddiad ysgafn. Pan fydd angen hynny ar gyfer anghenion mwy cymhleth, dylai ymyriadau dargyfeirio gefnogi anghenion holistaidd a realiti'r bobl a gefnogir ganddynt a chynnig cymorth tymor hwy sydd fel arfer yn gofyn am o leiaf 12-16 wythnos o gymorth er mwyn i newid ymddygiad gwirioneddol a thwf personol ddigwydd.
- iii. Dylid cytuno ar ddarpariaeth dargyfeirio a chynllun ymyrraeth gan ddefnyddio dulliau llunio ar y cyd a dylent ganolbwyntio ar yr unigolyn ac ar feithrin cydberthnasau yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch gan ddefnyddio ymarfer gwrth-hiliol adferol sy'n ystyriol o drawma a, lle y bo'n briodol, dylent roi'r plentyn yn gyntaf a/neu fod

yn ystyriol o rywedd. Nod y dull holistaidd hwn yw cefnogi datblygiad seicolegol, niwrolegol, biolegol a chymdeithasol a chyfnodau pontio drwy blentynodod, llencyndod ac i fod yn oedolion lle y bo'n briodol.

- iv. Mae dod i adnabod plant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a'u dewis iaith a thermoleg yn bwysig a dylai fod yn ffocws i'r holl wasanaethau cymorth i blant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.
- v. Cynnig profiad cynhwysol o ddull gweithredu cyfiawnder adferol fel bod dioddefwyr yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt a bod ganddynt ddewis a rheolaeth o fewn eu profiad o raglenni dargyfeirio.
- vi. Mae angen diffinio cyfiawnder adferol mewn anghenion darpariaeth dargyferio cyn achos llys yn glir a chytuno arno ar lefel genedlaethol er mwyn osgoi ymarfer arwynebol a cham-labelu ymarfer dargyfeirio presennol fel ymarfer adferol am fod hyn yn gwanhau ei ystyr, y ddealltwriaeth o'r effaith bosibl a chanlyniadau dull gweithredu gwirioneddol adferol.
- vii. Mae dargyfeirio cyn achos llys yn defnyddio model o waith rhyngasiantaethol cryf gyda gweledigaeth a rennir, gwybodaeth gywir a rhannu data a phroses gwneud penderfyniadau ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Mae angen canolbwyntio ar ddefnyddio canlyniad 22 / rhybuddiad ieuencid pan fo modd i gefnogi plant yn effeithiol ac i leihau trawma cymryd rhan mewn achos llys. Dylai darparwyr dargyfeiriadau fod yn ganolog i'r broses hon a'r profiad hwn i blant ac oedolion ifanc, er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi mewn profiadau dalfeydd.
- viii. Sicrhau bod asesiadau a chyfeiriadau dargyfeirio yn amserol (48 awr) i gefnogi prosesau i ddargyfeirio ac ymgysylltu â phlant ac oedolion ifanc.
- ix. Caiff Dargyfeirio Ieuencid ei nodi fel canlyniad cadarnhaol gan yr Heddlu a'i gynlluniau rheoli perfformiad.
- x. Caiff rhaglenni dargyfeirio eu rheoli a'u cefnogi gan ymarferwyr dargyfeirio plant ac oedolion ifanc penodedig nad ydynt yn rhan o ddarpariaeth statudol i gefnogi ymddiriedaeth ac ymgysylltu.

- xi.** Mae cymorth cyfieithu cyflym ac effeithiol ar gael yn gyson ar gyfer plant ac oedolion ifanc sydd ei angen mewn dalfeydd.
- xii.** Mae cymorth dargyfeirio yn defnyddio mentoriaid arbenigol sydd o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a lle y bo'n bosibl, sydd â phrofiadau bywyd o'r System Cyfiawnder Troseddol er mwyn cefnogi plant ac oedolion ifanc o gefndiroedd tebyg i gymryd rhan yn effeithiol.
- xiii.** Dylai'r broses o asesu anghenion ar gyfer dargyfeiriad ystyried hunaniaeth ddiwylliannol, treftadaeth a chrefyddol plant ac oedolion ifanc.
- xiv.** Dylai cymorth dargyfeirio ganolbwyntio ar roi ymyriadau ar waith gyda phlant ac oedolion ifanc sy'n datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, cyflogaeth, ffrindiau, teulu a rianta am eu bod yn gysylltiedig â chanlyniadau aildroseddu isel.
- xv.** Dylai dargyfeirio gynnig gwasanaethau cymorth iechyd meddwl cyflym (o fewn 2 wythnos) gan fod hyn yn angen cyffredin ac arwyddocaol iawn. Os nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigon i ddiwallu angen lleol, yna dylid datblygu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl dargyfeirio newydd.
- xvi.** Mae angen i wasanaethau anstatudol arbenigol ar gyfer plant ac oedolion ifanc amrywiol o ran ethnigrwydd sy'n cymryd rhan mewn Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach fod yn ganolog wrth gefnogi plant ac oedolion ifanc sy'n cymryd rhan mewn dargyfeiriadau. Dylai darparwyr arbenigol o'r fath gynnig cymorth a phrosesau mentora i ddarparwyr dargyfeirio eraill i gefnogi'r broses o ddatblygu eu hymarfer gwrth-hiliol. Pan na fydd gwasanaethau arbenigol o'r fath ar gael, mae angen datblygu'r gwasanaethau hyn er mwyn diwallu anghenion unigolion amrywiol o ran ethnigrwydd yn lleol. Mae angen nodi gwasanaethau arbenigol amrywiol er mwyn hwyluso'r broses o fapio a rhannu arferion gorau a sicrhau llwybrau atgyfeirio effeithiol ar gyfer dargyfeirio.
- xvii.** Dylai pob gwasanaeth dargyfeirio newydd gael ei lunio ar y cyd â phlant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

2. Addysg a Hyfforddiant Hirdymor o Ansawdd Uchel a gaiff eu Llunio ar y Cyd

- xviii.** Mae angen i'r System Cyfiawnder Troseddol a gwasanaethau statudol eraill, fel gwasanaethau cymdeithasol, sy'n rhan o'r broses o asesu plant a phobl ifanc neu o gefnogi gwaith dargyfeirio gael addysg a hyfforddiant parhaus a hirdymor ar ymarfer gwrth-hiliol sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac sy'n ystyriol o rywedd, yn enwedig swyddogion llinell flaen yr heddlu a swyddogion dalfeydd. Dylai addysg a hyfforddiant ganolbwyntio ar y canlynol:
 - a.** Meithrin sgiliau cyfathrebu cyfeillgar heb farnu sy'n gymwys yn ddiwylliannol ac sy'n defnyddio iaith a therminoleg briodol.
 - b.** Deall mai plentyn yn gyntaf neu oedolyn ifanc yn gyntaf yw plentyn neu oedolyn ifanc a all fod wedi troseddu ac felly dylid canolbwyntio ar ddangos empathi, deall straen a thrawma hiliol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a meithrin cydberthynas er mwyn hwyluso proses ddargyfeirio, asesu a chymorth effeithiol.
 - c.** Deall ei realiti a'i brofiadau personol ei hun a sut mae gwahaniaethu ar sail hil, oedran, rhyw a chrefydd yn dod i'r amlwg mewn cymdeithas a diwylliant yng Nghymru / y DU yn ehangach.
 - d.** Mae angen canolbwyntio ar ddeall ei ragfarn fwriadol ac anfwriadol ei hun a herio hyn er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol ymarfer gwrth-hiliol, sy'n ystyriol o oedran, rhywedd a chrefydd fel nad yw'r nodweddion hyn yn lens sy'n arwain at anghymesuredd ac asesiad annheg a mesurau cosbol fel 'uwch-dariffio' ac 'oedolyneiddio'.
 - e.** Creu diwylliant o ymarfer myfyriol i gefnogi trafodaeth fyfyrion hyderus ag asiantaethau, cydweithwyr, timau a goruchwylwyr ar gymhwysedd diwylliannol a materion gwrth-hiliaeth a chefnogi plant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd er mwyn sicrhau ymarfer myfyriol diwylliannol a gostyngeddwrdd diwylliannol.
- xix.** Mae angen i heddlu cyfiawnder ieuenctid gael addysg a hyfforddiant fel y gall adnabod cyfleoedd atgyfeirio ar gyfer dargyfeirio yn well a chefnogi dulliau priodol o asesu risg a rhoi'r gorau i uwch-risgio plant o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

xx. Mae angen i gyfreithwyr gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ganlyniadau ac effeithiau cadarnhaol dargyfeirio cyn achos llys a Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys fel y gallant gynghori eu cleientiaid yn briodol.

xxi. Dylai Addysg a Hyfforddiant mewn perthynas ag ymarfer gwrth-hiliaeth a gwrth-hiliol, gyda chymorth priodol, gael ei ddatblygu a'i hwyluso gan bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sydd â realiti bywyd o gymryd rhan yn y System Cyfiawnder Troseddol.

xxii. Mae angen i sefydliadau darparwyr dargyfeirio gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ymarfer hiliol sy'n ystyriol o drawma ac ymarfer gwrth-hiliol ar bob lefel o'r sefydliad, gan gynnwys uwch-arweinwyr. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi proses effeithiol o ddarparu gwasanaethau a datblygu arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol gwrth-hiliol fel nad oes ofn 'ei gael yn anghywir' ac fel bod gan bob ymarferydd yr hyder i drafod iaith, terminoleg, materion a realiti o'r fath.

3. Ymchwil o ansawdd uchel sy'n cynnwys realiti bywyd unigolion amrywiol o ran ethnigrwydd

xxiii. Mae angen data y cytunir yn gyffredinol arnynt a phroses effeithiol o gaffael data a'u rhannu yn amlasiantaethol fel y gall yr holl wasanaethau dargyfeirio ddeall a chefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn effeithiol. Mae angen prosesau cywir i gofnodi a monitro anghenion ethnigrwydd, iaith a ffydd fel y gellir dadansoddi i gefnogi dealltwriaeth a phroses barhaus o ddatblygu ymarfer.

xxiv. Mwy o ymchwil i ddeall gorgynrychiolaeth o blant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn y system.

xxv. Mae angen mwy o waith ymchwil ar gyd-destunau lleol, er mwyn datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a phrofiadau lleol a chefnogi prosesau ymgysylltu ac ymatal dargyfeirio yn well. Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil ansoddol er mwyn deall realiti bywyd rhingylliaid dalfeydd yng Nghymru mewn perthynas â'r prosesau gwneud penderfyniadau Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn fwy cyffredinol ac mewn perthynas â chefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

xxvi. Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil i ddeall profiadau ac anghenion merched o gefndiroedd ethnig leiafrifol o fewn dargyfeiriadau cyn achos llys a llunio gwasanaethau dargyfeirio arbenigol ar y cyd gyda / ar gyfer merched os bydd angen.

4. Meithrin ymddiriedaeth â phobl amrywiol o ran ethnigrwydd ac allgymorth cymunedol

xxvii. Mae angen i'r System Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu yn benodol ddatblygu prosiectau allgymorth i feithrin cydberthnasau cadarnhaol ag unigolion, grwpiau a chymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd, i feithrin ymddiriedaeth fel y gallant hyrwyddo canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol ymarfer dargyfeirio cyn achos llys yn fwy effeithiol. Dylid creu'r prosiectau hyn ar y cyd a'u darparu gyda gwasanaethau ac aelodau cymunedol o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

xxviii. Dylai Gwasanaethau Cyfiawnder leuenctid a darparwyr dargyfeirio eraill fynd ati'n gyson i herio'r hiliaeth a wynebwr gan blant ac oedolion amrywiol o ran ethnigrwydd mewn perthynas â phroffilio hiliol, stopio a chwilio, oedolyneddio a thriniaethau llymach gan y system mewn cyd-destunau dargyfeirio cyn achos llys (a phrofiadau o'r System Cyfiawnder Troseddol yn ehangach).



5. Mwy o Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar Lefel Sefydliadol

- xxix.** Mae angen mwy o ffocws ar wella'r amrywiaeth ethnig drwy'r System Cyfiawnder Troseddol ac ar bob lefel o'r sefydliad er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi a'r amrywiaeth o bobl y mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn eu gwasanaethu.
- xxx.** Datblygu strategaeth, polisi ac ymarfer recriwtio, cadw a datblygu sy'n amlinellu nodau, camau gweithredu ac ymrwymadau asiantaethau Cyfiawnder Troseddol o ran sut y byddant yn sicrhau bod ganddynt weithlu amrywiol o ran ethnigrwydd yn eu sefydliadau, ar bob lefel o ymarfer, gan gynnwys uwch-arweinwyr. Dylai canlyniadau amrywiaeth ethnig gyd-fynd â demograffeg ranbarthol a chynrychioli'r cyhoedd a wasanaethir ganddo, gyda meincnod sylfaenol o 5% ar gyfer rhanbarthau sydd â lefelau isel o amrywiaeth o ran ethnigrwydd.
- xxxi.** Datblygu panel adolygu allanol ac annibynnol sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd ar gyfer strategaeth, polisi ac ymarfer recriwtio, cadw a datblygu i bob asiantaeth Cyfiawnder Troseddol lle mae angen i 70% o gynrychiolaeth o'r aelodaeth fod o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd.
- xxxii.** Oherwydd dylanwad anghymesurededd hiliol mewn prosesau dargyfeirio cyn achos llys, dylid canolbwyntio'n benodol ar wella amrywiaeth o ran ethnigrwydd swyddogion heddlu llinell flaen a rhingylliaid heddlu mewn dalfeydd. Er mwyn canolbwyntio ar wella amrywiaeth o ran ethnigrwydd swyddogion heddlu sydd newydd gymhwyso drwy'r radd bydd angen cydweithio â Sefydliadau Addysg Uwch i sicrhau eu hymrwymiad i'r cam gweithredu hwn. Yn y 12-18 mis nesaf, dylai pob penodiad a/neu ddychafiad i rôl rhingyll dalfeydd gael o leiaf 15% o gynrychiolaeth o grwpiau amrywiol o ran ethnigrwydd.
- xxxiii.** Dylai'r holl asiantaethau Cyfiawnder Troseddol a gweithwyr proffesiynol cysylltiol roi prosesau mentora a chymorth myfyriol ar waith gan ymarferwyr amrywiol o ran ethnigrwydd profiadol ar bob lefel o'u gweithlu gan gynnwys mentora i unigolion mewn rolau uwch-arweinwyr.



Gwersi i'w Dysgu ac Argymhellion ar gyfer Datblygu Dargyfeiriad Cyn Achos Llys Gwrth-hiliol ar gyfer Menywod Amrywiol o ran Ethnigrwydd

- 1. Model a ddiffiniwyd ac y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gyfer Dargyfeirio Cyn Achos Llys i fenywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd (er bod llawer o argymhellion hefyd yn gymwys i fenywod o ethnigrwydd Gwyn y DU) sy'n:**
 - i.** Defnyddio dull system gyfan gyda chanolfannau i fenywod a sefydliadau arbenigol i fenywod sydd wedi'u cydgysylltu drwy'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cyhoeddus).
 - ii.** Dylid defnyddio amodau cymhwysra cynhwysol ar gyfer dargyfeirio cyn achos llys / Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys heb fod angen pledio'n euog, cwrpas ar gyfer sawl ymgais i ddargyfeirio a ffocws cychwynnol ar amodau cyffyrddiad ysgafn. Pan fydd angen, ar gyfer anghenion mwy cymhleth, dylai ymyriadau dargyfeirio gefnogi anghenion holistaidd a realiti'r menywod a gefnogir ganddo a chynnig cymorth tymor hwy sydd fel arfer yn golygu 12-16 wythnos o gymorth er mwyn gweld newid gwirioneddol mewn ymddygiad a thwf personol.
 - iii.** Dylid rhoi'r cyfle i fenywod gael cyngor a chymorth cyfreithiol gan gyfreithiwr benywaidd gan fod llawer o fenywod sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol wedi neu yn wynebu trais neu gam-drin domestig ac felly gall cael ymgysylltiad ac ymyriad gyda dyn arwain at drawma a straen.
 - iv.** Dylid cytuno ar ddarpariaeth dargyfeirio a chynllun ymyriad gan ddefnyddio proses lunio ar y cyd gan ganolbwyntio ar yr unigolyn ac ar feithrin cydberthnasau yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch gan ddefnyddio ymarfer gwrth-hiliol sy'n adferol ac yn ystyriol o rywedd a thrawma. Nod y dull holistaidd hwn yw cefnogi anghenion a realiti menywod.
 - v.** Mae dod i adnabod menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a'u hiaith a'u terminoleg ddewisol yn bwysig a dylai fod yn ffocws i'r holl wasanaethau cymorth i fenywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

- vi.** Cynnig profiad cynhwysol o ddull gweithredu cyfiawnder adferol fel bod dioddefwyr yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod ganddynt ddewis a rheolaeth o fewn eu profiad o raglenni dargyfeirio.
- vii.** Mae angen diffinio cyfiawnder adferol mewn anghenion darpariaeth dargyferio cyn achos llys yn glir a chytuno arno ar lefel genedlaethol er mwyn osgoi ymarfer arwynebol a cham-labelu ymarfer dargyfeirio presennol fel ymarfer adferol am fod hyn yn gwanhau ei ystyr, y ddealltwriaeth o'r effaith bosibl a chanlyniadau dull gweithredu gwirioneddol adferol.
- viii.** Mae dargyfeirio cyn achos llys yn defnyddio model o waith rhyngasiantaethol cryf gyda gweledigaeth a rennir, gwybodaeth gywir a rhannu data a phroses gwneud penderfyniadau ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Lle bynnag y bo modd, mae angen canolbwyntio ar ddefnyddio'r lefel rhybudd isaf er mwyn cefnogi menywod yn effeithiol a lleihau'r trawma sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn achos llys. Dylai darparwyr dargyfeirio fod yn ganolog i'r broses hon ac i brofiadau menywod, er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi mewn profiadau o ddalfeydd.
- ix.** Sicrhau bod asesiad ac ymyriad dargyfeirio yn amserol (48 awr) i gefnogi prosesau dargyfeirio ac ymgysylltu â menywod.
- x.** Nodir bod Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a dargyfeirio yn ganlyniad cadarnhaol gan yr Heddlu a'u cynlluniau rheoli perfformiad.
- xi.** Caiff rhaglenni dargyfeirio eu rheoli a'u cefnogi gan ymarferwyr dargyfeirio penodedig i fenywod nad ydynt yn rhan o ddarpariaeth statudol er mwyn cefnogi ymddiriedaeth ac ymgysylltiad.
- xii.** Mae cymorth cyfieithu cyflym ac effeithiol ar gael yn gyson i fenywod sydd ei angen mewn dalfeydd.
- xiii.** Mae cymorth dargyfeirio yn defnyddio mentoriaid arbenigol sydd o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd ac sydd, lle y bo modd, wedi cael profiadau bywyd o'r System Cyfiawnder Troseddol i gefnogi menywod o gefndiroedd tebyg i ymgysylltu yn effeithiol.
- xiv.** Dylai asesiad o anghenion ar gyfer dargyfeirio ystyried hunaniaeth ddiwylliannol, treftadaeth a chrefyddol menyw.
- xv.** Dylai cymorth dargyfeirio ganolbwyntio ar ymyriadau yn y gymuned â menywod sy'n:
 - a.** Cefnogi'r broses o feithrin agweddau ac ymgysylltiad cadarnhaol â theulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymdeithasol cadarnhaol eraill.
 - b.** Cefnogi cyfleoedd dysgu, hyfforddiant, cyflogaeth a sgiliau bywyd cyffredinol.
 - c.** Lle y bo'n briodol, cefnogi'r broses o ddatblygu dulliau gweithredu rianta cadarnhaol.
 - d.** Pan fo angen, cynnig cymorth dargyfeirio ar gyfer defnyddio sylweddau, trais ar sail rhywedd, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma hiliol, llesiant ac iechyd meddwl gwael, a lefelau isel o hunan-barch a hyder.
 - e.** Cefnogi'r broses o ddatblygu hunanreolaeth, rheolaeth emosiynol a chyfalaf cymdeithasol a hunanalluedd.
 - f.** Cefnogi menywod i gael gobaith, diben ac ymdeimlad o berthyn o fewn eu cymuned.
- xvi.** Dylai dargyfeirio gynnig gwasanaethau cymorth iechyd meddwl cyflym (o fewn 2 wythnos) gan fod hyn yn angen cyffredin ac arwyddocaol iawn. Os nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigon i ddiwallu angen lleol, yna dylid datblygu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl dargyfeirio newydd.
- xvii.** Mae angen i wasanaethau anstatudol arbenigol ar gyfer menywod amrywiol o ran ethnigrwydd sy'n rhan o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach fod yn ganolog o ran cefnogi menywod sy'n rhan o broses ddargyfeirio. Dylai darparwyr arbenigol o'r fath gynnig cymorth a phrosesau mentora i ddarparwyr dargyfeirio eraill i gefnogi'r broses o ddatblygu eu hymarfer gwrth-hiliol. Pan na fydd gwasanaethau arbenigol o'r fath ar gael, mae angen datblygu'r gwasanaethau hyn er mwyn diwallu anghenion unigolion amrywiol o ran ethnigrwydd yn lleol. Mae angen nodi gwasanaethau arbenigol amrywiol er mwyn hwyluso'r broses o fapio a rhannu arferion gorau a sicrhau llwybrau atgyfeirio effeithiol ar gyfer dargyfeirio.
- xviii.** Dylid llunio pob gwasanaeth dargyfeirio newydd ar y cyd â menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

2. Addysg a Hyfforddiant Hirdymor o Ansawdd Uchel a gaiff eu Llunio ar y Cyd



xix. Mae angen i'r System Cyfiawnder Troseddol a gwasanaethau statudol eraill, fel gwasanaethau cymdeithasol, sy'n rhan o'r broses o asesu menywod a/neu sy'n cefnogi gwaith dargyfeirio, gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ymarfer gwrth-hiliol sy'n ystyriol o rywedd a thrawma, yn enwedig swyddogion yr heddlu ar y llinell flaen a swyddogion heddlu mewn dalfeydd. Dylai addysg a hyfforddiant ganolbwyntio ar y canlynol:

- a.** Meithrin sgiliau cyfathrebu cyfeillgar heb farnu sy'n gymwys yn ddiwylliannol ac sy'n defnyddio iaith a terminoleg briodol.
- b.** Deall mai menyw yn gyntaf yw menyw a all fod wedi troseddu ac felly dylid canolbwyntio ar ddangos empathi, deall anghenion sy'n ystyriol o rywedd, straen a thrawma hiliol, profiadau niweidiol yn ystod plentynod a meithrin cydberthynas er mwyn hwyluso proses ddargyfeirio, asesu a chymorth effeithiol.

- c.** Deall ei realiti a'i brofiadau personol ei hun a sut mae gwahaniaethu ar sail hil, oedran, rhyw a chrefydd yn dod i'r amlwg mewn cymdeithas a diwylliant yng Nghymru / y DU yn ehangach.
- d.** Mae angen canolbwyntio ar ddeall ei ragfarn fwriadol ac anfwriadol ei hun a herio hyn er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol ymarfer gwrth-hiliol, sy'n ystyriol o oedran, rhywedd a chrefydd fel nad yw'r nodweddion hyn yn lens sy'n arwain at anghymesuredd ac asesiad annheg a mesurau cosbol i fenywod fel 'uwch-dariffio'.
- e.** Creu diwylliant o ymarfer myfyriol i gefnogi trafodaeth fyfyril hyderus ag asiantaethau, cydweithwyr, timau a goruchwylwyr ar gymhwysedd diwylliannol a materion gwrth-hiliaeth a chefnogi menywod o gefndiroedd ethnig leiafrifol er mwyn sicrhau ymarfer myfyriol diwylliannol a gostyngedd rwydd diwylliannol.

xx. Mae angen i swyddogion heddlu dalfeydd gael addysg a hyfforddiant fel y gallant adnabod cyfleoedd atgyfeirio ar gyfer dargyfeirio i fenywod yn well a chefnogi dulliau priodol o asesu risg a rhoi'r gorau i uwch-risgio menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

xxi. Mae angen i gyfreithwyr gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ganlyniadau ac effeithiau cadarnhaol dargyfeirio cyn achos llys a Datrysiaid y Tu Allan i'r Llys fel y gallant gynghori eu cleientiaid yn briodol.

xxii. Dylai Addysg a Hyfforddiant mewn perthynas ag ymarfer gwrth-hiliaeth a gwrth-hiliol, gyda chymorth priodol, gael ei ddatblygu a'i hwyluso gan bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sydd â realiti bywyd o gymryd rhan yn y System Cyfiawnder Troseddol.

xxiii. Mae angen i sefydliadau darparwyr dargyfeirio gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ymarfer hiliol sy'n ystyriol o drawma ac ymarfer gwrth-hiliol ar bob lefel o'r sefydliad, gan gynnwys uwch-arweinwyr. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi proses effeithiol o ddarparu gwasanaethau a datblygu arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol gwrth-hiliol fel nad oes ofn 'ei gael yn anghywir' ac fel bod gan bob ymarferydd yr hyder i drafod iaith, terminoleg, materion a realiti o'r fath.

3. Ymchwil o ansawdd uchel sy'n cynnwys realiti bywyd unigolion amrywiol o ran ethnigrwydd

- xxiv.** Mae angen data y cytunir yn gyffredinol arnynt a phroses effeithiol o gaffael data a'u rhannu yn amlasiantaethol fel y gall yr holl wasanaethau dargyfeirio ddeall a chefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn effeithiol. Mae angen prosesau cywir i gofnodi a monitro anghenion ethnigrwydd, iaith a ffydd fel y gellir dadansoddi i gefnogi dealltwriaeth a phroses barhaus o ddatblygu ymarfer.
- xxv.** Mwy o ymchwil i ddeall gorgynrychiolaeth o fenywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn y system cyfiawnder troseddol.
- xxvi.** Mae angen mwy o waith ymchwil ar gyd-destunau lleol, er mwyn datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a phrofiadau lleol a chefnogi prosesau ymgysylltu ac ymatal dargyfeirio yn well. Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil ansoddol er mwyn deall realiti bywyd rhingylliaid dalfeydd yng Nghymru mewn perthynas â'r prosesau gwneud penderfyniadau Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn fwy cyffredinol ac mewn perthynas â chefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.
- xxvii.** Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil i ddeall profiadau ac anghenion menywod ifanc o gefndiroedd ethnig leiafrifol o fewn dargyfeiriadau cyn achos llys a llunio gwasanaethau dargyfeirio arbenigol ar y cyd gyda / ar gyfer menywod ifanc os bydd angen.

4. Meithrin ymddiriedaeth â phobl amrywiol o ran ethnigrwydd ac allgymorth cymunedol

- xxviii.** Mae angen i'r System Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu yn benodol ddatblygu prosiectau allgymorth i feithrin cydberthnasau cadarnhaol ag unigolion, grwpiau a chymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd, i feithrin ymddiriedaeth fel y gallant hyrwyddo canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol ymarfer dargyfeirio cyn achos llys yn fwy effeithiol. Dylid creu'r prosiectau hyn ar y cyd a'u darparu gyda gwasanaethau ac aelodau cymunedol o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.
- xxix.** Dylai darparwyr dargyfeirio i fenywod fynd ati'n gyson i herio'r hiliaeth a'r rhywiaeth a wynebwr gan fenywod amrywiol o ran ethnigrwydd mewn perthynas â phroffilio hiliol a'r lens gwyredd rhywedd negyddol sy'n arwain yn aml at driniaethau llymach

gan y system mewn cyd-destunau dargyfeirio cyn achos llys (a phrofiadau o'r System Cyfiawnder Troseddol yn ehangach).

5. Mwy o Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar Lefel Sefydliadol

- xxx.** Mae angen mwy o ffocws ar wella'r amrywiaeth ethnig drwy'r System Cyfiawnder Troseddol ac ar bob lefel o'r sefydliad er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi a'r amrywiaeth o bobl y mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn eu gwasanaethu.
- xxxi.** Datblygu strategaeth, polisi ac ymarfer recriwtio, cadw a datblygu sy'n amlinellu nodau, camau gweithredu ac ymrwymadau asiantaethau Cyfiawnder Troseddol o ran sut y byddant yn sicrhau bod ganddynt weithlu amrywiol o ran ethnigrwydd yn eu sefydliadau, ar bob lefel o ymarfer, gan gynnwys uwch-arweinwyr. Dylai canlyniadau amrywiaeth ethnig gyd-fynd â demograffeg ranbarthol a chynrychioli'r cyhoedd a wasanaethir ganddo, gyda meincnod sylfaenol o 5% ar gyfer rhanbarthau sydd â lefelau isel o amrywiaeth o ran ethnigrwydd.
- xxxii.** Datblygu panel adolygu allanol ac annibynnol sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd ar gyfer strategaeth, polisi ac ymarfer recriwtio, cadw a datblygu i bob asiantaeth Cyfiawnder Troseddol lle mae angen i 70% o gynrychiolaeth o'r aelodaeth fod o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd.
- xxxiii.** Oherwydd y dylanwad ar anghymesuredd hiliol mewn dargyfeiriadau cyn achos llys, dylid canolbwyntio'n benodol ar gynyddu lefel amrywiaeth o ran ethnigrwydd swyddogion heddlu llinell flaen a rhingylliaid heddlu dalfeydd. Er mwyn canolbwyntio ar wella amrywiaeth o ran ethnigrwydd swyddogion heddlu sydd newydd gymhwyso drwy'r radd bydd angen cydweithio â Sefydliadau Addysg Uwch i sicrhau eu hymrwymiad i'r cam gweithredu hwn. Yn y 12-18 mis nesaf, dylai pob penodiad a/neu ddychafiad i rôl rhingyll dalfeydd gael o leiaf 15% o gynrychiolaeth o grwpiau amrywiol o ran ethnigrwydd.
- xxxiv.** Dylai'r holl asiantaethau Cyfiawnder Troseddol a gweithwyr proffesiynol cysylltiol roi prosesau mentora a chymorth myfyriol ar waith gan ymarferwyr amrywiol o ran ethnigrwydd profiadol ar bob lefel o'u gweithlu gan gynnwys mentora i unigolion mewn rolau uwch-arweinwyr.



Trosolwg o'r Llenyddiaeth: Deall Dargyfeiriad Cyn Achos Llys, Anghymesuredd a Hiliaeth

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg byr o'r llenyddiaeth bresennol a'r prif wersi i'w dysgu a'r themâu o gam cyntaf y prosiect ymchwil hwn sef cynnal adolygiad systemataidd o'r llenyddiaeth (Jones, 2024a). Roedd cam cyntaf yr ymchwil hon hefyd yn cynnwys gwersi i'w dysgu o'r naratifau ymgysylltu cymunedol diweddar ac adroddiadau a wnaed wrth lunio'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar y cyd ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn ystod 2021 i 2022 a thynnodd sylw at wersi i'w dysgu yn benodol o ran trawma hiliol ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma. Mae'r adolygiad a gyhoeddwyd o'r llenyddiaeth yn tua 41 mil o eiriau ac mae'n adolygu mwy na 170 o ffynonellau o lenyddiaeth gan gynnwys cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid, dogfennau polisi a llenyddiaeth lwyd o ansawdd. Awdur yr adroddiad hwn oedd y cyd-arweinydd ar gyfer ymgysylltu cymunedol a lluniwyd y cynllun ar y cyd ag awdur y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (2022). Mae cam cyntaf helaeth y prosiect ymchwil hwn wedi'i gyhoeddi ynghyd â chrynodeb gweithredol a ffeithlun o'r gwersi allweddol a ddysgwyd o'r llenyddiaeth mewn perthynas ag arferion da wrth gefnogi dargyfeiriad a ffeithlun o ddealltwriaeth o drawma hiliol ac ymateb iddo. Cyhoeddwyd y rhain gyda chymorth Hyb ACE Cymru ym mis Tachwedd 2024 ac maent ar gael ar-lein ac i'w lawrlwytho ar eu gwefan (Jones, 2024a-d).



Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys* 1 Mae Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn galluogi i'r heddlu ddelio â lefel is o ymddygiad troseddol ac ymddygiad o'r fath sy'n cael ei gyflawni am y tro cyntaf yn aml drwy ddefnyddio'r hyn a ystyrir yn orchymyn datrysiad priodol heb fod angen myn drwy broses erlyn yn y llys. Lle y bo'n briodol hefyd, a gyda chydysyniad, dylai pob Datrysiad y Tu Allan i'r Llys gefnogi'r dioddefwr i sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed a'i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, er enghraifft, bod yr unigolyn a gyflawnodd y drosedd yn ymddiheuro ac yn ymgysylltu â rhaglen addysg i'w helpu i adsefydlu (Gibson, 2021). Newidiodd Heddlu De Cymru i fodel dwy haen yn 2021, ond nid oedd hyn yn rhan o'r prosiect peilot yn Lloegr. Mae'r dull dwy haen yn fwy tebyg i ymarfer Cyfiawnder Adferol, a byddai rhai yn awgrymu ei fod yn herio achosion yr ymddygiad a'i fod yn ddatrysiad gwell i'r dioddefwr, i'r troseddwr ac i gymdeithas (Bowen a Slade, 2020; Gibson, 2021) ac yn sicrhau bod y dioddefwr yn rhan fwy canolog o'r broses a'r system (Gibson, 2021).

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn, 'A Smarter Approach to Sentencing' yn 2020 sy'n cynnig y dylid mabwysiadu'r fframwaith dwy haen yn genedlaethol ac mae'n sicrhau ymddangos y bydd hyn yn digwydd yn 2024 ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Bydd y fframwaith cenedlaethol newydd hwn ar gyfer oedolion yn cyflwyno fframwaith dwy haen

ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys gyda'r defnydd o rybudd dargyfeirio neu rybudd cymunedol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd heddluoedd yn gallu parhau i ddefnyddio datrysiadau anstatudol fel y Datrysiad Cymunedol. Bydd y rhybudd dargyfeiriol newydd yn disodli'r rhybudd amodol, ond bydd yn debyg iddo, a bydd amod adsefydlu, gwneud iawn neu gosbol wedi'i atodi gydag amserlen a chanlyniad o erlyniad os na chaiff ei chyflawni (Y Ganolfan Arloesi ym Maes Cyfiawnder, 2022). Y dull gweithredu ar gyfer plant (10 i 17 oed) yw defnyddio model ymarfer plentyn yn gyntaf sy'n dargyfeirio plant oddi wrth effeithiau niweidiol y system cyfiawnder troseddol. Defnyddir dau Ddatrysiad y Tu Allan i'r Llys yng Nghymru a Lloegr. Y datrysiad lefel is yw'r Rhybudd leuenctid a'r datrysiad lefel uwch yw'r Rhybudd Amodol leuenctid (Gov.UK, 2024).

Mae Gibson (2021) yn tynnu sylw at y ffaith, lle caiff amodau adsefydlu eu rhoi gyda Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys i oedolion, gall lwyddo i leihau achosion o aildroseddu ac mae'n cyfeirio at Brosiect CARA sy'n gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig yn Hampshire (Strang et al, 2017); mae Checkpoint yn Durham (Weir et al., 2021;) a Turning Point yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr (Neyroud a Slothower, 2013) yn dangos tystiolaeth o hyn. Mae Weir et al. (2021) yn ychwanegu at y ddadl dros ddefnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ac mae'n tynnu sylw at yr adolygiad a gynhaliwyd gan Blakeborough a Pierpoint yn 2007 sy'n nodi bod ymyriadau cyn achos llys sy'n defnyddio rhybuddion amodol yn cefnogi pobl oedd wedi troseddu i fynd i'r afael ag achosion troseddau ar draws chwech o heddluoedd y DU. Canfu Towler (2017) hefyd fod dulliau dargyfeirio gan ddefnyddio ymarfer adferol gydag oedolion ifanc 18-25 oed yn Ne Cymru yn llwyddiannus wrth herio ymddygiad troseddol a chefnogi anghenion ehangach sy'n gysylltiedig â phrofiadau niweidiol yn ystod plentynod.

Yn wir, canfu Holloway, Williams a Brayford (2017) a Cordis Bright (2021 a 2022) yng nghydestun Cymru bod dull penodol i fenywod yn llwyddiannus wrth gefnogi dargyfeiriadau oddi wrth y System Cyfiawnder Troseddol.

Fodd bynnag, mae Wier et al (2021) yn awgrymu y dylid gofalu i beidio â gor-honni effeithiolrwydd Datganiadau y Tu Allan i'r Llys a chanfu bod yr ymchwil yn y maes hwn yn gyfyngedig iawn yn y DU (cefnogwyd gan Cordis Bright, 2019). Mae'n sicr bod angen gwneud mwy o ymchwil i gefnogi dealltwriaeth well o sut a pham y gall dulliau o'r fath weithio (y Ganolfan Arloesi ym Maes Cyfiawnder, 2022).

Mae diffyg ymchwil a dealltwriaeth â ffocws o realiti bywyd ac anghenion pobl amrywiol o ran ethnigrwydd sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol a hyd yn oed llai wrth adolygu'r llenyddiaeth ar ddargyfeirio cyn achos llys a Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Mae'r gwaith ymchwil yn eithaf cyfyngedig o hyd ar effeithiolrwydd Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys, ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar realiti bywyd ac anghenion dynion o ethnigrwydd Gwyn Prydeinig. Fodd bynnag, er gwaethaf y cyfyngiadau hyn a'r angen i gymryd gofal, mae rhai gwersi i'w dysgu o'r prosiectau hyn a'u hadolygiadau a gellid dadlau eu bod yn ddefnyddiol ac yn gymwys i unigolion o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

Wrth gyfosod y nodweddion cyffredin a gefnogodd lwyddiant a chanlyniadau cadarnhaol mewn rhaglenni dargyfeirio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys, gwelir eu bod yn cynnwys rhai nodweddion allweddol. Mae angen i'r dull Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ymgorffori dull partneriaeth cryf gydag ymarfer cyson ar draws pob partner darpariaeth a sicrhau bod rhwydwaith yn cael ei greu gyda phartneriaid darpariaeth i rannu data, profiadau, ymarfer da, gwaith monitro a gwerthuso. Dylai fod prosesau cydweithio agos rhwng yr Heddlu a darparwyr ymyriadau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ac asesu cymhwysra cleientiaid a dylai prosesau gwneud penderfyniadau a phrosesu fod yn gyflym er mwyn cefnogi ymrwymiad ac ysgogiad cleientiaid i ymgysylltu â darpariaeth dargyfeirio. Dylai ymarfer dargyfeirio cyn achos llys geisio meithrin cydberthnasau cadarnhaol a chryf â chleientiaid ar adeg eu harestio a thrwy gydol eu hymgyssylltiad â'r prosiect. Dylid canolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr, dangos esiampl gadarnhaol gan yr ymarferydd ac ymyriadau sy'n cefnogi trafodaeth i wella hunanalluogedd, dewis ar sail gwybodaeth, meithrin sgiliau datrys problemau a defnyddio ymarfer sy'n ystyriol o drawma. Ni ddylid gwneud i gleientiaid deimlo stigma niweidiol a'r label o 'fod yn droseddwr' ac yn hytrach dylid canolbwyntio ar eu cefnogi i fyw bywydau iachach a mwy cadarnhaol. Dylai ymyriadau cyn achos llys a chynlluniau cymorth gael eu harwain gan ymarferwyr sy'n annibynnol ar y System Cyfiawnder Troseddol sy'n gweithio gyda chleientiaid i ddatblygu cymorth i ddiwallu eu hanghenion ac ni ddylent lunio cynlluniau sy'n rhy feichus ac sy'n cynnwys llawer o amodau. Mae'n ymddangos bod tair i bedair amod yn ddull cyffredin a defnyddiol. Dylai ymyriadau fod wedi'u teilwra'n unigol ac fel arfer mae eu hangen i gefnogi profiadau negyddol

sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, defnyddio sylweddau, cydberthnasau afiach, rheoli emosiynau ac ymddygiad, profiadau niweidiol yn ystod plentynod a llesiant cyffredinol. Dylai ymyriadau ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau darparu gan gynnwys cymorth unigol, atgyfeiriad i wasanaethau cymorth, gweithdai grŵp, cymorth ymyriadau ar-lein. Mae angen dulliau Cyfiawnder Adferol i sicrhau bod y dioddefwr yn cael ei gynnwys yn effeithiol drwy gydol cyfnod ymgysylltu'r cleient sydd wedi troseddu. Mae angen i ddioddefwyr deimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt, eu bod yn cael eu clywed a bod ganddynt rywffaint o ddewis a rheolaeth dros y broses a'r amodau a bennwyd ar gyfer y cleient. O ran addysg a hyfforddiant i'r gweithlu, mae angen ffocws ar bob partner i gefnogi dealltwriaeth amlasiantaethol o arferion gorau dargyfeirio a meithrin sgiliau i gefnogi'r dull gweithredu a'r model ymarfer yn effeithiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i staff yr heddlu sydd wedi arfer gweithio mewn prosesau erlyn mwy cosbol a ffurfiol ac sy'n llai cyfarwydd â gweithio gan ddefnyddio dulliau gweithredu mwy therapiwtig sydd wedi'u harwain gan anghenion, ac mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ddulliau cyfiawnder adferol. Dylid llunio addysg a hyfforddiant ar y cyd a'u cyflawni gan unigolion sydd â phrofiadau bywyd o'r System Cyfiawnder Troseddol a dulliau cyn achos llys. Yn olaf, mae angen ymchwil empirig o ansawdd uchel ar gyfer prosiectau dargyfeirio cyn achos llys yn y dyfodol fel y gellir rhoi gwersi dibynadwy ar waith ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, a rhaid i hyn gynnwys profiadau ac anghenion pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol a nodweddion gwarchodedig eraill fel crefydd, oedran, rhywedd, LHDTCR⁺, yn enwedig hunaniaethau traws.



Diffyg safbwyntiau amrywiol o ran ethnigrwydd mewn llenyddiaeth dargyfeirio cyn achos llys

Fel y nodwyd uchod, mae'n amlwg mai'r brif feirniadaeth o'r llenyddiaeth sy'n gwerthuso ymyriadau cyn achos llys a Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yw nad yw'r gwerthusiadau wir yn dadansoddi profiadau unigolion amrywiol o ran ethnigrwydd o'r rhaglenni dargyfeirio (Bennett a Corry-Roak, 2021). Mae diffyg safbwyntiau unigolion amrywiol o ran ethnigrwydd yn y llenyddiaeth ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys hefyd yn golygu bod realiti bywyd ac anghenion menywod (Sheeran, 2022; Thomas, 2021) a phlant (Traverse, 2023, 2023b; Canolfan Polisi ac Ymarfer Cymru, 2021), yn enwedig merched ifanc (Fitzpatrick et al, 2022), o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd, hefyd yn anhysbys bron yn y llenyddiaeth (Jones, 2024).

Mae'r diffyg dealltwriaeth a chymorth a gwasanaethau priodol yn anfon pobl amrywiol o ran ethnigrwydd yn ddyfnach i mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol (Wang, 2023) ac nid yw'n syndod bod rhai gwahaniaethau yn gwaethygu (Bhattacharya, 2021). Nid yw'r realiti nad yw rhaglenni dargyfeirio yn diwallu anghenion nac yn deall realiti bywyd pobl amrywiol o ran ethnigrwydd na hyd yn oed yn eu hystyried mewn adroddiadau yn beth newydd. Yn wir, yn 2009, cynigiodd NACRO ganllaw defnyddiol a hanfodol i ddatblygu gwasanaethau priodol i bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd. Mae'n peri pryder bod eu hargymhellion yn gredadwy ac yn angenrheidiol o hyd yn 2025, 16 o flynyddoedd ar ôl iddo gael ei gyhoeddi. Mae'r realiti hwn yn dangos cyflwr di-dwf y System Cyfiawnder Troseddol o ran deall a datblygu gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn diwallu anghenion a realiti bywyd pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

Gelid dadlau bod y wybodaeth i newid arferion ac i fod yn gynhwysol ac yn wrth-hiliol wedi bodoli ers cyn amser, ond nad yw'r System Cyfiawnder Troseddol wedi gwrandao na chymryd y camau sydd eu hangen i sicrhau ei bod yn troi'n realiti, yn anffodus fel yr holl brif ddiwydiannau mewn cymdeithas yn y DU. Nod yr argymhellion canlynol yw cefnogi ymarfer gyda phobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a datblygu gwasanaethau priodol ar eu cyfer ac mae'r rhain wedi'u cydosod o adroddiadau Prif Arolygydd Carchardai EF (2022) a Bhattacharaya (2021) ond maent yn bennaf o adroddiad NACRO (2009). Nid yw'r argymhellion hyn yn benodol ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a dargyfeiriadau cyn achos llys ond

maent yn bwynt cyfeirio defnyddiol i'w ystyried wrth ddatblygu gwasanaethau effeithiol a chynhwysol ar gyfer pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd. Mae'r argymhellion hyn wedi'u defnyddio fel pwynt cyfeirio defnyddiol wrth ddatblygu argymhellion mwy penodol ar gyfer cymorth dargyfeirio cyn achos llys i fenywod a phlant ac oedolion ifanc yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.



Argymhellion ar gyfer datblygu gwasanaethau sy'n cynhwysol o ran ethnigrwydd

Angen am:

1. Gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu'r grwpiau a wasanaethir ganddo.
2. Addysg a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cymhwysra diwylliannol ac ymarfer gwrth-hiliol ac sy'n cynnwys y modd y mae ethnigrwydd yn aml yn rhyngblethu ag oedran (plant ac oedolion ifanc), crefydd ac iaith benodol.
3. Cydberthnasau â chleientiaid sy'n canolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth, parch a dilysrwydd drwy sgysiau cymwys o ran diwylliant lle mae cleientiaid yn teimlo y gallant ddatgelu a bod yn onest am eu profiadau a'u hanghenion.
4. Asesiad o anghenion sy'n ystyried hunaniaeth ddiwylliannol a chrefyddol unigolyn.
5. Asesiadau risg sy'n wrthrychol, ac ni ddylid ystyried hil ac ethnigrwydd fel dangosydd o berygl.
6. Cydberthnasau effeithiol a gaiff eu meithrin gyda gwasanaethau dehongli / iaith.
7. Cofnodi a monitro ethnigrwydd, iaith a ffydd fel y gellir dadansoddi i wella dealltwriaeth.
8. Creu rhwydweithiau a phartneriaethau effeithiol â gwasanaethau amrywiol ac arbenigol sy'n diwallu anghenion pobl amrywiol o ran ethnigrwydd ac sy'n creu atgyfeiriadau ac yn rhannu gwybodaeth.
9. Dulliau cyfathrebu effeithiol drwy'r holl sefydliad â phartneriaid ar waith, arferion gorau a chanllawiau.
10. Codi ymwybyddiaeth a meithrin ymddiriedaeth â grwpiau a chymunedau ethnig leiafrifol.



Diwallu anghenion menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd o fewn y broses dargyfeirio cyn achos llys

Canfu adroddiad Corston (2007) fod menywod yn fwy tebygol o gael eu harestio am fân droseddau na dynion, ac o gael eu dedfrydu am droseddau a gyflawnir am y tro cyntaf na dynion, a'u bod yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr na dynion. Er mai dim ond 14% o'r bobl a gaiff eu harestio, 15% o'r bobl a gefnogir drwy'r broses brawf a 5% o'r bobl sydd mewn carchardai yn 2018/19 oedd yn fenywod, dyma un o'r grwpiau sydd fwyaf agored i niwed o hyd yn y System Cyfiawnder Troseddol (y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder, 2019). Ar y cyfan, mae menywod wedi cael eu trin yn fwy llym gan y System Cyfiawnder Troseddol na dynion ac mae canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Corston yn awgrymu bod angen dulliau sy'n benodol ar gyfer menywod o fewn y System Cyfiawnder Troseddol.

Rhyddhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Strategaeth Troseddau Benywaidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) sy'n defnyddio argymhellion o adroddiad Corston (2007) ac sy'n canolbwyntio ar leihau nifer y menywod sydd yn y ddalfa drwy ddefnyddio mwy o ymyriadau cymunedol a datblygu cymorth mwy priodol i fenywod mewn dalfeydd sy'n canolbwyntio ar deulu, lleihau hunan-niwed, a chymorth i drosglwyddo'n ôl i'r gymuned ar ôl cael eu rhyddhau. Fodd bynnag, daw'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2022) i'r casgliad nad yw'r System Cyfiawnder Troseddol yn ymatebol nac yn gefnogol i anghenion menywod yn y system o hyd.

Yng nghyd-destun Cymru, cyhoeddwyd y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ar y cyd rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn 2019 a dyma'r prif ddull cyflawni ar gyfer y blaenoriaethau yn Strategaeth Troseddau Benywaidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) gyda ffocws/dull y tynnwyd sylw ato'n benodol ar ymarfer ar sail tystiolaeth. Nod y Glasbrint (2019: t1) yw cyflawni'r her o ddatblygu a darparu dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer cymorth i fenywod yng Nghymru sy'n 'cydnabod anghenion menywod sy'n ymwneud yn benodol â rhywedd, hyrwyddo llesiant cadarnhaol a chynorthwyo canlyniadau tymor hir llwyddiannus i ostwng lefelau aildroseddu.' Prif ffocws y Glasbrint yw: Gostwng nifer y menywod yn y system drwy wella prosesau ymyrryd yn gynnar, atal a chymorth dargyfeirio; cynnig dewisiadau amgen yn hytrach na dalfeydd a gwella cymorth cymunedol fel y ganolfan breswyl i fenywod; a

gwella dealltwriaeth o anghenion menywod drwy dystiolaeth gadarn a helpu i wella hyder dedfrydwyr mewn dedfrydau cymunedol. Mae heriau yn gysylltiedig â hyn am nad oes carchar i fenywod yng Nghymru, felly fel arfer bydd menywod yn cael eu cadw mewn sefydliadau carchar a all fod yn bell iawn oddi wrth eu teuluoedd a'u rhwydwaith cymorth. Gall hyn hefyd gymhlethu profiadau o ailsefydlu ac ailintegreiddio yn dilyn cyfnod dan glo i fenywod sy'n byw yng Nghymru.

Fodd bynnag, yng Nghymru, mae arferion da yn lledaenu'n gryfach drwy'r Glasbriant a chafwyd cynnydd defnyddiol ers iddo gael ei gyhoedd. Gwelwyd cynnydd da o ran atgyfnerthu opsiynau cymunedol i fenywod, yn benodol bod cynlluniau dargyfeirio ar waith ym mhob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru a bod gwasanaeth sy'n defnyddio dull system gyfan ar gyfer menywod ledled De Cymru a Gwent. Er gwaethaf y strategaeth glir y Glasbriant, mae bylchau o hyd o ran deall profiadau ac anghenion menywod yn fwy cyffredinol a hyd yn fwy ar gyfer menywod a merched amrywiol o ran ethnigrwydd o fewn y System Cyfiawnder Troseddol a'r System Cyfiawnder Ieuencid. Drwy ddadansoddi'r themâu o'r llenyddiaeth sydd ar gael gan Easton et al (2010), y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr (2015), Sefydliad Tavistock (2019), y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder (2019), The Footprints Project (2020), Advance (2010), prosiect SHE (2022), Sheeran (2022) Holloway, Williams a Brayford (2017); a Cordis Bright (2021 a 2022) gwelir argymhellion a dealltwriaeth glir ar gyfer datblygu prosiectau dargyfeirio i fenywod yn y dyfodol. Ar gyfer trafodaeth gynhwysfawr o'r llenyddiaeth hon, mae'r adroddiad hwn yn eich cyfeirio at yr adolygiad llawn o lenyddiaeth, sef cam cyntaf y prosiect ymchwil hwn (Jones, 2024).

Fodd bynnag, nid oes yr un o'r naratifau uchod yn trafod anghenion na phrofiadau'r menywod amrywiol o ran ethnigrwydd yr ymgysylltwyd â nhw gyda'r prosiectau. Yn wir, mae'r llenyddiaeth sydd ar gael ar brofiadau menywod ethnig leiafrifol o brosesau dargyfeirio cyn achos llys ac ymyriadau gan gynnwys y defnydd o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn gyfyngedig iawn a phrin iawn y ceir unrhyw beth o safbwynt y DU (Sheeran, 2022).

Er y diffyg llenyddiaeth benodol ar ddargyfeirio sy'n ymwneud â menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a'u realiti bywyd, ceir rhai ffynonellau newydd defnyddiol iawn o lenyddiaeth gan amrywiaeth o academyddion (gan gynnwys yn benodol

waith Hargons et al, 2022; Imkaan, 2016, Kanakam, 2022; Naz et al, 2019; Thomas, 2021; a Williams, 2021). Dangosodd y prif adolygiad o lenyddiaeth a gynhaliwyd yng nghanm cyntaf y prosiect ymchwil hwn feysydd dysgu clir ac argymhellion ar gyfer datblygu ymarfer sy'n diwallu anghenion a phrofiadau menywod o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn well; gellid dadlau y gellir cymhwyso'r rhain yn uniongyrchol i brosesau dargyfeirio a dulliau cyn achos llys yng Nghymru (Jones, 2024).

Caiff y gwersi i'w dysgu a'r argymhellion o'r cam adolygu llenyddiaeth eu dadansoddi a'u cyfod yng ngoleuni'r canfyddiadau ymchwil o'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn System Cyfiawnder Troseddol De Cymru sy'n rhan o'r broses o ddarparu dargyfeiriadau cyn achos llys gan gynnwys yr unigolion hynny sydd â realiti bywyd o gael Datrysiad y Tu Allan i'r Llys, sef ail a thrydydd cam y prosiect ymchwil hwn. Caiff y gwersi i'w dysgu a'r argymhellion terfynol ar gyfer datblygu arferion yn y dyfodol eu cyflwyno'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn yn yr adran trafod a dadansoddi.



Diwallu anghenion plant o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd mewn perthynas â dargyfeirio cyn achos llys

Amlinellodd y Glasbriant ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru (2019) nodau i ddatblygu System Cyfiawnder Ieuencid sy'n drawsnewidiol ac yn gydgyssylltiedig, lle mae rhanddeiliaid allweddol yn cydweithio i sicrhau bod y system yn trin plant â pharch a thegwch ac yn cefnogi newid cadarnhaol ac yn cefnogi plant i fyw bywydau heb droseddau, i deimlo'n ddiogel ac i gael llesiant cadarnhaol. Mae Case a Browning (2021) yn ychwanegu at hyn ac yn cynnig dull o roi'r plentyn yn gyntaf sydd bellach wedi'i fabwysiadu gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr yn ei strategaeth (2021). Oherwydd yr ymrwymiad hwn i ddull sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf a bod pawb dan 18 oed yn cael ei ddiffinio fel plentyn gyda'r dull hwn, bydd y term 'plentyn' yn cyfeirio at unrhyw un dan 18 oed yn yr adran hon. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod gwaith ieuencid, sy'n broffesiwn â chysylltiadau agos, yn labelu ei waith fel gweithio gyda phobl ifanc 11-25 oed a bod unrhyw un o fewn yr ystod oedran hwn yn berson ifanc a bod hyd yn oed y System Cyfiawnder Troseddol yn defnyddio'r gair 'ieuencid' o fewn ei label ei hun, fel y mae llawer o'r llenyddiaeth ar 'ddargyfeirio ieuencid'. Mae hefyd yn agor trafodaethau neu haeriadau ehangach bod pob ifanc yn trawsnewid i fod

yn oedolion o 18-25 oed, ac y dylent hefyd gael cyfleoedd dargyfeirio ar wahân sy'n fwy cynhwysol a hyblyg.

Mae Case a Browning (2021) yn cynnig, er mwyn i'r System Cyfiawnder Ieuencid ddefnyddio dull o roi'r plentyn yn gyntaf, dylai wneud y canlynol: gweld plant fel plant a diwallu eu hanghenion; cefnogi plant i ddatblygu hunaniaethau rhag-gymdeithasol; cydweithio gyda phlant ac ar eu cyfer; a hyrwyddo prosesau dargyfeirio i ffrwd o'r stigma o fod yn rhan o'r system. Mae Case et al (2022) yn dadlau mai'r her fwyaf a mwyaf taer i'r System Cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru a Lloegr yw bod angen sicrhau bod yr elfen rhoi'r plentyn yn gyntaf yn ymarfer cyson priif ffrwd ac nid dim ond yn gysyniad polisi a strategol.

Mae Llywodraeth Cymru (2022) yn cydnabod bod angen newid diwylliannol yn y system a datblygu dull gweithredu nad yw'n gosbol, nad yw'n troseddoli'r unigolion oedd/sydd yn cael gofal, sy'n defnyddio dull o roi'r plentyn yn gyntaf ac sy'n deall profiadau plant a phobl ifanc amrywiol o ran ethnigrwydd yn well mewn perthynas â dargyfeirio cyn achos llys. Wrth gydosod y drafodaeth a'r cynnwys o'r llenyddiaeth allweddol (Harris a Goodfellow, 2022; Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, 2022; Jones a Henry, 2022; Traverse 2023; a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2020), mae angen datblygu a dealltwriaeth o nifer o feysydd allweddol ac mae'r adolygiad llenyddol a gynhaliwyd yng ngham cyntaf y prosiect yn tynnu sylw at y gwersi cyffredin a ddysgwyd a'r argymhellion ar gyfer ymarfer a pholisi (Jones, 2024).

Canfu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2023), er mwyn cefnogi prosesau dargyfeirio yn effeithiol bod angen gwaith partneriaeth gwell gyda gweledigaeth a rennir a bod enghreifftiau da o ymarfer o'r fath sy'n cynnwys yr heddlu, gwasanaethau iechyd, addysg, plant, llysoedd a darparwyr ehangach lle'r oedd pob un ohonynt yn defnyddio ymarfer sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac sy'n seiliedig ar hawliau.

Fodd bynnag, canfu'r adroddiad hefyd fod gan ddulliau atal a dargyfeirio gyllid anghyson, bod ansawdd yr ymarfer yn amrywiol, bod cyfleoedd yn cael eu colli i'w defnyddio oherwydd prosesau rhannu gwybodaeth gwael, bod angen diweddarau canllawiau ar arferion, bod ansawdd y data a'r broses o'u caffael yn wael, ynghyd â diffyg cysondeb ar lefel genedlaethol a llywodraeth leol. Mae'r themâu hyn yn gyson â gwaith ymchwil cynharach yng nghydestun Cymru gan Williams a Llywelyn (2016) a fu'n gwerthuso Canolfannau Cyfiawnder

Ieuencid Dyfed Powys. Nodwyd themâu tebyg o arferion da ond nodwyd anghenion ar gyfer hyfforddiant gwell i'r heddlu allu nodi cyfleoedd atgyfeirio i'r System Cyfiawnder Troseddol ac ymyriadau cynnar, ynghyd â phroses well o rannu gwybodaeth â'r Gwasanaeth Troseddu Ieuencid. Canfu hefyd y gellid gwneud defnydd gwell o brosesau atgyfeirio i Wasanaethau Troseddwy'r Ieuencid ac y gellid cael trafodaeth fwy proffesiynol gydag ymarferwyr troseddwy'r Ieuencid ar achosion atgyfeirio ffiniol. Yn ddiddorol, nid oes yr un o'r adroddiadau yn sôn am ddiwallu anghenion na phrofiadau plant o gefndiroedd ethnig leiafrol.

Yn wir, argymhellodd y Ganolfan Genedlaethol Polisi ac Ymarfer (2021) fod angen rhoi mwy o flaenoriaeth ac adnoddau i ymchwilio i ffactorau sy'n dylanwadu ar blant o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sy'n troseddu ac i wahaniaethau mewn dealltwriaeth ar draws grwpiau amrywiol o ran ethnigrwydd gwahanol a bod hyn yn ymddangos yn fater i'r gwledydd Gorllewinol (The Sentencing Project, 2022).

Ymhellach, dylid defnyddio gwaith ymchwil o'r fath i lywio'r broses o ddatblygu cynlluniau atal a dargyfeirio priodol ar gyfer plant o gefndiroedd ethnig leiafrifol (mae'r prosiect ymchwil a'r adroddiad hwn yn rhan o'r gwaith hwnnw). Daw Gaffney et al (2022a) i'r casgliad nad oes digon o ddealltwriaeth o'r ymchwil ar brosesau dargyfeirio a bod angen gwneud mwy o waith ymchwil er mwyn cael dadansoddiad hyderus o'r hyn sy'n gweithio mewn prosesau dargyfeirio a pham y mae'n gweithio. Mae'r ymchwil a'r llenyddiaeth ar brofiadau plant o gefndiroedd ethnig leiafrifol a'r cymorth a gânt drwy ddargyfeiriadau cyn achos llys yn gyfyngedig mewn rhai agweddau (ymysg y llenyddiaeth ddefnyddiol mae: Banwell-Morre, 2022; Fitzpatrick et al, 2022; Gaffney et al, 2021 a 2022; a Jones a Henry, 2022) ond mae meysydd clir ar gyfer gwersi i'w dysgu ac argymhellion i arwain ymarfer dargyfeirio yn y dyfodol (Jones, 2024a). Fel gyda'r dargyfeiriad cyn achos llys i fenywod, mae'r gwersi i'w dysgu o'r adolygiad o lenyddiaeth wedi'u defnyddio fel cyfeirbwynt ar gyfer gwaith dadansoddi a myfyrio pellach gyda chymau ymgysylltu â realiti bywyd rhanddeiliaid yr ymchwil hon. Mae'r broses hon wedi golygu bod camau gwersi i'w dysgu y prosiect hwn wedi cael eu cydosod i roi cyfres derfynol o argymhellion a gwersi i'w dysgu o'r prosiect ymchwil hwn a ddefnyddir i lywio'r broses o ddatblygu ymarfer a pholisi dargyfeirio cyn achos llys gwrth-hiliol yn y dyfodol yng Nghymru. Cyflwynir y rhain yn adran trafod a dadansoddi'r adroddiad hwn.



Datblygu dull dargyfeirio effeithiol i ddiwallu anghenion pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd



Mae'r adolygiad o lenyddiaeth o gam cyntaf y prosiect ymchwil hwn wedi trafod a chydod y llenyddiaeth sydd ar gael ynghylch 'ymyriadau trydyddol' fel y'u diffiniwyd gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru (2022) lle mai nod ymyriadau yw dargyfeirio pobl oddi wrth y System Cyfiawnder Troseddol ac felly mae'n cynnwys rhaglenni a gweithgareddau a elwir hefyd yn brosesau dargyfeirio, atal, ymyrraeth gynnar ac a roddir ar waith yn aml drwy ddefnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys (Jones, 2024a).

Un o brif flaenoriaethau'r adolygiad eang o lenyddiaeth a gynhaliwyd yn y cam cyntaf oedd deall profiadau pobl o gefndiroedd amrywiol

o ran ethnigrwydd o ddargyfeirio cyn achos llys, gan gynnwys ffocws penodol ar fenywod a phlant. Roedd y llenyddiaeth a oedd ar gael a adolygwyd yn cynnwys llawer o destunau priodol sy'n ymwneud â'r pwnc gan gynnig safbwynt i gefnogi canlyniadau'r prosiect hwn gan gynnwys erthyglau a chyfnodolion ymchwil, dogfennau polisi, adroddiadau, gwerthusiadau prosiect, ymarfer a gyhoeddwyd a dogfennau eraill fel canllawiau i ymarfer. Defnyddiwyd bron 200 o ffynonellau o lenyddiaeth ar gyfer yr adolygiad hwn gan gynnig dealltwriaeth a safbwyntiau byd-eang, o'r DU ac o Gymru yn benodol. Daeth ffynhonnell allweddol arall o ddealltwriaeth ar gyfer yr adolygiad hwn o'r naratifau a'r disgyrsiau a gafwyd ynghylch profiadau'r heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol yn ehangach drwy brosesau ymgysylltu a gynhaliwyd ledled Cymru wrth lunio'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar y cyd ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (2022). Yn olaf, oherwydd y llinyn o ymarfer sy'n ystyriol o drawma sydd wedi'i ymgorffori yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, lle gellid meithrin dealltwriaeth o'r llenyddiaeth a adolygwyd, cafwyd sylw penodol a phroses o gydodod trawma a phrofiadau o drawma hiliol.

Yn y pen draw, rhoddodd yr adolygiad eang o lenyddiaeth (Jones, 2024a), sef cam cyntaf y prosiect ymchwil hwn, drosolwg manwl iawn o'r wybodaeth am ymarfer dargyfeirio, dealltwriaeth ohono a'r broses o'i gymhwyso. Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnwys gwersi allweddol a ddysgwyd, dealltwriaeth ac argymhellion ar gyfer ymarfer yn y dyfodol i gefnogi pob unigolyn o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd yn well mewn gwaith o'r fath.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwersi i'w dysgu ac argymhellion penodol i gefnogi a datblygu darpariaeth dargyfeirio cyn achos llys gwrth-hiliol priodol ac effeithiol ar gyfer plant ac oedolion ifanc a menywod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn yn yr adran trafod a dadansoddi. Fodd bynnag, mae hefyd yn werth cyflwyno dealltwriaeth fwy cyffredin o anghenion a'r gwersi i'w dysgu wrth ddatblygu darpariaeth dargyfeirio cyn achos llys gwrth-hiliol. Felly, yn dilyn adolygiad systematig o'r llenyddiaeth ar gyfer y prosiect ymchwil hwn, isod ceir tystiolaeth yn seiliedig ar ddealltwriaeth o sut i ddatblygu dulliau gweithredu amgen neu wedi'u teilwra o ran dargyfeirio ar gyfer pob unigolyn o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd ond sydd hefyd yn ystyriol o drawma.

Ymysg y themâu cyffredin i ddatblygu ymarfer dargyfeirio cyn achos llys gwrth-hiliol yn y System Cyfiawnder Troseddol mae:

1. Adnodd hirdymor, dull gweithredu Cymru gyfan a gwaith llywodraethu ac arwain cryf sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu dull gweithredu rhwydd a chyffredin ar gyfer data, monitro a gwerthuso a mesur effaith.
2. Addysg a hyfforddiant i ddatblygu ymarferwyr ac arweinwyr gwrth-hiliol sy'n gymwys yn ddiwylliannol o blith yr holl randdeiliaid sy'n rhan o ymarfer dargyfeirio i gefnogi cydberthnasau effeithiol â phobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd (gan gynnwys cyfreithwyr a llysoedd).
3. Proses gwneud penderfyniadau mewn dalfeydd sy'n cynnwys yr heddlu, darparwyr dargyfeirio, System Cyfiawnder Ieuencid (lle y bo'n briodol), cyngor cyfreithiol ac sy'n cynnwys camau cyhuddo a chymryd datganiadau. Mae angen gwaith cyflym wedi'i lunio ar y cyd o asesu'r Cynllun Dargyfeirio (Rhoi'r Plentyn yn Gyntaf / Rhywedd Benodol / Gwrth-hiliol).
4. Meithrin cydberthnasau effeithiol sy'n gymwys yn ddiwylliannol ac yn wrth-hiliol sy'n golygu bod ymarferwyr yn hyderus i drafod diwylliant, ethnigrwydd, hiliaeth, trawma hiliol a hunaniaethau eraill fel crefydd, rhyw a dosbarth i gefnogi profiadau ac anghenion y sawl sy'n ymgysylltu â'r System Cyfiawnder Troseddol a dargyfeirio cyn achos llys.
5. Cydberthnasau effeithiol mewn prosesau dargyfeirio sydd wedi'u meithrin drwy barch o'r ddwy ochr, ymarfer sy'n ystyriol o drawma a chymorth holistaidd a arweinir gan anghenion sy'n adferol wrth ymarfer.
6. Cymorth dargyfeirio sy'n meithrin sgiliau myfyriol a meddwl yn greadigol i sicrhau hunanalluogedd fel y gall pobl amrywiol o ran ethnigrwydd wneud penderfyniadau bywyd hyddysg. Rhaid i gynlluniau ymyrraeth felly gael eu llunio ar y cyd, â chyffyrddiad ysgafn, dylent fod yn ystyriol o rywedd ac oedran a phob hunaniaeth arall.
7. Meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhaglenni dargyfeirio sy'n eang, yn hyblyg, yn faddeugar ac yn gynhwysol, ac nad oes angen cyfaddefiad o euogrwydd i gymryd rhan ynddynt oherwydd y rhwystrau cymhleth a niferus y mae pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn eu hwynebu gyda'r System Cyfiawnder Troseddol ac mewn cymdeithas yn ehangach.
8. Mwy o waith ymchwil i anghenion a phrofiadau pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd o ddargyfeirio a llunio ymarfer a phrosiectau newydd ar y cyd ag unigolion â phrofiadau bywyd gan gynnwys plant, oedolion ifanc, menywod a dynion ond hefyd ar draws y mathau gwahanol o ethnigrwydd sy'n byw yng Nghymru.
9. Defnyddio a datblygu darpariaeth a chymorth arbenigol i bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sy'n annibynnol ar y System Cyfiawnder Troseddol / gwasanaethau statudol yn y trydydd sector / y sector gwirfoddol am eu bod yn fwy dibynadwy ac felly mae pobl amrywiol o ran ethnigrwydd yn fwy hyderus wrth fanteisio ar eu gwasanaethau. Rhaid i'r System Cyfiawnder Troseddol weithio mewn partneriaeth â darparwyr o'r fath i ddysgu am wasanaethau o'r fath a'u deall, i feithrin ymddiriedaeth â gwasanaethau o'r fath, a gyda grwpiau a chymunedau o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.
10. Datblygu gweithlu amrywiol o ran ethnigrwydd sy'n adlewyrchu'r bobl y mae'n eu cefnogi.
11. Codi ymwybyddiaeth drwy allgymorth cymunedol i wella dealltwriaeth a lefelau ymgysylltu â chanlyniadau a phroses gadarnhaol dull dargyfeirio. Mae angen cael cyngor ac arweiniad i grwpiau amrywiol o ran ethnigrwydd o ran dulliau dargyfeirio i gefnogi ymddiriedaeth yn y system a phroses gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.
12. Gwneud gwaith datblygu mewn partneriaeth â'r unigolion a wasanaethir gan y System Cyfiawnder Troseddol fel bod realiti bywyd a phroses lunio ar y cyd wrth wraidd yr holl waith a wneir yn y dyfodol.



Dull Cynhwysol at Ymchwil



Nodau'r Prosiect a Gwaith Dylunio

Mae'r ymchwil hon yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal drwy brosesau dargyfeirio cyn achos llys, ar gyfer pob grŵp amrywiol o ran ethnigrwydd a nodwedd ond gan ganolbwyntio ar fenywod a phlant (17 oed ac iau) (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt). Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, deilliodd y syniad gwreiddiol ar gyfer y gwaith hwn yng Nghaerdydd, De Cymru ac mae hyn wedi golygu bod realiti bywyd yr holl randdeiliaid allweddol wedi'u ceisio o fewn y lleoliad daearyddol hwn ar gyfer natur ddiweddarach yr ymchwil hon. Fodd bynnag, caiff y gwersi i'w dysgu o'r gwaith ymchwil hwn ei rannu ledled Cymru, drwy'r trefniadau llywodraethu cyfiawnder troseddol presennol ledled Cymru, y Bwrdd Menywod mewn Cyfiawnder, Byrddau Cyfiawnder leuenctid a rhwydweithiau a fforymau proffesiynol, polisi ac academiaidd lle y bo'n briodol.

Prif nod a chanlyniad y prosiect yw llunio cyfres o argymhellion / ystyriaethau (gan roi sylw penodol i fenywod a phlant) a fydd yn cyfrannu at y broses o ddatblygu:

Dulliau amgen neu wedi'u teilwra o ddargyfeirio ar gyfer grwpiau amrywiol o ran ethnigrwydd sydd hefyd yn ystyriol o drawma. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cyfle cyfartal ar gyfer dargyfeiriadau oddi wrth y System Cyfiawnder Troseddol ac i wasanaethau sy'n seiliedig ar gymorth.

Nod y prosiect hwn yw cyflawni hyn gan ddefnyddio dull gweithredu cynhwysol wedi'i lunio ar y cyd, gan sicrhau bod pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd, sy'n arbenigwyr drwy eu realiti bywyd, yn cael eu clywed ac y gwrandewir arnynt fel yr amlinellir fel ymarfer angenrheidiol yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (2022).

Er mwyn cyflawni hyn, defnyddiwyd dull gweithredu methodolegol cymysg dilyniannol, sy'n golygu bod dulliau meintiol ac ansoddol wedi'u defnyddio i gyflawni nodau a chwmpas y prosiect ymchwil hwn. Methodoleg ansoddol oedd y brif un. Rheolwyd y prosiect ymchwil mewn pedwar cam:

1. Adolygiad pen desg o'r llenyddiaeth sydd ar gael i ddeall gwybodaeth, ymarfer, bylchau ac argymhellion ar gyfer datblygu ymarfer yn y dyfodol yn well, gan gynnwys:

- i. Ymchwil, polisi, gwerthusiadau, ymarfer a chanllawiau sydd eisoes yn bodoli o amgylch dargyfeirio cyn achos llys ac ata, gan gynnwys y defnydd o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys a gwneud penderfyniadau yn y system.
- ii. Adolygu naratifau ac adroddiadau ymgysylltu cymunedol diweddar perthnasol a wnaed wrth lunio'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar y cyd ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru gan ganolbwyntio ar brofiadau'r heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach.
- iii. Sicrhau y tynnir sylw at wersi penodol a ddysgwyr mewn perthynas â thrawma hiliol / Ymarfer sy'n ystyriol o drawma.

2. Mapio'r broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â dargyfeirio cyn achos llys a gweithgarwch dargyfeirio i bawb dan sylw yn Hyb yr Heddlu Bae Caerdydd:

- iv. Deall y broses gwneud penderfyniadau drwy ddatblygu siart llif gwneud penderfyniadau.
- v. Dadansoddi a 'mapio' data hanesyddol ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys i'r pwyntiau gwneud penderfyniadau allweddol ar y siart llif gwneud penderfyniadau er mwyn deall ac archwilio cyfleoedd i ddefnyddio data yn well.
- vi. Nodi pwy sy'n gyfrifol ac archwilio drwy grwpiau ffocws a chyfweliadau anffurfiol beth sy'n cyfrannu at benderfyniadau allweddol mewn prosesau dargyfeirio cyn achos llys (yr Heddlu, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cyfreithwyr a darparwyr prosesau dargyfeirio).
- vii. Grwpiau ffocws a chyfweliadau anffurfiol i gael eu hwyluso gan bobl o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd ac sydd â realiti bywyd o'r System Cyfiawnder Troseddol gyda phobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sydd wedi profi neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dargyfeirio cyn achos llys.

3. Gwaith ymgysylltu cymunedol â grwpiau rhanddeiliaid allweddol i brofi a herio'r argymhellion a'r ddealltwriaeth.

4. Llunio adroddiad terfynol sy'n nodi canfyddiadau'r ymchwil gan sicrhau bod prif themâu'r llenyddiaeth, canfyddiadau'r grŵp ffocws, argymhellion ar gyfer arferion gorau a dealltwriaeth o broses gwneud penderfyniadau wedi cael eu cefnogi / cytuno gan y grwpiau rhanddeiliaid.



Cwestiynau'r Gwaith Ymchwil

Y cwestiynau ymchwil cychwynnol a ofynnwyd ar ddechrau'r prosiect ymchwil hwn oedd:

- 1. Beth sy'n cyfrannu at dangynrychiolaeth o grwpiau ethnig lleiafrifol mewn perthynas â Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a gorgynrychiolaeth mewn perthynas â gwysion.
- 2. Beth sy'n cyfrannu at wahaniaethau posibl wrth wneud penderfyniadau, a rhwystrau, materion, bylchau a meysydd i'w gwella (h.y., ymddiriedaeth, rhagfarn fwriadol/anfwriadol, tensiynau systemig, diwylliannol, crefyddol a chymunedol, dylanwadau eraill – y cyfryngau, cyfoedion, teulu).
- 3. Pwy sy'n cyfrannu at y penderfyniadau hyn, yn ogystal â'r materion a'r rhwystrau sy'n effeithio ar benderfyniadau. (yr heddlu, partneriaid Cyfiawnder Troseddol, gweithwyr proffesiynol eraill, unigolion, teulu a chynghorwyr)
- 4. Beth sy'n gweithio i fynd i'r afael â mynediad anghymesur at lwybrau atal ac ymyrryd yn gynnar.



Agweddau Meintiol y Gwaith Ymchwil

Fel y nodwyd uchod, roedd ail gam y prosiect ymchwil hwn yn cynnwys mapio'r broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â dargyfeirio cyn achos llys a gweithgarwch dargyfeirio ar gyfer pawb sy'n rhan o Hwb yr Heddlu Bae Caerdydd. Dwy elfen gyntaf hyn oedd deall y broses gwneud penderfyniadau i ddechrau drwy ddatblygu siart llif gwneud penderfyniadau ac yna dadansoddi a mapio data hanesyddol ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys i'r pwyntiau gwneud penderfyniadau ar y siart llif gwneud penderfyniadau er mwyn deall ac archwilio cyfleoedd i ddefnyddio data yn well.

Lluniwyd y siart llif gwneud penderfyniadau gan aelodau o staff allweddol yn Hwb yr Heddlu Bae Caerdydd ac mae i'w weld yn Atodiad I. Fodd bynnag, rhaid nodi bod angen ei ddiweddarau erbyn hyn gan fod y darparwyr dargyfeirio ar gyfer Caerdydd bellach wedi newid gyda contract newydd Un Gymru ac mae'r matrices difrifoldeb hefyd wedi'i ddiweddarau. Mae hyn yn golygu nad yw'r siart llif a gyflwynwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn yn gwbl berthnasol mwyach.

Er mwyn cymhlethu dwy elfen gyntaf ail gam y gwaith ymchwil hwn, nid oedd y data hanesyddol a ddefnyddiwyd i ddeall ble y gall hiliaeth ac anghymesuredd fod yn digwydd o fewn y system mewn perthynas â dargyfeirio cyn achos llys yn cynnwys digon o fanylion na hygyrchedd ac ni ellid eu defnyddio'n ddigon rhwydd. Cytunwyd i ddadansoddi blwyddyn lawn o ddata hanesyddol, ond oherwydd y cyfyngiadau y soniwyd amdanynt eisoes a'r angen am berson i dynnu pob achos â llaw a'u dadansoddi, a gymerodd lawer o adnoddau o ran amser ac arian, dim ond tri mis o ddata a ddadansoddwyd o fis Gorffennaf i fis Medi 2023. Felly, mae'r diffyg data yn cyfyngu'n sylweddol ar unrhyw allu gwirioneddol i gynnig dealltwriaeth glir o anghymesuredd neu hiliaeth o fewn prosesau dargyfeirio cyn achos llys yn Hwb yr Heddlu Bae Caerdydd. Ni ellir cyffredinolli'r gwersi i'w dysgu o'r dadansoddiad na dibynnu arnynt ond cânt eu cyflwyno'n gryno yn adran trafod a dadansoddi'r adroddiad hwn.



Ymchwil Ansoddol yn seiliedig ar y Byd Go iawn a Gwerthoedd

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ar gyfer y gwaith ymchwil hwn i gynnig dealltwriaeth wirioneddol a dibynadwy o realiti dargyfeirio cyn achos llys ac anghenion pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a realiti bywyd unigolion sy'n gweithio yn y maes ymarfer hwn.

Er bod y prosiect ymchwil hwn yn cynnwys camau a nodwyd yn glir, nid oedd yn dasg linellol ac, yn wir, fel gyda llawer o waith ymchwil byd go iawn, roedd yn 'flêr' gyda sawl her, yn arbennig wrth ddod o hyd i nifer priodol o bobl i siarad â nhw ac i wrando arnynt o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sydd â realiti bywyd o gymorth dargyfeirio cyn achos llys. Fodd bynnag, fel y pwysleisiwyd gan Sakata (2023), mae angen croesawu 'blerwch' mewn gwaith ymchwil dulliau cymysg er mwyn rhannu dyfnder llawn gwaith ymchwil byd go iawn a dealltwriaeth ohono.

Yn wir, mae Sanscartier (2020: t53) yn disgrifio gallu ymchwilwyr cymdeithasol sy'n defnyddio dulliau cymysg i ddechrau bod yn gyfforddus â blerwch a natur amlinellol o'r fath a bod angen iddynt wneud hynny, a nododd bod y dull gweithredu yn defnyddio 'agwedd crefft' lle mae'r ymchwilydd yn croesawu hyn oll ac yn ystyried y gwaith ymchwil fel dull adrodd stori. Derbyniwyd grym cefnogi dull adrodd stori gyda gwaith cymdeithasol a throsedddeg ers peth amser fel proses ryddhau a grymuso lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn hytrach na'u bod yn destun ymchwil (Sandberg ac Ugelvik, 2016). Mae angen dull o'r fath yn benodol wrth wneud gwaith ymchwil gyda chymunedau agored i niwed (Gordon, 2020) sy'n haeddu i'w lleisiau gael eu clywed, ac sydd ag angen a hawl i hynny ddigwydd, am eu bod mor aml yn cael eu hanwybyddu ac nad ydynt yn cael eu clywed mewn cymdeithas a lleoliadau cyfiawnder troseddol (Sim a Waterfield, 2019).

Roedd y prosiect ymchwil hwn yn defnyddio methodoleg a dull gweithredu a oedd yn dangos ac yn cyd-fynd â rhai o werthoedd craidd y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ei hun, i fod yn gynhwysol a grymusol. Roedd angen gwranddo go iawn ar brofiadau bywyd a naratifau'r rhai sy'n gweithio ym maes dargyfeirio cyn achos llys ac yn lleoliadau'r System Cyfiawnder Troseddol ac, yn bwysicaf oll, unigolion o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sydd wedi byw'r realiti o gymryd rhan mewn darpariaeth dargyfeirio o'r fath.

Byddai peidio â chyflawni dyluniad o'r fath wedi bod yn anfoesol a byddai wedi mynd yn groes i'r ffocws ar werth a grym llunio ar y cyd a realiti bywyd sydd wrth wraidd yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn wrth-hiliol, a dealltwriaeth o hynny. Daw'r canllawiau moesegol a ddefnyddiwyd i lywio'r gwaith ymchwil hwn gan Gymdeithas Troseddeg Prydain (2015) a chânt eu parchu a'u defnyddio ym maes ymchwil troseddeg yn y DU a'u rhannu â'r grŵp llywio ar gyfer y prosiect ymchwil hwn.

Y prif bryder mewn perthynas ag ymchwil foesegol yw sicrhau y rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r posibilrwydd o achosi niwed i unrhyw un sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil, a lliniaru hynny. Sicrhodd yr ymchwilydd ar gyfer y prosiect hwn y cafwyd cydsyniad clir ar sail gwybodaeth a bod pob cyfranogwr yn aros yn ddienw a'i fod yn ymwybodol o'i hawl i dynnu'n ôl rhag cymryd rhan yn yr ymchwil unrhyw bryd. Ymgysylltir â'r holl gyfranogwyr, lle y bo modd, ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, a chaiff effaith, canfyddiadau ac argymhellion ar gyfer ymarfer yn y dyfodol eu rhannu ar lafar â nhw a chânt gyfle i weld copi caled a/neu gopi digidol o'r adroddiad ysgrifenedig.

Mae gan ymchwil Gwyddor Gymdeithasol a Throseddeg ymrwymiad cynyddol i ddulliau ymchwil mwy moesegol a chynhwysol ac mae'r prosiect hwn yn ymgorffori hyn drwy sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei chynnal 'gyda' phobl ac nid 'ar eu cyfer'. Er mwyn cyflawni hyn, cafodd amgylchedd cefnogol ac agored ei greu sy'n cefnogi'r amser i 'adrodd stori' gan bawb a drafododd eu realiti bywyd, fel eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwranddo arnynt a'u bod wir yn cael eu clywed (Sandberg ac Ugelvik, 2016). Yn wir, gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr a oeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu clywed ac y gwrandawyd arnynt, a bod yr ymchwilydd wedi nodi eu realiti bywyd yn gywir a bod hyn wedi cael ei wirio drwy ailadrodd y nodiadau a'r dyfyniadau iddynt. Roedd y cyfle i gael sgysiau mor agored ac i beidio â rheoli'r ddynnameg yn cynnig elfen gref o 'rannu' yn y broses ac

yn cefnogi teimladau o fod yn gyfforddus, sy'n angenrheidiol (Knott et al, 2022), myfyrio'n fanylach ar brofiadau a dealltwriaeth fwy llawn o realiti bywyd, heriau a thwf personol (Farell et al, 2021). Mae defnyddio dull adrodd stori yn cefnogi dealltwriaeth ddofn a haenog o brofiad a chytunwyd hefyd ei fod yn ddull arbennig o bwerus o helpu grwpiau agored i niwed i deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus i siarad pan gaiff ei hwyluso'n effeithiol (Gordon, 2020).

Roedd y fethodoleg o gefnogi sgysiau dwfn yn cefnogi prosesau trafod a myfyrio dwfn ac i rai, roedd hyn yn cynnig y cyfle i ddysgu gwersi dwfn a thrawsnewidiol fel y gellir gweld yn adran trafod a dadansoddi'r adroddiad hwn. Mae Zimmerman (2013) yn diffinio dysgu trawsnewidiol fel pan fydd rhywun, drwy adrodd ei stori, yn nodi gwersi i'w dysgu, hunaniaethau newydd, cyfeiriadau ar gyfer y dyfodol a hyd yn oed yn ailddiffinio profiadau blaenorol mewn ffyrdd cadarnhaol newydd. Yn wir, mae dulliau o'r fath yn cynnig y cyfle i feithrin cryfder mewn person a labelodd Dybicz (2011) ddulliau o'r fath fel 'dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfder' ar gyfer ymchwil.

Felly, pan gaiff grwpiau ffocws eu hwyluso'n effeithiol, mae'r unigolion sy'n cymryd rhan yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi ond gallant hefyd roi cyfle gwerthfawr i leisiau a phrofiadau sy'n agored i niwed ac sydd wedi'u dadrymuso i gael eu clywed yn fwy eang gan unigolion sydd mewn grym a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar ddarpariaeth, polisïau ac ymarfer (Hall et al, 2023). Yn hyn o beth, gobeithio hefyd bod y defnydd o adrodd stori a thrafodaeth grŵp yn y gwaith ymchwil hwn wedi cefnogi'r broses rymuso ar lefel bersonol gyda mwy o hunanalluedd i'r unigolion dan sylw (fel yr esboniwyd uchod) ac ar lefel strwythurol pan gaiff yr ymchwil hon ei rhannu ag unigolion mewn safleoedd o bŵer fel y sawl sy'n llunio polisïau, comisiynwyr, academyddion ac ymarferwyr o feysydd Gwaith Cymdeithasol, Cyfiawnder Ieuencid, Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol cysylltiedig.



Grwpiau ffocws neu gyfweiliadau lled-strwythuredig anffurfiol oedd y ddau brif ddull a ddewiswyd ar gyfer gwrandio ar realiti bywyd rhanddeiliaid sy'n ymarferwyr ac unigolion o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sydd wrthi neu sydd wedi cymryd rhan mewn cymorth dargyfeirio.

Roedd yr ymchwil hon yn defnyddio Fframwaith Damcaniaeth Seiliedig sy'n ddull a ddefnyddir yn aml, yn yr hyn y gellir ei ddisgrifio fel ymchwil 'byd go iawn', lle ceir dyhead ac angen i ddatblygu a/neu brofi damcaniaeth, gwybodaeth ac ymarfer presennol / newydd (Denscombe, 2014; Harris, 2014). Mae dull seiliedig yn defnyddio dadansoddiad cymharol parhaus rhwng data'r ymchwil a'r llenyddiaeth ehangach i sicrhau proses sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd hefyd yn gwrandio ar y rhai sy'n rhan o'r gwaith ymchwil ac, yn hyn o beth, mae'n anwythol ac yn ddiwythol o ran ei ddull gweithredu (Moretti et al, 2011). Mae Busetto et al (2020) yn nodi hyn yn dda gan ddisgrifio proses lle mae'r llenyddiaeth yn cael ei defnyddio'n *ddiwythol* i lunio a llywio'r prif themâu sydd eisoes yn hysbys o fewn y llenyddiaeth ond drwy sicrhau bod anffurfioldeb a hyblygrwydd i gefnogi cyfeiriad *anwythol* trafodaeth grŵp ffocws lle mae gan y rhai sy'n rhan o'r ymchwil y rhyddid i fynegi eu hunain am mai nhw yw'r arbenigwyr yn eu realiti bywyd eu hunain.

Yn hyn o beth, roedd y prosiect ymchwil hwn yn defnyddio dull damcaniaeth seiliedig hyblyg gyda 'sensitifrwydd damcaniaethol' gan fod y prosiect yn defnyddio'r hyn a oedd yn hysbys o'r llenyddiaeth ac o ymchwil blaenorol ond gan gefnogi pawb a oedd yn rhan o'r ymchwil i siarad drostynt eu hunain fel y gallai'r prosiect ymchwil hwn feithrin dealltwriaeth a chymwysiadau newydd a dibynadwy (Denscombe, 2014) i ymarfer dargyfeirio cyn achos llys gwrth-hiliol yn y dyfodol yng nghydestun Cymru sydd hefyd felly yn cefnogi nod system cyfiawnder a luniwyd ar y cyd mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Cyfiawnder Troseddol Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cymru a diben y prosiect ymchwil hwn gyda'i ffocws ar Gymru.

Yn ystod y gwaith ymchwil hwn, hwyluswyd cymysgedd o grwpiau ffocws a chyfweiliadau anffurfiol gyda rhanddeiliaid allweddol a oedd yn cefnogi prosesau dargyfeirio yn y System Cyfiawnder Troseddol yn rhanbarth De Cymru, gan gynnwys: rhingylliaid dalfeydd o Ddalfa Heddlu Hwb Bae Caerdydd (n=3), ymarferwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (n=4), ymarferwyr y System Cyfiawnder Ieuencid (n=12), darparwyr prosesau

dargyfeirio o gontract 'Un Gymru' a darparwyr prosesau dargyfeirio o gontractau blaenorol a gefnogodd brosesau ymyrraeth gynnar ac atal (n=22) a Chyfreithwyr yr Amddiffyn (n=2). Cymerodd cyfanswm o 43 o ymarferwyr ran mewn cymysgedd o grwpiau ffocws a chyfweiliadau anffurfiol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cynhaliwyd 7 cyfweiliad anffurfiol ar-lein yn llwyr a 6 grŵp ffocws gyda 2 grŵp ffocws wedi'u hwyluso wyneb yn wyneb a 4 ar-lein. Ar draws yr holl grwpiau ymarferwyr roedd 9 unigolyn o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd a cymerodd ran yn yr ymchwil hon sy'n cyfrif am 21% o gyfanswm pob realiti bywyd gan ymarferwyr ar gyfer y prosiect hwn.

Yn yr ymchwil hon, bu'n anodd ymgysylltu'n ddigonol â phobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd er gwaethaf y ffaith y cafodd amserlen y prosiect ei ymestyn 6 mis er mwyn ceisio cyflawni hyn. Yn ystod yr ymchwil hon, cymerodd 6 unigolyn ran mewn cyfweiliad anffurfiol a chafodd 3 gymorth i ymgysylltu gan eu gweithiwr allweddol / cymorth yr oeddent yn eu hadnabod yn dda ac yn ymddiried ynddynt. Cynhaliwyd tri o'r cyfweiliadau anffurfiol ar-lein a thri wyneb yn wyneb. Roedd y bobl a rannodd eu realiti bywyd am eu hymgysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol a phrosesau dargyfeirio cyn achos llys yn cynnwys 2 oedolyn benywaidd dros 25 oed, 1 plentyn benywaidd 17 oed a 3 oedolyn ifanc gwrywaidd rhwng 18 a 25 oed. Cafwyd cynrychiolaeth amrywiol o ran ethnigrwydd ymysg y cyfranogwyr ac roeddent yn cynnwys pobl o gefndir a threftadaeth Somali, Fijiaidd, Pwylaidd, Swdanaidd, Sri Lancaidd a Du.





Dadansoddiad a Thrafodaeth

Arweiniodd y gwaith o ddadansoddi'r grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau anffurfiol hyn at ddealltwriaeth haenog dwf o realiti bywyd yr holl randdeiliaid allweddol a rhoddodd y digwyddiadau ymgysylltu gyfle i rannu'r gwaith o ddadansoddi'r grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau anffurfiol a'u gwirio o ran cywirdeb ac eglurder.

Mae'r gwaith dadansoddi a thrafod yma yn tynnu sylw at y prif wersi i'w dysgu a'r argymhellion ar gyfer pob un o'r grwpiau rhanddeiliaid a gaiff eu defnyddio fel cyfeirbwynt ar gyfer gwaith dadansoddi pellach a chydod y canfyddiadau, y gwersi i'w dysgu a'r argymhellion o'r adolygiad systematig o lenyddiaeth a gynhaliwyd fel cam cyntaf y prosiect ymchwil hwn. Mae'r broses fyfyril hon yn ymgorffori'r dull damcaniaeth seiliedig anwythol a didwythol a esboniwyd yn rhan flaenorol yr adroddiad hwn.

Canlyniad terfynol y broses hon fydd dwy gyfres o wersi i'w dysgu ac argymhellion ar gyfer sicrhau ymarfer gwrth-hiliol da mewn prosesau dargyfeirio cyn achos llys a chefnogi anghenion a phrofiadau bywyd pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd. Mae cyfres o wersi i'w dysgu ac argymhellion ar gyfer menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a chyfres ar gyfer plant (17 oed ac iau) ac oedolion ifanc (18-25 oed). Dyma'r ddwy garfan benodol

a oedd o ddiddordeb ar ddechrau'r prosiect ymchwil hwn ac mae'r ffocws ar oedolion ifanc a ychwanegwyd at y ffocws ar blant yn deillio o gam cyntaf yr ymchwil hon gan fod yr adolygiad o lenyddiaeth wedi awgrymu'n gryf bod angen datblygu ymarfer dargyfeirio ar gyfer y dyfodol a bod angen cymorth a dulliau gweithredu tebyg i blant ar oedolion ifanc. Nodwch y cyflwynwyd gwersi i'w dysgu ac argymhellion mwy cyffredinol ar gyfer datblygu prosesau dargyfeirio cyn achos llys gwrth-hiliol sy'n diwallu anghenion pob unigolyn o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn y 'Trosolwg o Lenyddiaeth' yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Yn olaf, caiff y data meintiol cyfyngedig a gafwyd drwy weithio gyda Hwb Heddlu Bae Caerdydd ynghylch y data hanesyddol a ddefnyddiwyd i ddeall ble y gall hiliaeth ac anghymesuredd fod yn digwydd o fewn y system mewn perthynas â phrosesau dargyfeirio cyn achos llys eu cynnwys fel rhan o'r gwersi i'w dysgu o grwpiau ffocws rhingylliaid dalfeydd yr heddlu fel lens ddealltwriaeth arall. Nid yw'r gwersi i'w dysgu o'r dadansoddiad hwn yn cynnig cyfle i fod yn gyffredinol ond mae'n rhoi rhywfaint o ddealltwriaeth o dueddiadau posibl y mae angen eu harchwilio a'u dadansoddi ymhellach.



Realiti bywyd Rhingylliaid Dalfeydd

Cynigiodd y tri rhingyll dalfeydd a gymerodd ran yn y cyfweiliadau anffurfiol yr hyn a gyflwynwyd fel dull meddylgar a myfyriol o weithredu. Esboniodd un rhingyll 'Wel, gall fod yn brysur iawn yma ac felly mae'n rhaid i chi fod o gwmpas eich pethau ac felly mae'n rhaid i mi ganolbwyntio a meddwl yn glir.' Myfyriodd un arall ar ei rôl, gan ddweud 'gall ganolbwyntio ar swyddogaeth a phroses felly mae angen i mi sicrhau fy mod wir yn canolbwyntio ac yn gwneud y penderfyniadau cywir.' Nododd yr holl ringylliaid bethau tebyg ar nosweithiau prysur, 'gall deimlo'n ddiddiwedd yma, a does gennych chi ddim amser i wneud pethau'n iawn neu mae'n teimlo'n frysio iawn.'

Wrth drafod ymarfer gwrth-hiliol nododd yr holl ringylliaid dalfeydd eu bod wedi clywed y term a'u bod yn ymwybodol o hiliaeth a'r ffaith bod yr Heddlu wedi cael ei labelu fel hiliol yn sefydliadol. Nid oedd llawer o wybodaeth am y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a nododd yr holl ringylliaid eu bod yn canolbwyntio ar Gynllun Gweithredu ar Hil yr Heddlu (2022). Esboniodd un rhingyll 'wel, mae gennym y cynllun gweithredu ar hil ac felly mae'r heddlu'n canolbwyntio ar hwnnw.' Pan nodwyd bod y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn ategu Cynllun Gweithredu ar Hil yr Heddlu a bod blaenoriaethau cytûn, dywedodd yr holl ringylliaid bethau tebyg, 'o, doeddwn i ddim yn ymwybodol o hynny. Mae cymaint o'r cynlluniau hyn ac mae'n anodd dal i fyny â phopeth.'

Roedd yr holl ringylliaid a gymerodd ran o'r farn bod angen mwy o addysg a hyfforddiant arnynt ar ymarfer gwrth-hiliaeth a gwrth-hiliol. Roedd gan y tri rhingyll fylchau mewn dealltwriaeth o'r termau a'r ymarfer mewn perthynas â phrosesau gwrth-hiliaeth, cymhwystra diwylliannol ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma hiliol a dim ond un o'r tri swyddog oedd yn teimlo'n gyfforddus yn trafod ei ddealltwriaeth o ymarfer sy'n ystyriol o drawma. Yn y pen draw, nododd y tri rhingyll deimladau tebyg mewn perthynas â'r angen am addysg a hyfforddiant gwrth-hiliaeth ac fel y dywedodd un rhingyll, 'rwy'n bod yn ofalus weithiau gan nad ydw i am gael pethau'n anghywir a sarhau neb ac felly rwy'n sicrhau fy mod yn ofalus o'm defnydd o iaith. Rwy'n mynd yn nerfus weithiau ac yn teimlo'n lletchwith felly efallai y byddaf yn siarad llai wrth ymgysylltu â rhywun o gefndir ethnig leiafrifol.' Myfyriodd un o'r rhingylliaid eraill,

'wel, allwn ni ddim cael pethau'n anghywir gan fod pawb yn pwyntio bys at yr Heddlu.' Pan ofynnwyd a oeddent yn trafod ymarfer gwrth-hiliol a gwrth-hiliaeth fel rhan o'u rolau o ddydd i ddydd dywedodd y tri nad oeddent wir yn gwneud hynny ond eu bod wedi cael hyfforddiant amrywiol a'u bod yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant parhaus arnynt.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo eu bod wedi 'cael pethau'n anghywir' o ran eu dull o gefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd, ymatebodd y tri â datganiadau fel 'na, nid yn fwriadol a dydw i ddim yn meddwl mewn ffordd hiliol.' Roedd y drafodaeth ar yr adeg hon yn cynnwys gwneud penderfyniadau ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a ph'un a oeddent yn teimlo eu bod wedi gwneud penderfyniadau â rhagfarn hiliol yn fwriadol neu'n anfwriadol. Myfyriodd dau o'r tri rhingyll a chredu nad oeddent erioed wedi gwneud penderfyniad â rhagfarn hiliol yn fwriadol ond gwnaethant gydnabod, 'wel, mae'n anodd dweud o ran rhagfarn anfwriadol gan nad ydych hi'n gwybod go iawn felly mae'n bosibl, ond hoffwn i feddwl fy mod i'n ymwybodol o'r materion a fy mod yn gwneud penderfyniadau teg a chyson ar gyfer pob grŵp o bobl.'

Fodd bynnag, cyfaddefodd dau o'r tri rhingyll hefyd eu bod yn 'uwch-dariffio' yn rheolaidd, fel yr esboniodd un rhingyll, 'wel, dydw i ddim yn credu mewn Datrysiadau Cymunedol gan nad ydyn nhw'n gwneud dim byd mewn difrif ac felly beth mae'n ei ddysgu i bobl, dim byd mewn gwirionedd, ac felly bydda i'n rhoi Rhybudd Amodol am fod ganddyn nhw gymhellant ac amodau cryfach i gydymffurfio â nhw ac i wneud rhywbeth sy'n eu helpu i newid.' Soniodd y llall am themâu tebyg gan nodi 'mae Datrysiadau Cymunedol yn wastraff amser a dydyn nhw ddim yn cael eu holrhain drwyddi draw.'

Roedd y tri rhingyll o'r farn bod y matrices difrifoldeb ar gyfer oedolion a phlant yn wael a'i fod, 'yn rhy agored o lawer i oddrychedd a disgresiwn y swyddog a bod hyn yn golygu mae'n siŵr bod diffyg cysondeb a thegwch cyffredinol wrth wneud penderfyniadau.' Nododd un rhingyll, 'wel, mae'n dibynnu ar eich safbwynt, gallai trosedd a gyflawnir fod yn 1, 2, 3 neu weithiau hyd yn oed yn 4 ar y matrices difrifoldeb ac felly nid yw'n gweithio. Mae angen i ni gael rhywbeth llawer mwy ymarferol sy'n gwahaniaethu'n well rhwng y lefelau.' Nododd rhingyll arall, 'mae angen i ni gael rhywbeth sy'n llai agored i ddisgresiwn y swyddog ac sy'n glir ac yn hawdd ei ddefnyddio.' Mae'n bwysig nodi bod y cyfweiliadau anffurfiol hyn wedi cael eu

hwyluso cyn i'r matrices difrifoldeb newydd gael ei gyflwyno ym mis Medi 2023 sy'n cynnwys pum lefel o fewn y matrices difrifoldeb yn hytrach na'r pedwar a ddefnyddiwyd yn flaenorol.

Yn ystod y cyfweiliadau anffurfiol cafwyd trafodaeth hefyd ar y defnydd o arbenigwr dargyfeirio mewn dalfeydd ac roedd y tri rhingyll yn croesawu'r dull gweithredu newydd yng Nghaerdydd lle'r oedd arbenigwyr dargyfeirio mewn dalfeydd yn amlach. Pan ofynnwyd beth fyddai'r ymarfer gorau ar gyfer pob darparwr prosesau dargyfeirio, ymatebydd y tri rhingyll â geiriau tebyg i, 'wel, maen nhw'n ychwanegu lefel o graffu a chymorth i'r person sy'n cael ei gyhuddo ond hoffwn iddyn nhw allu rhoi mwy o gyngor ac arweiniad ni, a herio ac adolygu dulliau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â Dargyfeiriadau y Tu Allan i'r Llys a chyhuddo ar gyfer y llys a bod yn rhan wirioneddol o'r broses gwneud penderfyniadau honno. Byddai'n fwy tryloyw wedyn ac yn benderfyniad ar y cyd'. Myfyriodd un arall o'r rhingylliaid fod darparwyr prosesau dargyfeirio hefyd, 'yn ennyn mwy o ymddiriedaeth a'u bod o'r tu allan i'r heddlu felly mae troseddwy'r teimlo'n fwy diogel ac maen nhw'n fwy agored i gael cymorth a chytuno ar Ddatrysiaid y Tu Allan i'r Llys.

Roedd y gwersi i'w dysgu o'r cyfweiliadau anffurfiol hyn yn glir ond dim ond tri chyfweiliad oedd i'w dadansoddi a dylid ystyried hynny drwy ddadansoddi a chymharu â'r gwaith dadansoddi a'r gwersi i'w dysgu o'r holl grwpiau rhanddeiliaid eraill. Yn y bôn, roedd y rhingylliaid dalfeydd yn awyddus i gael dealltwriaeth well o wybodaeth ac ymarfer gwrth-hiliol, trawma hiliol, cymhwysra diwylliannol a bod angen iddynt ddeall sut mae ymarfer dargyfeirio cynhwysol yn ddull cadarnhaol i unigolion sydd wedi troseddu mewn gweithgarwch troseddol lefel isel er mwyn osgoi ymddygiadau uwch-dariffio. Roeddent hefyd yn awyddus i gael model o ymarfer dargyfeirio mewn dalfeydd a oedd yn cynnwys darparwyr prosesau dargyfeirio ym mhrosesau gwneud penderfyniadau Datrysiaid y Tu Allan i'r Llys ac roeddent yn cefnogi'r syniad o gael cynllun asesu ac ymyrryd cyflym ac effeithiol wedi'i lunio. Y sylw olaf mewn perthynas â'r garfan hon o gyfranogwyr yw, gan mai nifer bach ohonynt sydd, mae angen ymchwil mwy ansoddol i ddeall realiti bywyd rhingylliaid dalfeydd yng Nghymru yn well mewn perthynas â'u prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch Datrysiaid y Tu Allan i'r Llys yn fwy cyffredinol ac mewn perthynas â chefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.



Dadansoddi Data Meintiol

Er y cafwyd cyfres gyfyngedig o ddata yn y prosiect ymchwil hwn (fel yr esboniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn), roedd y data a ddadansoddwyd dros gyfnod o dri mis (Gorffennaf-Medi 2023) yn dangos rhywfaint o wahaniaethu ar sail hi. Roedd y data'n dangos bod pobl o gefndir ethnigrwydd Du tua theirgwaith yn fwy tebygol â phobl o gefndir ethnigrwydd Gwyn i fod yn y ddalfa a bod pobl o bob cefndir amrywiol o ran ethnigrwydd tua 1.3 gwaith yn fwy tebygol o fod yn y ddalfa. Canfuwyd hefyd fod canrannau uwch o bobl o gefndir ethnigrwydd Du yn mynd drwy orsafoedd yr heddlu o gymharu â phobl o gefndir ethnigrwydd Gwyn. Mae'r data hwn yn awgrymu bod gwahaniaethu ar sail hil o ran unigolion Du sy'n cael eu cyflwyno i'r ddalfa na'r hyn y mae demograffeg leol yn awgrymu y dylai fod, o gymharu â'r gwrthwyneb ar gyfer pobl Wyn. Ymhellach, canran amrywiaeth o ran ethnigrwydd y bobl sy'n mynd drwy'r hwb oedd 19.81% er bod y cyfrifiad yn nodi mai dim ond 16.7% a geir yn y boblogaeth leol felly mae gwahaniaeth o 3.12% yma. Roedd 43 o achosion yn y ddalfa nad oeddent wedi nodi eu hunain neu a oedd wedi cael eu dosbarthu'n anhysbys felly rhaid bod yn fwy gofaluswrth ddadansoddi'r data hyn yn seiliedig ar y nifer mawr hwn a fyddai, pe bai'n cael ei ddsbarthu, yn newidcanran a chyfrany cyfrifiadau'n ddramatig. Hefyd, rhaid i ni fod yn ofalus gyda data'r cyfrifiad a'u cydberthynas â data dalfeydd wrth gymharu ystadegau troseddau â'r cyfrifiad o'r ardal leol a wasanaethir gan ddalfa. Rhaid cydnabod nad yw'r bobl sy'n cael eu cyflwyno i'r ddalfa o'r ardal leol o anghenraid.

Argymhellodd yr adroddiad ar y dadansoddiad o'r data bod angen dadansoddi blwyddyn o ddata o leiaf er mwyn cael tueddiadau credadwy a dadansoddiad manylach ac, er mwyn cefnogi hyn yn effeithiol mewn perthynas â'r amser a oedd ar gael, bod angen dull gwell o dynnu'r data sydd ar gael mewn ffordd fwy amserol. Nodwyd hefyd, yn y dyfodol, gall hapsamplu teithiau troseddwy'r unigol gynnig dealltwriaeth fanwl a gwerthfawr o wahaniaethu ar sail hil na fyddai data a gofnodir yn gallu ei nodi.



Realiti Bywyd Darparwyr Prosesau Dargyfeirio



Mae'r gwasanaethau cymorth dargyfeirio a oedd yn rhan o'r ymchwil hon yn cynnwys ymarferwyr o Be the Change, Ymddiriedolaeth Nelson, Cymru Ddiogelach, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid De Cymru a Media Academy Cymru ac roedd pob un o'r 34 o ymarferwyr yn gweithio yn Ne Cymru.

Gwnaeth sgysiau cychwynnol ar hiliaeth ac anghymesuredd o fewn y System Cyfiawnder Troseddol ennyn teimladau cryf o bob grŵp a chyfweliad. Roedd consensws cryf bod y System Cyfiawnder Troseddol yn dal i droseddoli unigolion o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd, yn enwedig plant, oedolion ifanc a menywod. Roedd consensws hefyd, oherwydd y profiadau o hiliaeth a gafwyd dros genedlaethau o fewn y System Cyfiawnder Troseddol a'r heddlu yn enwedig bod gan sawl grŵp a chymuned o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd ddiffyg ymddiriedaeth ddogfen o'r System Cyfiawnder Troseddol a'r heddlu. Daeth un sylw a oedd wir yn peri pryder gan ymarferydd cyfiawnder ieuenctid a ddywedodd, 'Mae'n anodd i mi ddweud hyn ond gwn, o edrych o amgylch yr ystafell, eich bod yn deall, ond rwy'n gweithio gyda theuluoedd i gefnogi eu plant ac mae'r rhieni eu hunain yn dweud wrth eu plant i fod yn llai gweledol, i beidio â bod mor swnllyd, i grebachu i bob pwrpas a mynd yn anweledig er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu targedu gan yr heddlu. Mae hynny'n rhywbeth mor drist a niweidiol i ddweud wrth eich plentyn i beidio â bod yn ef ei hun, y trauma, ac yn anffodus, dydyn nhw ddim yn anghywir. Rwyf wedi gweld yr heddlu yn troseddoli plant drwy gydol fy ngyrfa. Mae angen iddo ddod i ben.'

Ychwanegodd un arall, 'mae mor anghywir ac mae tuedd yn dod i'r amlwg lle mae plant yn dweud celwydd am eu hethnigrwydd am eu bod yn ofni y bydd pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn, felly pan fyddant yn dod o gefndir cymysg o ran treftadaeth, maent yn dweud eu bod yn Wyn Cymreig.'

Felly, pan fydd plant, oedolion ifanc a menywod yn mynd i'r ddalfa, bydd eu teulu agos a'r gymuned yn dylanwadu arnynt i beidio ag ymddiried yn yr Heddlu ac mae hynny wedi cyfrannu at yr 'ymateb dim sylw' a all ddigwydd fel y nodwyd gan un ymarferydd, a bod hyn 'yn arwain at fwy o bobl ethnig leiafrifol yn mynd drwy'r llys am eu bod yn gwadu cyfrifoldeb ac euogrwydd i droseddau y maent wedi'u cyhuddo ohonynt.' Ychwanegodd un arall, 'ie, rwy'n cytuno, ond weithiau mae'r cyngor cyfreithiol hefyd yn wael, ac rwy'n gwybod gan bobl rwyf wedi gweithio gyda nhw eu bod yn cael cyngor i brofi eu lwc yn y llys neu i gyfaddef i'r cyhuddiad a chael Datrysiaid y Tu Allan i'r Llys gan nad yw'n golygu unrhyw beth, pan nad yw hynny'n wir mewn gwirionedd yn nes ymlaen os byddant yn aildroseddu. Mae angen i ni gael cyngor cyfreithiol gwell hefyd. Yn fy marn i, mae hynny'n faes mawr i wella arno.' Roedd consensws cryf bod angen cyngor cyfreithiol mwy cyson a chywir sydd wir yn cefnogi'r agenda dargyfeirio ac sy'n dargyfeirio plant, oedolion ifanc a menywod oddi wrth effeithiau niweidiol profiadau o'r llys a'r System Cyfiawnder Troseddol. Roedd ymarferwyr o'r farn, er mwyn cyflawni hyn, bod angen 'dau beth mewn gwirionedd, addysg a hyfforddiant gwella a chynrychiolaeth ethnig well o fewn y cymorth cyfreithiol a byddai hynny'n fuddiol iawn.' Ychwanegodd ymarferydd menyw arall yn ystod y sgwrs hon ei bod yn cytuno ond hefyd 'mae angen bod yn ystyriol o rywedd hefyd. Mae angen mwy o fenywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd gan nad yw rhai menywod, oherwydd trais a cham-drin domestig, yn ymddiried mewn dynion ac felly, maent yn ofni dynion yn aml, felly mae angen i ni weithio ar hynny hefyd. Mae angen i ni gael cyfreithwyr arbenigol benywaidd er mwyn i hyn fod yn ystyriol o rywedd.' Ymatebodd un ymarferydd at hyn oll gan ofyn i'r grŵp ffocws, 'Rwy'n cytuno â hyn i gyd ond ydych chi'n meddwl bod angen cyngor gwell ar gyfer merched ar gael gafael ar gyngor cyfreithiol oherwydd ambell waith nawr mae'r menywod rwy'n eu cefnogi wedi dweud nad oeddent am gael cyfreithiwr am eu bod yn meddwl bod hynny fel cyfaddefiad o euogrwydd.' Roedd ambell unigolyn yn cytuno â hyn ond nad oedd yn farn gyffredin.

Tynnodd llawer o ymarferwyr sylw at y ffaith bod angen i'r System Cyfiawnder Troseddol ailennyn ymddiriedaeth â grwpiau a chymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd ond bod hyn yn anodd pan fydd cymaint o hiliaeth yn y system o hyd a'u bod yn dal i ystyried bod yr heddlu yn eu troseddoli nhw, eu plant a'u cymunedau. Dywedodd un ymarferydd, 'mae angen i'r gydberthynas honno fod yn gadarnhaol a bod ymddiriedaeth yno fel y gallwn, fel System Cyfiawnder Troseddol cyfan, hyrwyddo ymarfer dargyfeirio, ond mae lefelau ymddiriedaeth mor isel, mae am fod yn anodd iawn cyflawni hynny. Mae angen i bobl weld newid i ddechrau ac nid yw hynny'n digwydd.'

Roedd consensws cyffredinol nad oedd digon o gysondeb yn y broses gwneud penderfyniadau mewn dalfeydd, ac nad oedd yn anghyffredin nad oedd rhingylliaid dalfeydd yn dilyn y broses gywir. Cytunwyd hefyd fod lefel y cysondeb/ anghysondeb yn gymysg ledled rhanbarthau De Cymru. Roedd y gwahaniaeth rhanbarthol i'w briodoli i ddiwylliannau a dealltwriaeth wahanol o gymorth ar gyfer ymarfer dargyfeirio, a rhoddwyd y farn hon mewn perthynas â phlant, menywod a dynion o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd ond cafwyd arsylwadau mwy cyffredinol ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys mewn dalfeydd hefyd. Nododd un aelod o grŵp ffocws, 'mae'r ardaloedd yn newid gyda swyddogion gwahanol ac mae rhai yn deall yr agenda dargyfeirio ac felly mae diwylliant da yno ac mae eraill yn gwybod amdano ond dydyn nhw ddim yn cytuno ag ef nac yn ei gefnogi, ac mae hynny'n amlwg yn y penderfyniadau a wnânt.' Roedd un arall yn cytuno ac yn dweud bod rhai ardaloedd yn dal i fod yn 'hen ffasiwn ar y cyfan gan ddefnyddio'r dull cosbol o hyd.' Roedd pawb yn cytuno 'y dylai fod yn gyson ac yn deg i bawb ble bynnag rydych yn byw ac felly bod angen i hynny newid.'

Roedd profiadau cyson hefyd lle cafwyd rhywfaint o anghytuno mewn penderfyniadau dargyfeirio rhwng darparwr prosesau dargyfeirio a thîm heddlu y System Cyfiawnder leuenctid a/neu ringylliaid dalfeydd. Roedd darparwyr dargyfeirio o'r farn bod uwch-dariffio yn digwydd yn rheolaidd a'i fod yn achosi mwy o drawma a chanlyniadau tymor hwy i blant, oedolion ifanc a menywod. Nododd un ymarferydd, 'wel, mae'n dal i dueddu i wyro tuag at ddadansoddi'r plentyn drwy lens risg ac rwy'n meddwl eu bod (heddlu'r System Cyfiawnder leuenctid) yn cael eu dadsensiteiddio gymaint nes byddant yn anghofio eu bod yno i gefnogi'r plentyn ac ni chaiff egwyddorion rhoi'r plentyn yn gyntaf eu defnyddio fel y dylent. Mae

gennym lawer o ffordd i gyrraedd y fan honno.' Ychwanegodd un ymarferydd, 'rwy'n cytuno'n llwyr ac, a dweud y gwir, mae angen gwell dealltwriaeth o ddargyfeirio ac nad ystyrir bod y System Cyfiawnder leuenctid yn ymyrryd yn y system Cyfiawnder, ond ein bod yn rhan allweddol ohoni, a'n bod yn amddiffyn ac yn cefnogi plant.'

Roedd ymarferydd dargyfeirio arall yn cytuno ac esboniodd bod uwch-dariffio yn digwydd o hyd yn rhy aml o lawer gyda menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a dywedodd, 'Rwy'n dal i'w weld ac mae'r menywod hyn yn cael eu gweld fel risg a'r stereoteip menyw ddu flin a'r fenyw wyrdröedig ac mae'n sicr yn dylanwadu'n negyddol ar y penderfyniadau a wneir.' Ychwanegodd ymarferydd arall, 'yn fwy na hynny, gallwch weld y gwahaniaethir yn erbyn llawer o fenywod oherwydd eu hethnigrwydd ac am eu nodweddion eraill hefyd, eu rhywedd a'u crefydd a'u hoedran weithiau hefyd. Does dim rhyfedd bod rhai menywod yn flin, ac mae ganddynt hawl i fod yn flin hefyd.' Pan gafodd hyn ei archwilio mewn grwpiau ffocws, roedd yn amlwg bod cytundeb bod y stereoteip 'menyw ddu flin' yn achosi i'r heddlu a gwasanaethau eraill fel y gwasanaethau cymdeithasol werthuso plant a menywod o'r fath â lens risg a pherygl negyddol. Dywedodd un ymarferydd, 'ni chafwyd llawer o ddealltwriaeth gan wasanaethau o'r fath ynghylch pam y mae plant a menywod o'r fath yn teimlo'n flin iawn â chymdeithas, y System Cyfiawnder Troseddol a gwasanaethau cymorth eraill nad ydynt yn eu deall nhw na'u hanghenion nac yn eu cefnogi'n effeithiol'. Rhoddodd un ymarferydd gipolwg ar fenyw y mae'n ei chefnogi gan dynnu sylw at y safbwyntiau hyn:

'Rwy'n cefnogi un fenyw na ddylai fod wedi gorfod mynd i'r carchar. Roedd y fenyw hon o dreftadaeth Somali, roedd yn ddigartref ac yn feichiog. Asesodd y gwasanaethau cymorth nad oedd yn ddigon anghenus i gael cymorth llely, ac nid oedd yn syndod iddi wneud yr hyn yr oedd angen iddi ei wneud i oroesi. Torrodd y gyfraith, do, ond cafodd ei hecsbloetio i ddosbarthu cyffuriau a chafodd ei dal ac aeth i'r carchar. Tynnwyd plentyn y fenyw hon oddi wrthi ac mae nawr wrthi'n ceisio ailadeiladu ei bywyd a chael ei phlentyn yn ôl. Ni fyddai hyn wedi digwydd pe byddai'r gwasanaethau cymorth y ceisiodd gael cymorth ganddynt wedi gwneud eu gwaith. Mae ymyrraeth gynnar yn dechrau ymhell cyn cam yr heddlu. Mae'r holl wasanaethau cymorth oedd yn delio â'r fenyw hon wedi ei siomi ac mae'n haeddu bod yn flin iawn am hyn oll, fel yr

wyf innau. Rydym yn siomi menywod o'r fath yn gyson.'

Roedd y datrysiad i ddatblygu system sy'n deall anghenion a realiti pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn well a datblygu prosesau gwneud penderfyniadau cyson a lleihau achosion o uwch-dariffio mewn dalfeydd yn cael ei ystyried fel un eithaf syml yn yr holl grwpiau ffocws a'r trafodaethau yn y cyfweiliadau anffurfiol. Roedd galwad unfrydol am fodel mwy rhyngddisgyblaethol o ymarfer a gwneud penderfyniadau ar y cyd gyda darparwyr dargyfeirio yn rhan ganolog o hyn a bod hynny'n rhan o'r broses o gymryd datganiadau unigolion a gaiff eu cyhuddo ac wrth gael cyngor cyfreithiol er mwyn cynnig cymorth mewn cyd-destunau a allai greu trawma. Dywedodd ymarferydd un fenyw, 'Rwy'n gwybod pe byddem yn rhan o bopeth, gan gynnwys cymryd datganiad a chael ein cynnwys go iawn yn y broses o wneud penderfyniadau a chefnogi'r ddealltwriaeth o beth yw ystyr dargyfeirio mewn gwirionedd a dechrau'r broses asesu honno yn gyflym yna byddai'n dileu llawer o'r trawma sy'n gysylltiedig â dalfeydd i fenywod ac i blant.' Ymatebodd ymarferydd arall a oedd yn canolbwyntio ar waith gyda phlant, 'yn sicr, mae angen i ni wneud hyn o fewn cyfiawnder ieuencid fel bod dalfeydd yn teimlo fel gwasanaeth cymorth i blant ac nid fel lle sy'n ennyn trawma.' Gofynnwyd a ellid ystyried bod yr argymhellion a'r anghenion hyn fel newidiadau eithaf cyffredinol i'r system Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ac roedd llawer o ymarferwyr yn cytuno ond ychwanegwyd, 'wel ie, rydym yn gwybod bod angen cynrychiolaeth ethnig well yn ein gwasanaethau ac ymarfer gwrth-hiliol gwell hefyd a byddai angen rhoi hyfforddiant effeithiol i'r darparwyr dargyfeirio arbenigol a byddai angen ymrwymiad gwirioneddol i wella lefelau amrywiaeth ymarferwyr o'r fath.' Ychwanegodd ymarferydd arall, 'Rwyf hefyd yn meddwl bod angen i ni gael gwasanaethau sy'n arbenigo mewn gwasanaethu a diwallu anghenion grwpiau ethnig leiafrifol, felly mae angen i ni gael mwy o'r sefydliadau hyn o amgylch y bwrdd a'u cynnwys.' Fodd bynnag, nodwyd 'rydym yn cael cymorth da iawn gan B The Change ar hyn oll ac rydym yn teimlo'n llawer mwy hyddysg a pharod i fod yn wrth-hiliol.'

Wrth drafod gwasanaethau arbenigol, codwyd yr angen am fynediad cyflymach i wasanaethau cyfieithu a nodwyd pan nad oedd ar gael yn gyflym, bod hynny'n rhwystr sylweddol i gyfiawnder ac yn aml yn creu profiadau negyddol a thrawmatig. Nododd rhai

ymarferwyr hefyd bod y gwasanaethau cyfieithu yn dda ac yn gefnogol yn eu hardal nhw a bod yr angen yn cael ei ddiwallu. Fodd bynnag, roedd pawb yn cytuno bod yr angen am gymorth cyfieithu cyflym a hygyrch yn ganolog i'r broses o leihau trawma mewn dalfeydd.

Nododd sgysiau hefyd y ffaith bod gan fenywod a phlant/oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd fwy o heriau ac anghenion, y mae llawer ohonynt wedi deillio o hiliaeth systemig mewn sefydliadau eraill ac am nad ydynt wedi cael cymorth effeithiol drwy gydol eu bywydau. Cytunwyd yn gyffredinol fod gan blant, oedolion ifanc a menywod (a dynion) o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd gyfraddau uwch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma yn rhannol oherwydd profiadau o hiliaeth a straen hiliol a thrawma ond hefyd oherwydd cyfraddau uchel o drais a cham-drin domestig a theuluoedd yn chwalu. Gwelwyd hefyd od gyfraddau uchel o iechyd meddwl a llesiant gwael gyda gorbryder ac iselder cyffredin yn cyfrannu at lefelau gwael ac anghyfforddus o gymdeithasu, gorbryder cymdeithasol neu o ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth. Roedd cred hefyd ar draws y rhan fwyaf o ymarferwyr ei bod yn debygol bod lefelau uchel iawn o anghenion gyda niwroamrywiaeth ac anabledau/cyflyrau heb gael diagnosis ac nad oedd y rhain wedi cael eu nodi'n gynharach am fod sefydliadau addysgol a meddygol yn ystyried bod ymddygiadau plant amrywiol o ran ethnigrwydd fel 'gwydröedig, drwg, blin ac wedi cael magwraeth wael' yn hytrach na symptomau cyflyrau fel ADHD, Awtistiaeth, iechyd meddwl, trawma a C/PTSD. Mae gormod o lawer o ddyfyniadau i'w rhannu mewn perthynas â safbwyntiau'r ymarferwyr hyn, ond efallai bod un dyfyniad yn cyfleu hanfod y sgysiau yn glir:

'Mae'r plant, menywod a dynion hyn o gefndiroedd ethnig leiafrifol yr ydym yn siarad amdanynt yn cael eu hanwybyddu'n gyson. Nid llithro drwy'r rhwyd y maen nhw fel mae rhai yn ei ddweud. Yn hytrach, ystyrir mai nhw yw'r broblem ac mai nhw sydd ar fai am eu sefyllfa, ond mae eu realiti'n cael ei anwybyddu ac nid yw eu hanghenion yn cael eu diwallu. Allaf i ddim dychmygu cael fy siomi gymaint o adeg plentyndod mewn gwirionedd yn achos gwasanaethau cymorth, addysg, cyflogaeth, popeth. Nid yw cymdeithas yn helpu pobl o'r fath ac mae hynny'n amlwg yn yr oedolion rwy'n gweithio gyda nhw.... maen nhw wedi blino ar y sefyllfa, wedi cael llond bol, maen nhw'n flin, ond rydym yn ceisio eu cynorthwyo ac adeiladu gobaith a hunanwerth ac rydym yn llwyddo'n

araf bach, ond ddylai pethau ddim bod fel hyn yn 2024.'

Er mwyn cynorthwyo plant, oedolion ifanc a menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn effeithiol, awgrymwyd yn gryf bod 'angen gwasanaethau dargyfeirio arbenigol sy'n anstatudol o fewn y sector gwirfoddol, gan ein bod wedi ein lleoli yn y gymuned o bobl a wasanaethir gennym, ond mae angen i ni ddatblygu gwasanaethau sy'n deall ac yn diwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol yn well. Rydym yn dechrau gwneud hyn yn well drwy gymorth ac addysg a hyfforddiant ac mae ein hamrywiaeth o ran ethnigrwydd ein hunain yn gwella ond mae tipyn o ffordd i fynd eto, ond rydym wedi ymrwymo i'r daith hon.' Esboniodd grŵp ffocws arall fod y dull gweithredu Un Gymru wedi golygu bod ei sefydliad yn cael cymorth uniongyrchol gan B The Change a bod cael ymarferwyr o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn arwain prosesau i ddeall ymarfer gwrth-hiliol yn bwysig iawn. Dywedodd un ymarferydd, 'mae diffyg amrywiaeth o hyd o fewn timau dargyfeirio ac mae rhai yn ofni cael pethau'n anghywir ond rwy'n croesawu cymorth B The Change.... pan fydd prosesau mentora ac arwain mae'n gadarnhaol iawn i allu dysgu am naws a diwylliant sefydliad a'i newid.' Yn ystod y sgysiau hyn, roedd rhai o'r ymarferwyr yn cytuno eu bod weithiau'n ofni 'cael pethau'n anghywir a dweud y peth anghywir ac achosi sarhad neu hyd yn oed gael fy ngalw'n hiliol ond gwn fod angen i mi anghofio am hynny a gofyn cwestiynau a bod yn chwilfrydig a siarad â pharch.' Cafodd yr angen am addysg a hyfforddiant hirdymor ar ymarfer gwrth-hiliol ei gydnabod gan yr holl ymarferwyr yn ystod grwpiau ffocws ac yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu a bod angen hyn ar draws yr holl System Cyfiawnder Troseddol gan gynnwys ar gyfer cyngor cyfreithiol a lle y bo modd, fel y nododd un ymarferydd, 'dylai hyn gael ei ddatblygu a'i arwain, pan fydd yn briodol, er mwyn sicrhau na chaiff mwy o drawma ei achosi, gan bobl sydd wedi ei fyw ac sydd wedi bod yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol.'

O ran y cymorth a'r dull gweithredu oedd eu hangen ar gyfer plant, oedolion ifanc a menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd, cafwyd consensws cryf bod angen i gymorth dargyfeirio ganolbwyntio ar yr unigolyn, a chael ei arwain gan anghenion gyda'r cleient yn cyfarwyddo ei anghenion cymorth ei hun. Dywedodd un ymarferydd, 'yr hyn sydd ei angen arnom a'r hyn rydym yn ei gyflawni yw model ymarfer sydd wedi'i arwain gan anghenion, sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf,

sy'n wrth-hiliol ac sy'n ystyriol o drawma, felly mae'n dynoli ac yn dangos parch ac rydym yn gweithio gyda phlant yn hytrach nag ar eu cyfer. Model gwaith ieuencid ydyw mewn gwirionedd ac rydym yn dechrau o sefyllfa'r plentyn ac yn adeiladu o'r fan honno.' Roedd ymarferwyr benywaidd yn cytuno â hyn, gan ddweud, 'fel gyda ni, rydyn ni'n dechrau ag anghenion a realiti'r fenyw ac yn archwilio ei heriau ac yn datblygu cynllun i gefnogi hyn oll ac yn ymgorffori hynny mewn lleoliad cymunedol sy'n teimlo'n ddiogel i fenywod.' Roedd yr holl ymarferwyr yn cytuno bod gan lawer o'r bobl amrywiol o ran ethnigrwydd a gefnogir ganddynt anghenion cymhleth ac felly bod angen amser i'w cynorthwyo'n effeithiol ac i gefnogi twf personol ac felly fel y nododd un ymarferydd, 'allwn ni ddim disgwyl newid mewn chwe wythnos. Mae hynny'n digwydd i rai, ond i lawer mae'n fwy fel 12-16 wythnos o leiaf, er mwyn i ni gael amser i feithrin ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr ac yna byddwch yn gweld newid go iawn. Mae angen amserlenni realistig neu os daw cymorth i ben, byddant yn dal i wynebu'r heriau cymhleth hyn ac nid yn ffynnu fel y gallent. I rai pobl, rydym yn eu helpu i ailadeiladu eu hunain a'u bywydau. Mae'n cymryd amser.'

Roedd yr ymarferwyr plant ac oedolion ifanc hefyd yn cytuno â hyn ond gwnaethant hefyd godi'r cysyniad o Gyfiawnder Adferol a'r ffaith eu bod yn meddwl ei fod yn arwynebol yn Ne Cymru ac mae'n debyg ledled Cymru hefyd. Dywedodd un ymarferydd ifanc, 'rydym yn caru termau ffasiynol ac mae Cyfiawnder Adferol yn un o'r termau ffasiynol hynny ond nid yw'r hyn sy'n cael ei wneud yn adferol ac felly mae angen newid hynny yn y dyfodol, mae angen ymarfer dilys ac nid dim ond llythyr ymddiheuro. Mae Cyfiawnder Adferol yn golygu cymaint yn fwy na hynny ac mae angen i ni fuddsoddi yn y model hwnnw neu roi'r gorau i ddefnyddio'r term.' Roedd pob ymarferydd yn cytuno â'r datganiad hwn hefyd ac yn teimlo po hiraf y caiff cymorth dargyfeirio ei gynnal, y mwyaf tebygol ydyw bod prosesau adferol yn dechrau. Dywedodd pawb, pan fydd cyfiawnder adferol yn gweithio, bod pobl yn dechrau deall eu hymddygiadau a chymryd gwir gyfrifoldeb ac atebolrwydd am eu gweithredoedd blaenorol, eto gan awgrymu bod angen cymorth tymor hwy er mwyn i dwf personol iawn ddigwydd.

Yn olaf, pan ofynnwyd a oes unrhyw beth arall nad yw wedi cael ei drafod, nododd ambell unigolyn yr angen am brosesau cipio data a rhannu gwybodaeth gwell a mwy cywir ar draws yr holl bartneriaid sy'n rhan o ymarfer dargyfeirio

ac roedd yr holl ymarferwyr ym mhob grŵp yn cytuno'n llwyr â hyn. Safbwynt sawl un oedd y byddai data mwy cyflawn a gaiff eu rhannu yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r amrywiaeth o ran ethnigrwydd a'r pwyntiau posibl ar y daith dargyfeirio lle gall fod gwahaniaethau'n codi ynghyd â theithiau cadarnhaol o ddargyfeirio ac ymatal llwyddiannus.

Y garfan hon o ymarferwyr oedd y fwyaf ac roedd y naratifau a'r realiti ganddynt yn bwerus, fel y gellir gweld o'r dyfyniadau uchod, ac mae eu tystiolaeth yn dangos dealltwriaeth ddofn o'r materion sy'n bodoli o fewn dargyfeirio cyn achos llys ac yn fwy penodol mewn perthynas â hiliaeth ac anghymesuredd hiliol. Mae'n amlwg bod yr holl ymarferwyr dargyfeirio yn credu bod angen i'r System Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu o bosibl feithrin cydberthnasau cadarnhaol ag unigolion, grwpiau a chymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu ymddiriedaeth. Ystyriwyd bod ymddiriedaeth yn allweddol er mwyn gallu hyrwyddo canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol ymarfer dargyfeirio cyn achos llys mewn cymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd fel y byddai teuluoedd a chymunedau yn hyrwyddo'r naratif hwn wrth gefnogi aelodau o'u teulu pe byddent yn gorfod penderfynu derbyn cyfle i ddargyfeirio cyn achos llys.

Oherwydd y gwahaniaethu ar sail hil y mae pobl amrywiol o ran ethnigrwydd yn ei wynebu gyda heddlu llinell flaen, cytunwyd yn llwyr ym mhob grŵp ymarferwyr dargyfeirio bod angen i ddarpariaeth dargyfeirio ar gyfer pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd gael meini prawf cymhwysra cynhwysol. Roedd meini prawf cynhwysol yn cynnwys cyfle i roi sawl ymgais ar ddargyfeirio, gan ddechrau gyda chyffyrddiad ysgafn, ac y dylai'r cymorth ganolbwyntio ar yr unigolyn ac ar feithrin cydberthnasau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch. Roedd ymarfer dargyfeirio yn cael ei ystyried fel ymarfer adferol, sy'n ystyriol o drawma ac sy'n wrth-hiliol a, lle y bo'n briodol, dylai roi'r plentyn yn gyntaf a bod yn ystyriol o rywedd. Dylai cynlluniau ymyrraeth dargyfeirio gefnogi anghenion a realiti'r bobl a gefnogir ganddynt a chynnig cymorth tymor hwy pan fydd angen ac, fel arfer, mae hyn yn golygu o leiaf 12-16 wythnos er mwyn gweld gwir newid mewn ymddygiad a thwf personol. Tynnodd rhai o'r ymarferwyr hefyd sylw at y ffaith bod yn rhaid i gymorth cyfieithu cyflym ac effeithiol fod ar gael yn gyson i bawb sydd ei angen mewn dalfeydd er mwyn cyfyngu ar drawma amgylchedd dalfeydd.

Nododd yr unigolion yn y trafodaethau ar draws y grwpiau hyn hefyd yn gryf eu bod yn teimlo y dylai prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ddefnyddio model ymarfer amlasiantaethol sy'n cefnogi trafodaeth a bod angen cytundeb drwy gonsensws ac sy'n cefnogi darparwyr dargyfeirio i gefnogi eu cleientiaid yn effeithiol drwy bob cam o'r profiad mewn dalfeydd a lleihau trawma.

Roedd hefyd yn amlwg bod yr ymarferwyr hyn yn gwybod bod angen cael gwasanaethau anstatudol arbenigol ar gyfer pobl amrywiol o ran ethnigrwydd sy'n rhan o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, fel bod eu hanghenion yn cael eu deall a'u diwallu. Roedd cytundeb cyffredinol hefyd y dylai gwasanaethau arbenigol gefnogi, mentora ac arwain y System Cyfiawnder Troseddol ehangach a gwasanaethau dargyfeirio prif ffrwd eraill.

Ystyriwyd bod gwir angen i'r System Cyfiawnder Troseddol gael addysg a hyfforddiant hirdymor disgysiol ac effeithiol ar faterion gwrth-hiliaeth ac ymarfer ond yn enwedig swyddogion heddlu llinell flaen a dalfeydd, a gwasanaethau cysylltiedig, fel darparwyr dargyfeirio a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd consensws hefyd bod angen addysg a hyfforddiant hirdymor i feithrin gwell dealltwriaeth ar ymarfer sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac sy'n ystyriol o rywedd a thrawma, ynghyd â phrosesau a chanlyniadau cadarnhaol dulliau dargyfeirio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ac ymysg swyddogion heddlu llinell flaen a dalfeydd a chyfreithwyr, ac mewn perthynas ag ymarferwyr plant, addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol yr oedd yr angen mwyaf am hyn. Nodwyd yr angen i brosesau dargyfeirio cyn achos llys a Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys gael eu nodi fel canlyniad cadarnhaol i'r Heddlu fel canlyniad angenrheidiol.

Tynnodd y garfan hon sylw at yr angen am ddata y cytunir arnynt yn gyffredin a dulliau cipio data effeithiol gan eu rhannu'n amlasiantaethol fel y gall yr holl wasanaethau dargyfeirio ddeall a chefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

Yn olaf, roedd yr holl ymarferwyr yn credu bod angen canolbwyntio ar wella amrywiaeth o ran ethnigrwydd drwy'r holl System Cyfiawnder Troseddol ac ar bob lefel o sefydliadau er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi ac amrywiaeth y bobl a wasanaethir gan y System Cyfiawnder Troseddol.



Cyfreithwyr Realiti Bywyd

Yn anffodus, er y gwnaed ymdrechion parhaus dros saith mis, dim ond dau gyfreithiwr a gymerodd ran mewn trafodaethau o realiti bywyd eu rolau mewn perthynas â dargyfeirio cyn achos llys. Dynion oedd y ddau a gymerodd ran ac roeddent o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd ac yn brofiadol iawn yn eu rolau.

Roedd y ddau gyfreithiwr yn cytuno bod hiliaeth ac anghymesuredd yn bodoli o hyd yn y System Cyfiawnder Troseddol ond bod hyn wedi bod yn gwella'n raddol dros y 10 mlynedd diwethaf mewn sawl ardal gydag un ohonynt yn credu nad oedd yn broblem sylweddol yng Nghymru mwyach. Roeddent yn cytuno hefyd eu bod wedi gweld hiliaeth ac anghymesuredd mewn cyd-destunau Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys ond nad oedd hyn yn gyffredin yn Ne Cymru. Dywedodd y ddau gyfreithiwr bethau tebyg i, 'wel ie, rydych yn dal i'w weld ond mae'n beth prin yn Ne Cymru. Mae'n digwydd fwy mewn rhannau eraill o'r wlad ond mae rhai penderfyniadau gwirion iawn yn cael eu gwneud wrth gyhuddo pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol ac mae hyn yn digwydd fwyaf gyda phobl ifanc yn fy marn ni.' Dywedodd un o'r cyfreithwyr hefyd, 'os bydd pobl ifanc, neu blant yn llygad y gyfraith, yn cael eu cyhuddo, rydych chi'n gweld dedfrydau llymach ar gyfer plant o gefndiroedd ethnig leiafrifol.'

Wrth drafod y nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys a'r cyfraddau is o bobl amrywiol o ran ethnigrwydd, roedd y ddau gyfreithiwr o'r farn 'bod angen i ni feithrin ymddiriedaeth â grwpiau a chymunedau o'r fath, yn enwedig cymunedau Du ac Asiaidd, gan fod cymaint o ddiffyg ymddiriedaeth gyffredinol o'r System Cyfiawnder Troseddol a'r heddlu, a hynny'n ddigon dealladwy.' Yn ystod y sgysiau hyn, gofynnwyd sut y gellid meithrin ymddiriedaeth mewn cymunedau o'r fath a'r ymateb oedd, 'mae'n mynd i fod yn anodd, gyda chymaint o ddiffyg ymddiriedaeth o'r heddlu, ond mae'n rhaid i chi fynd allan i'r cymunedau hynny, dylai'r heddlu fynd allan ac adeiladu'r ymddiriedaeth honno a dod i adnabod y bobl o'r cymunedau hynny. Mae'n cymryd amser.'

Trodd y sgysiau yn naturiol at addysg a hyfforddiant i'r heddlu ac roedd gan y ddau gyfreithiwr farn debyg, 'mae angen mwy o addysg a hyfforddiant ar gyfer swyddogion heddlu ar y stryd ac mewn dalfeydd ond mae hynny wedi newid er gwell yn sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf ac mae pethau'n well o lawer erbyn hyn.' Pan ofynnwyd a oedd angen i gyfreithwyr gael mwy o addysg a hyfforddiant ar faterion gwrth-hiliaeth a sut mae hynny'n

ymwneud â Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys a phrosesau dargyfeirio, roedd y ddau yn cytuno bod angen ond gwnaethant nodi bod y pwnc wedi'i gynnwys yn eu hyfforddiant a'u llawlyfr cyfreithiol. Dywedodd un cyfreithiwr, 'rwy'n meddwl y dylai pob un ohonom gael y wybodaeth ddiweddaraf am y pynciau pwysig hyn. Mae hyn yn rhan o fod yn broffesiynol ac o fod yn gyfreithiwr.' Ar yr adeg hon o'r sgws, dywedodd yr un cyfreithiwr hefyd ei fod wedi clywed am rai cyfreithwyr, 'wel, maen nhw'n cynghori eu cleient i fynd gyda dargyfeiriad hyd yn oed os bydd yn ddieuog am eu bod o'r farn nad yw dargyfeiriad yn golygu dim, ac, i'r gwrthwyneb, rwy'n gwybod am gyfreithwyr sy'n cynghori eu cleientiaid i fynd i'r llys hyd yn oed os ydynt yn gyfrifol ac y gallent fod wedi cael Dargyfeiriad y Tu Allan i'r Llys ac felly mae angen mwy o ddealltwriaeth a chysondeb. Dydw i ddim wedi gwneud yr un o'r rhain, a fyddwn i ddim yn gwneud hynny chwaith. Os yw'r cleient yn ddieuog, byddwn yn mynd i'r llys ac os nad yw yna mae Datrysiad y Tu Allan i'r Llys yn gymwys, a dyna y byddaf i'n ei gynghori, ond yn y diwedd, penderfyniad y cleient ydyw.'

Wrth drafod cymhwystira a meini prawf Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys, roedd y ddau gyfreithiwr o'r farn, 'dylai plant a hyd yn oed oedolion ifanc efallai gael sawl ymgais i ddargyfeirio, os yw'n drosedd wahanol efallai, ond os ydych yn oedolyn, na. Un siawns y dylech ei chael am eich bod yn oedolyn ac y dylech allu dysgu o'ch camgymeriadau ac os nad ydych wedi dysgu eich gwers, dylai fynd i'r llys y tro nesaf.'

Yn olaf, wrth drafod amrywiaeth a chynrychiolaeth o ran ethnigrwydd yn y System Cyfiawnder Troseddol, roedd y ddau o'r farn 'bod lefelau uwch o amrywiaeth ar draws y System Cyfiawnder Troseddol o gymharu â 10 mlynedd yn ôl, felly mae'n gwella, yn enwedig yn y llysoedd ond mae tipyn o ffordd i fynd eto o ran yr heddlu, carchardai a'r gwasanaeth prawf, ond efallai fy mod yn anghywir gan nad wyf wedi gweld yr ystadegau yn ddiweddar.'

Roedd yn amlwg o'r cyfweiliadau anffurfiol â'r Cyfreithwyr mai'r prif feysydd i'w datblygu o'u realiti nhw oedd bod angen meithrin cydberthnasau cadarnhaol â grwpiau a chymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd er mwyn cefnogi proses o addysgu nodweddion cadarnhaol manteisio ar gyfleoedd dargyfeirio. Roeddent hefyd o'r farn bod angen i swyddogion heddlu llinell flaen a dalfeydd yn benodol gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ymarfer rhoi'r plentyn yn gyntaf ac ymarfer gwrth-hiliol er mwyn cefnogi ymarfer effeithiol a lleihau lefelau anghymesuredd. Roedd yn amlwg bod y ddau gyfreithiwr yn credu bod angen

meini prawf cymhwysra cynhwysol ar gyfer darparu prosesau dargyfeirio ar gyfer plant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd gyda siawns o gael sawl ymgais i ddargyfeirio. Yn olaf, nododd y ddau gyfreithiwr bod angen canolbwyntio ar gynyddu lefelau amrywiaeth o ran ethnigrwydd ym mhob rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol ac ar bob lefel o sefydliadau er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi ac amrywiaeth y bobl a wasanaethir gan y System Cyfiawnder Troseddol, er bod y ddau ohonynt o'r farn bod hyn wedi gwella dros y 10 mlynedd diwethaf.



Realiti Bywyd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi

Cytunodd pedwar ymarferydd o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn a chafodd eu realiti ei nodi mewn grŵp ffocws ar-lein. Cymerodd dwy fenyw a dau ddyn ran ac roedd un o'r dynion o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd ac roedd y tri arall o gefndir Gwyn Cymreig/Prydeinig. Oherwydd yr arbenigedd yn y grŵp ffocws hwn, y brif drafodaeth oedd profiad plant o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd o ddargyfeirio a chyfleoedd ar gyfer canlyniad 22 / rhybuddion ieuencid.

Roedd yr holl ymarferwyr o'r farn y cafwyd, 'cynnydd cyffredinol yn nifer yr ymddangosiadau llys i blant yn benodol er gwaethaf y ffaith eu bod yn gymwys i gael dargyfeiriad ac agenda a ffocws tybiedig ar gyfer cynyddu canlyniad 22 fel bod plant yn cael eu dargyfeirio i ffwrdd o drawma llys.' Nododd un ymarferydd, 'ie, rwy'n cytuno â hynny ac rydym yn gweld cynnydd yn nifer y merched ifanc sy'n mynd i'r llys hefyd pan allent fod wedi cael canlyniad 22.' ychwanegodd un arall, 'yn yr achosion hyn, mae angen proses ohirio arnom felly, os gallai'r cyhuddiad wedi bod yn Ddatrysiaid y Tu Allan i'r Llys, canlyniad 22, caiff ei adolygu eto er mwyn atal y trawma o achos llys.' Roedd pawb yn cytuno, fel y nododd un ymarferydd, 'mae methiant systemig asiantaethau partner yn achosi trawma ac mae diffyg cyswllt rhwng yr heddlu, y System Cyfiawnder Ieuencid, darparwyr dargyfeirio a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae angen i ni sicrhau gwaith rhyngasiantaethol gwell drwy rannu data a gwybodaeth mewn modd tryloyw a chllir, fel bod prosesau gwneud penderfyniadau yn glir ac yn dryloyw ac mae hynny'n digwydd ar hyn o bryd.' Ychwanegwyd, 'er mwyn unioni hyn mae angen i Wasanaeth Erlyn y Goron gymryd rheolaeth o bob llys ieuencid drwy greu timau erlyn arbenigol ac mae angen cynrychiolaeth well o lawer hefyd gan fod rhagfarn hiliol yn amlwg

o fewn y system.' Ychwanegodd un arall, 'mae hefyd angen i ni gael prosesau datrys problemau gwell mewn dalfeydd a fyddai'n rhoi diwedd ar y trawma diangen hwn pan fydd plant yn mynd i'r llys pan allent fod wedi cael canlyniad 22.'

Wrth drafod beth fyddai'n cefnogi'r broses o sicrhau bod yr holl 'fethiannau' hyn fel y'u gelwir yn cael eu datrys, y brif gred oedd y byddai addysg a hyfforddiant gwell a chynrychiolaeth ethnig amrywiol ar draws y system yn creu newid cadarnhaol. Roedd yr holl ymarferwyr o'r farn 'bod angen i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi gael mwy o addysg a hyfforddiant oherwydd y gall hiliaeth gael ei cholli yn yr hyfforddiant cydraddoldeb ehangach ac felly byddai hynny'n ddefnyddiol.' Roedd un arall yn credu 'rwyf wir yn teimlo bod angen mwy o addysg a hyfforddiant ar faterion gwrth-hiliaeth ar yr heddlu, cynghorwyr cyfreithiol, cyfreithwyr yr amddiffyn ac ynadon a bod angen sicrhau mwy o lawer o amrywiaeth yn y llysoedd ond drwy'r holl System Cyfiawnder Troseddol mewn gwirionedd am ei bod yn wyn iawn. Rhaid i ni ganolbwyntio ar gynrychiolaeth.'

Yn gryno, roedd grŵp ffocws Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, fel pob grŵp, o'r farn bod angen i'r heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol yn ehangach gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ymarfer gwrth-hiliol sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac sy'n ystyriol o rywedd a thrawma, yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn dalfeydd. Tynnodd y grŵp ffocws hwn hefyd sylw at yr angen i ringylliaid dalfeydd gael addysg ar ganlyniadau ac effeithiau cadarnhaol prosesau dargyfeirio cyn achos llys a Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys, er mwyn iddo newid ymarfer uwch-dariffio ac ymarfer cosbol. Eto, fel gyda rhanddeiliaid eraill, roedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn credu y dylai unigolion sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys ddefnyddio model ymarfer amlasiantaethol sy'n cefnogi proses dryloyw o wneud penderfyniadau ar y cyd lle y bo modd gan ddefnyddio canlyniad 22 i gefnogi plant yn effeithiol a lleihau trawma. Tynnodd y garfan hon hefyd sylw at yr angen i gynyddu amrywiaeth ethnig drwy'r System Cyfiawnder Troseddol ac ar bob lefel o sefydliadau er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi a'r amrywiaeth o bobl a wasanaethir gan y System Cyfiawnder Troseddol. Un canfyddiad newydd a gafwyd gan rai o'r grŵp hwn o blith y garfan hon o ymarferwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi oedd y dylai'r System Cyfiawnder Troseddol gael rheolaeth o bob llys ieuencid a chreu timau erlyn arbenigol fel bod plant yn cael eu cefnogi'n effeithiol o fewn y System Cyfiawnder Troseddol.



Realiti Bywyd Plant ac Oedolion Ifanc



Yn ystod y gwaith ymchwil, dim ond un plentyn (17 oed) a thri oedolyn ifanc (18-25) a gymerodd ran mewn cyfweiliad anffurfiol er gwaethaf ymdrechion parhaus i ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau a oedd yn cefnogi plant ac oedolion ifanc o'r fath. Cafodd amserlen y prosiect ymchwil ei hymestyn i hwyluso hyn, ond methodd recriwtio nifer mawr o blant ac oedolion ifanc o hyd. Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod bod realiti bywyd dim ond pedwar plentyn ac oedolyn ifanc yn nifer bach i seilio gwersi i'w dysgu ac argymhellion arno ar gyfer ymarfer yn y dyfodol a dyma un o gyfyngiadau'r ymchwil hon.

Fodd bynnag, rhannodd y plentyn a'r oedolion ifanc a drafododd eu realiti bywyd naratifau pwerus o brofi hiliaeth mewn cymdeithas ac o fewn y System Cyfiawnder Troseddol, y cymorth a gânt drwy ddargyfeirio a'r heriau eraill a wynebier ganddynt yn eu bywydau pob dydd, ynghyd â'r hyn oedd ei angen arnynt yn eu twf personol parhaus. Rhaid nodi, er y nifer cymharol isel o gyfranogwyr, bod realiti bywyd y plant a'r oedolion ifanc a gymerodd ran yn yr ymchwil hon yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd yn gryf iawn â chanfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth ac o fewn y naratifau eraill gan y rhanddeiliaid allweddol a drafodir yn yr adroddiad hwn, yn enwedig Media Academy Cymru a System Cyfiawnder Ieuencid De Cymru. Oherwydd hyn, mae'n gytbwys nodi y gellir ystyried bod y naratifau a nodwyd yn yr adroddiad hwn o realiti bywyd yn ddibynadwy ac yn adlewyrchu profiadau ehangach plant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn Ne Cymru a ledled Cymru mae'n debygol. Roedd y plant a'r oedolion ifanc a rannodd eu realiti o gefndiroedd ethnig a threftadaeth Fijiaidd, Swdanaidd, Sri Lancaidd a Du. Roedd y plentyn yn ferch 17 oed ac roedd y dynion yn 21, 22 a 25 oed. Nid yw oedran, rhyw ac ethnigrwydd wedi'u cysylltu er mwyn sicrhau cyfrinachedd. Nid Saesneg oedd iaith gyntaf un o'r oedolion ifanc ac roedd angen gwasanaethau cymorth cyfieithu arno.

Heriau bywyd plant ac oedolion ifanc

Roedd realiti bywyd pob dydd a phrofiadau hanesyddol y plant a'r oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a gymerodd ran mewn cyfweiliad anffurfiol yn rhannu rhai nodweddion cyffredin clir ac roedd rhai gwahaniaethau penodol.

Esboniodd yr holl unigolion a gymerodd ran eu bod wedi profi gwahaniaethu a hiliaeth drwy gydol eu bywydau a bod hyn wedi cael effeithiau negyddol iawn arnynt fel plant iau a'u bod yn dal i brofi hynny nawr fel oedolion ifanc. Rhannodd y ferch ifanc, 'roeddwn i'n flin iawn pan oeddwn i'n iau ac os nad ydych chi wedi profi hiliaeth drwy'r amser fyddwch chi ddim yn deall. Mae'n eich blino ac mae'n anodd iawn. Ers pan oeddwn yn blentyn. Yn yr ysgol, ar y stryd, yn y parc, ar y bws, hyd yn oed y ffycin heddlu, dyw byth yn stopio ac felly mae bob amser yno.' Dywedodd un o'r dynion ifanc, 'Wnes i ddim ei brofi rhyw lawer fel plentyn. Roeddwn i'n byw yn agos at Lundain pan oeddwn i'n ifanc ac felly mae'n fwy amrywiol, ond pan wnaethom ni symud i Gymru sylwais arno fwy yn yr ysgol ac rwy'n cael y gair P eithaf tipyn nawr. Rwy'n chwerthin, ond mae'n brifo a does dim pwynt dadlau na gweiddi yn ôl oherwydd wedyn gallai olygu trais a dydw i ddim eisiau annog hynny.' Rhannodd oedolyn ifanc arall ei fod wedi newid sut mae'n delio â'r peth, 'Pan oeddwn yn fy arddegau, pe byddai rhywun yn defnyddio'r gair N tuag ata i byddwn i'n ymladd â nhw gan adael popeth allan a fyddai neb yn mentro fy nghroesi oherwydd roeddwn i mor flin. Ond doedd bod yn flin ddim yn helpu o gwbl ac mae'r ffyliaid yn dal i ddweud hynny, ond rwyf wedi dysgu i beidio â chynhyrfu ac i'w anwybyddu a chanolbwyntio arna i nid nhw.' Dywedodd tri o'r pedwar a gymerodd ran eu bod wedi profi hiliaeth yn yr ysgol gynradd, yn yr ysgol uwchradd ac i rai yn y Coleg a'r Brifysgol ynghyd ag ardaloedd cyhoeddus a mannau fel y parc, ar y bws, yn eu cymunedau preswyl eu hunain ac allan gyda'r nos wrth gymdeithasu â ffrindiau a theulu.

Nododd dau a gymerodd ran, 'doeddwn i ddim yn teimlo fy mod i'n perthyn ac roeddwn i mor flin' a dywedodd un arall eiriau tebyg ac oherwydd y 'gwallgofrwydd a'r anhrefn adref roeddwn i allan ar y stryd drwy'r amser gyda fy ffrindiau yn smygu ac yn ymladd ac ati.' Canlyniad peidio â theimlo eu bod yn perthyn nac yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned oedd eu bod wedi ceisio dianc drwy gydol eu plentyndod, ac fel y nododd un o'r rhai a gymerodd ran, 'oeddwn, roeddwn i am anwybyddu popeth ac felly dechreuais gymryd cyffuriau a mwynhau hynny am fy mod i'n meddwl ei fod yn cwl ond

roedd yn chwalu fy mhen ac aeth pethau'n ddrwg. Bu'n rhaid i mi fynd i'r ysbyty ambell waith am fy mod i am roi diwedd ar bopeth, roedd yn dywyll iawn.' Dywedodd un o'r cyfranogwyr, 'wel, doedd fy nhad ddim o gwmpas gan ei fod yn y carchar oherwydd cyffuriau felly dim ond fi a fy mam oedd yno, ac rwy'n caru fy mam, roedden ni'n agos, ond allai hi ddim rheoli dyn ifanc blin felly dechreuais i gymryd cyffuriau hefyd a dyna pam rwy'n siarad gyda chi heddiw.'

Roedd tri o'r cyfranogwyr o'r farn bod ganddynt iechyd meddwl gwael oherwydd 'stwyff wrth dyfu i fyny dydw i ddim am eu rhannu yma ac yna pobl yn pigo arna i yn yr ysgol, gan yr heddlu, a hiliaeth ym mhobman. A doeddwn i wir ddim yn dda. Dwi'n well o lawer nawr ond rwy'n dal i gael fy niwrnodau tywyll.' Dywedodd oedolyn ifanc arall 'rwy'n colli fy nheulu a dydw i ddim wedi gweld fy mam ers blynnyddoedd a dydw i ddim yn gwybod a yw hi dal yn fyw, ac rwy'n teimlo'n unig iawn ond mae (ymarferydd cymorth dargyfeirio a enwyd) yn fy helpu sy'n dda felly rwy'n dechrau teimlo ychydig yn well.'

Profiadau plant a phobl ifanc o'r Heddlu

Roedd realiti cyffredinol pedwar a gymerodd ran yn gymysg, gyda dau wedi cael profiadau cadarnhaol ar y cyfan a dau wedi cael profiadau negyddol iawn.

Dywedodd y plentyn / person ifanc 'roedd yr heddlu'n siarad â mi fel fy mod i'n faw isa'r domen, ac yn dweud fy mod i mewn gang, ac mae hynny'n dal i ddigwydd. Rwyf o hil gymysg, ac mae hyn yn digwydd ers pan oeddwn i'n 10 oed ac rwy'n 17 nawr. Mae'n warthus, maen nhw'n ceisio eich cael chi i frathu er mwyn eich arestio chi. Pan ofynnwyd iddi pam yr oedd yr heddlu yn gwneud hyn, ymatebodd drwy ddweud 'Rwy'n cael fy ngweld fel merch ddu flin a drwg sydd mewn gang ac yn creu drygau a dyw hynny ddim yn wir. Mae'n warthus. Rwyf wedi gwneud sawl cwyn yn eu herbyn gyda help y tîm troseddau ieuencid ac maen nhw'n gwybod ei fod yn wir, gofyn (roedd yn cael ei chefnogi yn y cyfweiliad gan weithiwr ieuencid a gytunodd bod y person ifanc wedi profi hiliaeth gan yr heddlu sawl gwaith).'

Dywedodd oedolyn ifanc arall bod 'yr heddlu ar y stryd yn ffyliaid. Mae ganddyn nhw ormod o bŵer, dim parch a gormod o hiliaeth ac maen nhw'n ceisio codi eich gwrychyn. Roedd hyn pan oeddwn i'n blentyn. Mae'n rhyfedd.' Wrth drafod a oedd yr holl heddlu ar y stryd fel hyn, dywedodd dau o'r rhai a gymerodd ran 'Mae rhai yn iawn, maen nhw'n gwrando, yn dangos parch, ddim yn ymosodol, maen nhw'n cael jôc.' Pan ofynnwyd am brofiad mewn dalfeydd dywedodd

yr holl blant a phobl ifanc bethau tebyg i 'roedd yr heddlu yn y ddalfa yn iawn chwarae teg, yn deg, yn uniongyrchol, yn briodol, yn gofyn oeddwn i am gael dŵr, bwyd, cyngor cyfreithiol ac yn fy nhrin â pharch.'

Pan ofynnwyd sut y gallem ddatrys y broblem bod yr heddlu yn bod yn hiliol tuag at blant ac oedolion ifanc dywedodd yr holl rai a gymerodd ran bethau tebyg i 'detholiad gwell, mwy o amrywiaeth o ran lliw, ac addysg fel eu bod yn deall beth maen nhw'n ei wneud, a chael gwared ar y ffyliaid hiliol hefyd.'

Profiadau plant ac oedolion ifanc o Gyngor Cyfreithiol

Roedd eu profiadau cael cyngor cyfreithiol mewn dalfeydd yn gadarnhaol ar y cyfan ac roedd y plant a'r oedolion ifanc a siaradodd yn eu cyfweiliadau anffurfiol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Dywedodd un plentyn, 'ie, roedden nhw'n dda, gwnaethon nhw fy nghynghori i gael dargyfeiriad' a dywedodd un oedolyn ifanc, 'maen nhw'n dda iawn a gwnaethon nhw ddechrau drwy ddweud, os oeddwn i'n ddieuog yna dylem ni ymladd hyn, ond doeddwn i ddim felly cymerais y cynnig.' Dywedodd tri o'r pedwar a gymerodd ran bethau fel, 'roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy nghefnogi a'u bod nhw'n gwrando arna i.'

Cafodd un o'r rhai a gymerodd ran brofiad cymysg mewn dalfa a oedd yn cynnwys ei gyngor cyfreithiol gan nad Cymraeg na Saesneg oedd ei iaith gyntaf a dywedodd, 'mmm doedd y profiad ddim yn grêt, doeddwn i ddim yn deall beth oedd yn digwydd gan nad oedd neb yn siarad fy iaith ar y dechrau felly doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn cael ei ddweud wrthyf ac roeddwn i mewn lle dieithr felly roeddwn i'n ofnus.' Wrth drafod hyn ymhellach, ychwanegodd, 'roedd yn iawn yn y pen draw am eu bod yn ddymunol a chefais ddehonglydd ac yna roeddwn i'n deall beth oedd yn digwydd. Ond mae'n dal i fod yn anodd i mi gyda'r anawsterau iaith.'





Profiadau o ddargyfeirio ac anghenion plant ac oedolion ifanc yn y dyfodol

Ystyriwyd bod y cymorth a roddwyd gan ddarparwyr dargyfeirio yn gadarnhaol a dywedodd un o'r rhai a gymerodd ran, 'ie, mae'r cymorth yn wych ac rwy'n deall llawer mwy ac rwy'n teimlo'n well amdanaf fy hun. Rwy'n teimlo'n ddiogel ac mae'r ffordd ymlaen yn gadarnhaol. Rwy'n mynd i lwyddo.' Dywedodd y ferch ifanc, 'Maen nhw'n gwranddo, yn treulio amser, heb farnu, dim ond helpu a gofyn beth oedd ei angen arna i. Maen nhw'n derbyn fy agwedd. Mae'n cymryd amser. Rwy'n ymddiried ynddi hi nawr.

Dywedodd oedolyn ifanc arall ei fod hefyd yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi ond roedd am gael cymorth mewn agweddau eraill ar ei fywyd a dywedodd, 'mae'n dda ac maen nhw'n bobl ddymunol, ond mae angen pethau eraill arna i, ac mae cyfarfodydd 6 munud o hyd yn rhy fyr. Mae cwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau yn dda ond wnes i ddim dysgu unrhyw beth newydd. Mae'r rhan cyflogaeth yn cynnwys swyddi gwirion nad oes gen i ddiddordeb ynddyn nhw.' Pan ofynnwyd beth oedd ei angen dywedodd yr oedolyn ifanc, 'rwyf wedi mwynhau siarad heddiw ac felly gallwn ni wneud hyn eto. Mae siarad yn help mawr i mi.' Esboniwyd eto mai cyfweliad anffurfiol oedd hyn fel rhan o waith ymchwil i gefnogi'r broses o ddatblygu ymarfer dargyfeirio ac roedd yr oedolyn ifanc yn deall hyn ac ychwanegodd, 'iawn, wel, yn y dyfodol hoffwn i gael cymorth gan bobl sy'n edrych fel fi. Rwyf ti (Jacob) yn deall hyn gan dy fod di wedi bod yno ac yn deall popeth.'

Pan oedd y trafodaethau yn canolbwyntio ar y dyfodol, roedd tri o'r rhai a gymerodd ran am gael mwy o gyfle i 'siarad a chael cymorth gan bobl sy'n edrych fel fi. Byddwn i'n ymddiried ynddyn nhw yn gynharach o lawer. Pan oedd fy ngweithiwr cymdeithasol yn ddu, roedden nhw'n deall y sefyllfa ac yn fy neall i yn syth ac roeddwn i'n ymddiried ynddyn nhw yn syth hefyd.' Dywedodd oedolyn ifanc arall, 'mae

angen amrywiaeth ar draws popeth gan fod pawb yn wyn a dim ond 2 unigolyn nad oedden nhw'n wyn ydw i wedi wedi'u gweld yn gweithio yn yr Heddlu. Dyna ni, mae angen gwella.'

Un maes cymorth allweddol y tynnwyd sylw ato gan bob un a gymerodd ran oedd yr angen am gymorth iechyd meddwl cyflymach a gwell a dywedwyd, 'roedd fy mhen wedi chwalu, a bu'n rhaid i mi aros yn hir i gael cymorth. Mae'n warthus, yn teimlo fel y byddai'n well gen i farw ac rwy'n aros i gael yr help sydd ei angen arna i.' Dywedodd un arall, 'Rwy'n mynd yn isel gan nad ydw i'n gwybod ble mae fy nheulu, ac weithiau rwy'n teimlo na alla i ymdopi a bod angen i mi gael cymorth gyda fy ffordd o feddwl.'

Roedd y themâu cyffredinol yn y cyfweliadau anffurfiol hyn yn adlewyrchu'r rhai a rannwyd gan y garfan o ddarparwyr prosesau dargyfeirio ac roedd yn dangos bod plant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn wynebu hiliaeth sylweddol yn eu bywydau sy'n cyfrannu'n sylweddol at lesiant cyffredinol gwael a'r ffaith eu bod yn teimlo'n flin am eu profiadau bywyd, sy'n ymateb cwbl briodol i straen a thrawma hiliol o'r fath a dylai'r holl System Cyfiawnder Troseddol ddeall a chydabod hyn.

Oherwydd y straen a'r trawma hiliol o gymdeithas pob dydd a'r System Cyfiawnder Troseddol roedd y plant a'r oedolion ifanc yn teimlo bod angen gwasanaethau dargyfeirio arbenigol arnynt wedi'u darparu gan bobl amrywiol o ran ethnigrwydd sy'n cynnig cymorth sy'n canolbwyntio ar unigolion gyda'r nod o feithrin cydberthnasau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch gan ddefnyddio ymarfer gwrth-hiliol adferol sy'n ystyriol o drawma a, lle y bo'n briodol, dylai cymorth priodol roi'r plentyn yn gyntaf a/neu fod yn ystyriol o rywedd. Mae'n ymddangos mai'r angen mwyaf yw'r gwasanaethau cymorth iechyd meddwl a bod angen iddynt gael eu darparu'n gyflymach ac yn fwy ymatebol i anghenion plant ac oedolion ifanc. Rhannodd y plant a'r oedolion ifanc hefyd bod angen sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu cyflym ac effeithiol ar gael yn gyson i bawb sydd ei angen mewn dalfeydd neu mai'r risg fydd mwy o drawma.

Roedd yr holl blant a phobl ifanc o'r farn bod angen i'r Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach gael addysg a hyfforddiant ar ymarfer gwrth-hiliol sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac sy'n ystyriol o rywedd a hil a bod angen gwella amrywiaeth o ran ethnigrwydd y System Cyfiawnder Troseddol er mwyn cefnogi anghenion plant ac oedolion ifanc amrywiol o ran ethnigrwydd yn well.



Realiti Bywyd Menywod o Gefndiroedd Amrywiol o ran Ethnigrwydd

Yn ystod yr ymchwil hon, dim ond dwy fenyw a gymerodd ran mewn cyfweiliad anffurfiol er gwaethaf ymdrechion parhaus i ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth sy'n cefnogi menywod o'r fath. Cafodd amserlen y prosiect ymchwil ei hymestyn i hwyluso hyn, ond methodd recriwtio mwy o fenywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd. Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod mai dyna un o gyfyngiadau'r ymchwil hon.

Rhannodd y menywod a rannodd eu realiti bywyd naratifau pwerus sy'n haeddu cael eu cofnodi a'u rhannu yn yr adroddiad hwn a, lle y bo'n bosibl, gwersi i'w dysgu o'u naratifau i wella cymorth dargyfeirio ar gyfer menywod eraill sy'n mynd drwy realiti tebyg. Fel gyda'r garfan fach o blant ac oedolion ifanc, mae realiti bywyd y menywod a gymerodd ran yn yr ymchwil hon yn cyd-fynd yn gryf â chanfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth ac o fewn y naratifau eraill gan y rhanddeiliaid allweddol a drafodir yn yr adroddiad hwn, yn enwedig y rhai o'r gwasanaethau sy'n benodol i fenywod (Ymddiriedolaeth Nelson a Chymru Ddiogelach). Roedd y menywod a rannodd eu realiti o gefndir a threftadaeth Somalaidd a Phwylaidd. Roedd y cyfweiliadau anffurfiol ar gyfer y ddwy fenyw yn fyr a dim ond 40 munud yr un y gwnaethant bara ac er gwaethaf y ffaith iddynt gael eu cefnogi gan eu gweithiwr dargyfeirio, ni wnaethant siarad rhyw lawer ond roeddent yn glir iawn gyda'u teimladau a'u profiadau. Oherwydd hyn, mae'r rhan hon o'r adroddiad hwn yn gymharol fyr.



Heriau bywyd menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd

Roedd eu profiadau o blentyndod yn wahanol i'r grŵp plant ac oedolion ifanc gan nad oedd y menywod a siaradodd am eu bywydau wedi'u geni yn y DU ac nid oeddent wedi wynebu llawer o hiliaeth yn y wlad lle cawsant eu geni. Fodd bynnag, fel oedolion roedd y ddwy yn teimlo'n gymharol flin â'r ffordd y cawsant eu trin gan y System Cyfiawnder Troseddol a gwasanaethau eraill fel tai, gwasanaethau cymdeithasol a chymorth lles. Dywedodd un o'r menywod, 'doeddwn i byth yn flin pan oeddwn i'n iau a nawr, rwy'n byw yma ac mae popeth yn wahanol. Rwy'n teimlo'n drist gan fy mod i'n cael fy nhrin fel y peth yma, ac rwyf hyd yn oed wedi cael gwybod mai fi yw'r stereoteip o fenyw ddu flin. Wel, rhowch gynnig ar wynebu hiliaeth, dyw ddim yn ddymunol o gwbl. Mae'n brifo.' Nid oedd y fenyw arall yn teimlo ei bod yn wynebu hiliaeth nes iddi siarad oherwydd, 'wel, rwy'n wyn felly nes i mi siarad, dydw i ddim yn cael yr hiliaeth ond pan fydd pobl yn gofyn, un o ble wyt ti, pam wyt ti drosodd yma, mae'n ddiddiwedd ond mae'n siŵr nad yw mor ddrwg â rhai.'

Rhannodd y ddwy fenyw eu bod wedi cael iechyd meddwl gwael ers peth amser nawr oherwydd yr heriau roeddent yn eu hwynebu yn eu bywydau. Dywedodd un fenyw, 'wel, rwy'n teimlo'n drist drwy'r adeg. Doeddwn i ddim yn ymwybodol, ond roeddwn i'n gaeth i alcohol, ac yn y pen draw, collai fy mhientyn ac yna roedd hyd yn oed yn anoddach rhoi'r gorau iddi ac rwyf mor drist, isel a phryderus, roeddwn yn defnyddio alcohol i anghofio popeth. Ond rwyf wedi stopio nawr ond mae mor anodd o hyd gan fy mod am gael fy merch yn ôl.' Esboniodd y fenyw arall ei bod wedi bod yn ddigartref a dywedodd, 'cynigiwyd pabell i mi, a gofynnais beth yw gwerth hynny a doedd ganddyn nhw ddim ateb. Roedd yr holl sefyllfa wedi fy ngwneud yn isel iawn ac yna dechreuais ddefnyddio cyffuriau i helpu â'r boen ac yna aeth popeth yn waeth.'

Roedd y ddwy fenyw hefyd wedi bod mewn perthnasoedd lle roeddent wedi wynebu trais a cham-drin domestig a gwnaethant rannu sur roedd hyn hefyd wedi cyfrannu at, 'wel, mae'n gwneud i chi deimlo'n wael ac yn ddiwerth ac ar un adeg roeddwn i'n meddwl fy mod i'n ei haeddu. Ond llwyddais i adael ond roedd yn rhy hwyr gan fy mod mor sâl ac roedd angen help arna i gan fy mod yn yfed llawer erbyn hynny.' Roedd y fenyw arall wedi wynebu profiadau tebyg a dywedodd 'yn y diwedd, bu'n rhaid i mi adael heb unrhyw beth ac roedd yn anodd iawn gan nad oedd gen i unrhyw le i fynd a dyna pam y bues i'n ddigartref.'

Profiadau menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd o'r Heddlu

Roedd y menywod a rannodd eu straeon wedi cael profiadau cymysg gyda'r heddlu ac roedd y deialog ar y thema hon braid yn gyfyngedig. Rhai o'r prif bwyntiau a wnaed gan y menywod oedd 'roedd rhai o swyddogion heddlu'r dalfeydd yn iawn ond rwyf wedi cael fy nghamarwain ac rydych chi'n teimlo bod popeth yn ormod. Y tro cyntaf yw'r gwaethaf. Mae'n anodd. Mae'n frawychus iawn.' Roedd y menywod hefyd yn teimlo 'pan gefais fy arestio, cefais fy ystyried a fy nhrin fel troseddwr ond roedd cymaint mwy yn mynd ymlaen ac roedd angen help a chefnogaeth arna i. Doeddwn i ddim yn cael fy ngweld fel y fenyw fregus oeddwn i.' Dywedodd y fenyw o dreftadaeth Somaliaidd ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei hystyried, 'yn Ddu i ddechrau, yn droseddwr yn ail, yna yn fenyw ac yna unigolyn yw'r peth olaf y byddant yn ei weld.'

Profiadau menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd o Gyngor Cyfreithiol

Roedd un fenyw wedi cael profiad cadarnhaol iawn o gyngor cyfreithiol a dywedodd ei fod yn 'dda, cefais fy nghynghori i gymryd dargyfeiriad ac roeddwn i'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi, a'u bod yn gwranddo, a dyma fi nawr.' Doedd y fenyw arall ddim wedi cael profiad mor gadarnhaol a dywedodd, 'mmm, ddim yn grêt, doeddwn i ddim wir yn deall felly roeddwn i'n poeni a dan straeon a dyn ydoedd. Byddai'n well gen i fod wedi cael menyw sy'n edrych fel fi.'

Profiadau menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd o Ddargyfeirio

Roedd y ddwy fenyw yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth gan eu gweithiwr cymorth Dargyfeirio a dywedodd y ddwy, 'mae'r cymorth yn dda ac maen nhw'n bobl ddymunol' a dywedodd y llall, 'ie, mae'r cymorth yn wych ac maen nhw'n fy neall i heb farnu. Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngweld a'm clywed.' Ychwanegodd un o'r menywod, 'Rwy'n teimlo ei bod yn gwranddo arnaf ac yn fy nghefnogi ac rwy'n gwybod y bydd yno pan fydd angen. Rwy'n gwybod ei bod wir yn poeni. Rwy'n teimlo'n ddiogel gyda hi.'

Roedd siarad yn onest gydag ymarferwyr cymorth dargyfeirio yn ymddangos fel proses gref a dywedodd un o'r menywod, 'Pan fyddaf yn teimlo'n flin neu'n drist, byddwn yn trafod y sefyllfa a byddaf yn ymlacio ac yn canfod fy niben ato ac yn cofio y byddaf yn dod drwyddi. Rwy'n gwybod y byddaf yn dod drwyddi. Byddaf yn cael fy mhlentyn yn ôl a dyna sy'n bwysig.'

O ran cymorth arall y dywedodd y menywod iddynt gael pan ofynnwyd iddynt, dywedodd y ddwy fenyw bod eu gweithiwr cymorth 'yn helpu gyda phopeth fel tai, stwff alcohol, fy iechyd meddwl, cymorth rianta ac yna mae yno i mi fel bod gen i rywun y gallaf siarad ag ef a'm helpu i symud ymlaen. Mae'n mynd i apwyntiadau gyda mi hefyd gan fod y gwaith papur yn codi ofn arna i.'



Anghenion menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn y dyfodol

Dywedodd y ddwy fenyw eu bod yn hapus iawn gyda'u cymorth presennol a bod angen 'mwy o'r hyn sydd gennyf nawr, a dweud y gwir.' Dywedodd y fenyw o dreftadaeth Somalaidd y byddai'n 'hoffi siarad a chael cefnogaeth gan bobl sy'n edrych fel fi weithiau gan eu bod yn deall ond er hyn, rwy'n hapus iawn â'r cymorth a gaf.'

Pan ofynnwyd eto pa fath o gymorth oedd ei angen arnynt er mwyn symud ymlaen yn eu bywydau, rhoddodd y ddwy fenyw ateb ar ffurf rhestr a oedd yn cynnwys, 'wel, fel y soniais, mwy o'r hyn sydd eisoes yn digwydd, tai, rhianta, alcohol, cymorth cyffuriau, iechyd meddwl, rheoli arian a chyllidebu ar gyfer bwyd.' Gofynnwyd beth oedd eu her fwyaf a'u hangen mwyaf am gymorth a dywedodd y ddwy, 'fy iechyd meddwl. Os bydd yn wael, bydda i ddim yn mynd i unrhyw le a byddwn i'n hoffi cael ffrindiau gan fy mod yn teimlo'n unig yn aml.'

Yn olaf, ar ddiwedd y cyfweiliad, dywedodd y fenyw Bwylaidd, 'alla i ddweud rhywbeth arall' ac wrth gwrs cafodd hynny ei gefnogi a dywedodd, 'hoffwn i hefyd beidio â theimlo fy mod yn fam wael, oherwydd rwy'n caru fy merch ond cymerodd yr alcohol drosodd am fy mod mewn perthynas wael a help sydd ei angen arna i, nid beirniadaeth. Rwy'n cael hynny gyda hi (pwyntiodd at ei gweithiwr cymorth) ond allan yno rwy'n cael fy ngweld fel mam wael, ac rwy'n casáu hynny.'

Fel gyda phlant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd, mae menywod o gefndiroedd o'r fath yn wynebu hiliaeth sylweddol yn rheolaidd yn eu bywydau sy'n cyfrannu'n sylweddol at lesiant cyffredinol gwael ac mae teimlo'n flin am eu realiti bywyd yn ymateb cwbl briodol i straen a thrawma hiliol o'r fath a dylai'r holl System Cyfiawnder Troseddol ddeall a chydabod hyn. Er mwyn cael cymorth ar gyfer trawma o'r fath, mae angen i fenywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd gael cymorth dargyfeirio sy'n canolbwyntio ar unigolion ac ar feithrin cydberthnasau yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch gan ddefnyddio ymarfer gwrth-hiliol adferol sy'n ystyriol o drawma a rhywedd. Mae angen cryf am wasanaethau cymorth iechyd meddwl gwell sy'n gyflymach ac yn fwy ymatebol i anghenion menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd. Roedd rhai o'r menywod a gymerodd ran yn y prosiect hwn hefyd o'r farn y byddai eu hanghenion yn cael eu diwallu'n well ac y byddai ymddiriedaeth yn adeiladu'n

gyflymach pe byddai gwasanaethau dargyfeirio arbenigol yn cael eu darparu gan bobl amrywiol o ran ethnigrwydd. Er mwyn gwella profiadau dargyfeirio a phrofiadau o'r System Cyfiawnder Troseddol yn nalfeydd yr heddlu, roedd y menywod a rannodd eu naratifau o'r farn bod angen i'r heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach a gwasanaethau cymorth cysylltiedig, fel y gwasanaethau cymdeithasol, gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ymarfer gwrth-hiliol sy'n ystyriol o rywedd a thrawma hiliol. Roedd y menywod hefyd o'r farn bod angen mwy o amrywiaeth o ran ethnigrwydd ym mhob rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol ac ar bob lefel o sefydliadau er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi ac amrywiaeth y bobl a wasanaethir gan y System Cyfiawnder Troseddol.





Creu Model Gwrth-hiliol ar gyfer Dargyfeirio Cyn Achos Llys gan ganolbwyntio ar Blant a Menywod

Drwy ddadansoddi a chydod y gwersi i'w dysgu o bob cam o'r ymchwil cyflwynir y gwersi i'w dysgu a'r argymhellion canlynol ar gyfer ymarfer dargyfeirio yn y dyfodol isod ar gyfer plant ac oedolion ifanc ac yna ar gyfer menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.



Anghenion Plant ac Oedolion Ifanc Amrywiol o ran Ethnigrwydd mewn Prosesau Dargyfeirio

Gwersi i'w Dysgu ac Argymhellion ar gyfer Ymarfer Dargyfeirio Gwrth-hiliol yn y Dyfodol:

1. Model a ddiffiniwyd ac y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gyfer Prosesau Dargyfeirio Cyn Achos Llys ar gyfer Plant (hyd at 17 oed) ac Oedolion Ifanc (18-25 oed) o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd (er bod llawer o'r argymhellion hefyd yn gymwys i ethnigrwydd Gwyn y DU) sydd:

- i. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid defnyddio prosesau dargyfeirio ar Adeg Arestio i leihau effaith a thrawma prosesau arestio a dalfeydd a chyfeirio plant ac oedolion ifanc at wasanaethau cyfiawnder ieuencid, cymorth gwaith ieuencid a darparwyr dargyfeirio gyda'r gwasanaethau hynny'n cael gwybod y dylent gysylltu a chynnig eu cymorth.

- ii. Dylid defnyddio amodau cymhwysra cynhwysol ar gyfer dargyfeirio cyn achos llys / Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys heb fod angen pledio'n euog, cwrpas ar gyfer sawl ymgais i ddargyfeirio a ffocws cychwynnol ar amodau cyffyrddiad ysgafn. Pan fydd angen hynny ar gyfer anghenion mwy cymhleth, dylai ymyriadau dargyfeirio gefnogi anghenion holistaidd a realiti'r bobl a gefnogir ganddynt a chynnig cymorth tymor hwy sydd fel arfer yn gofyn am o leiaf 12-16 wythnos o gymorth er mwyn i newid ymddygiad gwirioneddol a thwf personol ddigwydd.

- iii. Dylid cytuno ar ddarpariaeth dargyfeirio a chynllun ymyrraeth gan ddefnyddio dulliau llunio ar y cyd a dylent ganolbwyntio ar yr unigolyn ac ar feithrin cydberthnasau yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch gan ddefnyddio ymarfer gwrth-hiliol adferol sy'n ystyriol o drawma a, lle y bo'n briodol, dylent roi'r plentyn yn gyntaf a/neu fod yn ystyriol o rywedd. Nod y dull holistaidd hwn yw cefnogi datblygiad seicolegol, niwrolegol, biolegol a chymdeithasol a chyfnodau pontio drwy blentyndod, llencyndod ac i fod yn oedolion lle y bo'n briodol.

- iv. Mae dod i adnabod plant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a'u dewis iaith a therminoleg yn bwysig a dylai fod yn ffocws i'r holl

wasanaethau cymorth i blant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

- v. Cynnig profiad cynhwysol o ddull gweithredu cyfiawnder adferol fel bod dioddefwyr yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod ganddynt ddewis a rheolaeth o fewn eu profiad o raglenni dargyfeirio.
- vi. Mae angen diffinio cyfiawnder adferol mewn anghenion darpariaeth dargyfeirio cyn achos llys yn glir a chytuno arno ar lefel genedlaethol er mwyn osgoi ymarfer arwynebol a cham-labelu ymarfer dargyfeirio presennol fel ymarfer adferol am fod hyn yn gwanhau ei ystyr, y ddealltwriaeth o'r effaith bosibl a chanlyniadau dull gweithredu gwirioneddol adferol.
- vii. Mae dargyfeirio cyn achos llys yn defnyddio model o waith rhyngasiantaethol cryf gyda gweledigaeth a rennir, gwybodaeth gywir a rhannu data a phroses gwneud penderfyniadau ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Mae angen canolbwyntio ar ddefnyddio canlyniad 22 / rhybuddiad ieuencid pan fo modd i gefnogi plant yn effeithiol ac i leihau trauma cymryd rhan mewn achos llys. Dylai darparwyr dargyfeiriadau fod yn ganolog i'r broses hon a'r profiad hwn i blant ac oedolion ifanc, er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi mewn profiadau dalfeydd.
- viii. Sicrhau bod asesiadau a chyfeiriadau dargyfeirio yn amserol (48 awr) i gefnogi prosesau i ddargyfeirio ac ymgysylltu â phlant ac oedolion ifanc.
- ix. Caiff Prosesau Dargyfeirio leuenctid eu nodi fel canlyniad cadarnhaol gan yr heddlu a'u cynlluniau rheol perfformiad.
- x. Caiff rhaglenni dargyfeirio eu rheoli a'u cefnogi gan ymarferwyr dargyfeirio plant ac oedolion ifanc penodedig nad ydynt yn rhan o ddarpariaeth statudol i gefnogi ymddiriedaeth ac ymgysylltu.
- xi. Mae cymorth cyfieithu cyflym ac effeithiol ar gael yn gyson ar gyfer plant ac oedolion ifanc sydd ei angen mewn dalfeydd.
- xii. Mae cymorth dargyfeirio yn defnyddio mentoriaid arbenigol sydd o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a lle y bo'n bosibl, sydd â phrofiadau bywyd o'r System Cyfiawnder Troseddol er mwyn cefnogi plant ac oedolion ifanc o gefndiroedd tebyg i gymryd rhan yn effeithiol.
- xiii. Dylai'r broses o asesu anghenion ar gyfer dargyfeiriad ystyried hunaniaeth ddiwylliannol, treftadaeth a chrefyddol plant ac oedolion ifanc.
- xiv. Dylai cymorth dargyfeirio ganolbwyntio ar roi ymyriadau ar waith gyda phlant ac oedolion ifanc sy'n datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, cyflogaeth, ffrindiau, teulu a rhianta am eu bod yn gysylltiedig â chanlyniadau aildroseddol isel.
- xv. Dylai dargyfeirio gynnig gwasanaethau cymorth iechyd meddwl cyflym (o fewn 2 wythnos) gan fod hyn yn angen cyffredin ac arwyddocaol iawn. Os nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigon i ddiwallu angen lleol, yna dylid datblygu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl dargyfeirio newydd.
- xvi. Mae angen i wasanaethau anstatudol arbenigol ar gyfer plant ac oedolion ifanc amrywiol o ran ethnigrwydd sy'n cymryd rhan mewn Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach fod yn ganolog wrth gefnogi plant ac oedolion ifanc sy'n cymryd rhan mewn dargyfeiriadau. Dylai darparwyr arbenigol o'r fath gynnig cymorth a phrosesau mentora i ddarparwyr dargyfeirio eraill i gefnogi'r broses o ddatblygu eu hymarfer gwrth-hiliol. Pan na fydd gwasanaethau arbenigol o'r fath ar gael, mae angen datblygu'r gwasanaethau hyn er mwyn diwallu anghenion unigolion amrywiol o ran ethnigrwydd yn lleol. Mae angen nodi gwasanaethau arbenigol amrywiol er mwyn hwyluso'r broses o fapio a rhannu arferion gorau a sicrhau llwybrau atgyfeirio effeithiol ar gyfer dargyfeirio.
- xvii. Dylai pob gwasanaeth dargyfeirio newydd gael ei lunio ar y cyd â phlant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.



2. Addysg a Hyfforddiant Hirdymor o Ansawdd Uchel a gaiff eu Llundain ar y Cymru

- xviii.** Mae angen i'r System Cyfiawnder Troseddol a gwasanaethau statudol eraill, fel gwasanaethau cymdeithasol, sy'n rhan o'r broses o asesu plant a phobl ifanc neu o gefnogi gwaith dargyfeirio gael addysg a hyfforddiant parhaus a hirdymor ar ymarfer gwrth-hiliol sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac sy'n ystyriol o rywedd, yn enwedig swyddogion llinell flaen yr heddlu a swyddogion dalfeydd. Dylai addysg a hyfforddiant ganolbwyntio ar y canlynol:
- a.** Meithrin sgiliau cyfathrebu cyfeillgar heb farnu sy'n gymwys yn ddiwylliannol ac sy'n defnyddio iaith a terminoleg briodol.
 - b.** Deall mai plentyn yn gyntaf neu oedolyn ifanc yn gyntaf yw plentyn neu oedolyn ifanc a all fod wedi troseddu ac felly dylid canolbwyntio ar ddangos empathi, deall straen a thrawma hiliol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a meithrin cydberthynas er mwyn hwyluso proses ddargyfeirio, asesu a chymorth effeithiol.
 - c.** Deall ei realiti a'i brofiadau personol ei hun a sut mae gwahaniaethu ar sail hil, oedran, rhyw a chrefydd yn dod i'r amlwg mewn cymdeithas a diwylliant yng Nghymru / y DU yn ehangach.
 - d.** Mae angen canolbwyntio ar ddeall ei ragfarn fwriadol ac anfwriadol ei hun a herio hyn er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol ymarfer gwrth-hiliol, sy'n ystyriol o oedran, rhywedd a chrefydd fel nad yw'r nodweddion hyn yn lens sy'n arwain at anghymesuredd ac asesiad annheg a mesurau cosbol fel 'uwch-dariffio' ac 'oedolyneiddio'.
 - e.** Creu diwylliant o ymarfer myfyriol i gefnogi trafodaeth fyfyrion hyderus ag asiantaethau, cydweithwyr, timau a goruchwylwyr ar gymhwysedd diwylliannol a materion gwrth-hiliaeth a chefnogi plant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd er mwyn sicrhau ymarfer myfyriol diwylliannol a gostyngieddrwydd diwylliannol.
- xix.** Mae angen i heddlu cyfiawnder ieuencid gael addysg a hyfforddiant fel y gall adnabod cyfleoedd atgyfeirio ar gyfer dargyfeirio yn well a chefnogi dulliau priodol o asesu risg a rhoi'r gorau i uwch-risgio plant o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

xx. Mae angen i gyfreithwyr gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ganlyniadau ac effeithiau cadarnhaol dargyfeirio cyn achos llys a Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys fel y gallant gynghori eu cleientiaid yn briodol.

xxi. Dylai Addysg a Hyfforddiant mewn perthynas ag ymarfer gwrth-hiliaeth a gwrth-hiliol, gyda chymorth priodol, gael ei ddatblygu a'i hwyluso gan bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sydd â realiti bywyd o gymryd rhan yn y System Cyfiawnder Troseddol.

xxii. Mae angen i sefydliadau darparwyr dargyfeirio gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ymarfer hiliol sy'n ystyriol o drawma ac ymarfer gwrth-hiliol ar bob lefel o'r sefydliad, gan gynnwys uwch-arweinwyr. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi proses effeithiol o ddarparu gwasanaethau a datblygu arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol gwrth-hiliol fel nad oes ofn 'ei gael yn anghywir' ac fel bod gan bob ymarferydd yr hyder i drafod iaith, terminoleg, materion a realiti o'r fath.



3. Ymchwil o ansawdd uchel sy'n cynnwys realiti bywyd unigolion amrywiol o ran ethnigrwydd

- xxiii.** Mae angen data y cytunir yn gyffredinol arnynt a phroses effeithiol o gaffael data a'u rhannu yn amlasiantaethol fel y gall yr holl wasanaethau dargyfeirio ddeall a chefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn effeithiol. Mae angen prosesau cywir i gofnodi a monitro anghenion ethnigrwydd, iaith a ffydd fel y gellir dadansoddi i gefnogi dealltwriaeth a phroses barhaus o ddatblygu ymarfer.
- xxiv.** Mwy o ymchwil i ddeall gorgynrychiolaeth o blant ac oedolion ifanc o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn y system.
- xxv.** Mae angen mwy o waith ymchwil ar gyd-destunau lleol, er mwyn datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a phrofiadau lleol a chefnogi prosesau ymgysylltu ac ymatal dargyfeirio yn well. Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil ansoddol er mwyn deall realiti bywyd rhingylliaid dalfeydd yng Nghymru mewn perthynas â'r prosesau gwneud penderfyniadau Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys yn fwy cyffredinol ac mewn perthynas â chefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.
- xxvi.** Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil i ddeall profiadau ac anghenion merched o gefndiroedd ethnig leiafrifol o fewn dargyfeiriadau cyn achos llys a llunio gwasanaethau dargyfeirio arbenigol ar y cyd gyda / ar gyfer merched os bydd angen.

4. Meithrin ymddiriedaeth â phobl amrywiol o ran ethnigrwydd ac allgymorth cymunedol

- xxvii.** Mae angen i'r System Cyfiawnder Troseddol a'r heddlu yn benodol ddatblygu prosiectau allgymorth i feithrin cydberthnasau cadarnhaol ag unigolion, grwpiau a chymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd, i feithrin ymddiriedaeth fel y gallant hyrwyddo canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol ymarfer dargyfeirio cyn achos llys yn effeithiol. Dylid creu'r prosiectau hyn ar y cyd a'u darparu gyda gwasanaethau ac aelodau cymunedol o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.
- xxviii.** Dylai Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a darparwyr dargyfeirio eraill fynd ati'n gyson i herio'r hiliaeth a wynebwr gan blant ac oedolion amrywiol o ran ethnigrwydd mewn perthynas â phroffilio hiliol, stopio a chwilio, oedolyneiddio a thriniaethau llymach gan y system mewn cyd-destunau

dargyfeirio cyn achos llys (a phrofiadau o'r System Cyfiawnder Troseddol yn ehangach).

5. Mwy o Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar Lefel Sefydliadol

- xxix.** Mae angen mwy o ffocws ar wella'r amrywiaeth ethnig drwy'r System Cyfiawnder Troseddol ac ar bob lefel o'r sefydliad er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi a'r amrywiaeth o bobl y mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn eu gwasanaethu.
- xxx.** Datblygu strategaeth, polisi ac ymarfer recriwtio, cadw a datblygu sy'n amlinellu nodau, camau gweithredu ac ymrwymadau asiantaethau Cyfiawnder Troseddol o ran sut y byddant yn sicrhau bod ganddynt weithlu amrywiol o ran ethnigrwydd yn eu sefydliadau, ar bob lefel o ymarfer, gan gynnwys uwch-arweinwyr. Dylai canlyniadau amrywiaeth ethnig gyd-fynd â demograffeg ranbarthol a chynrychioli'r cyhoedd a wasanaethir ganddo, gyda meincnod sylfaenol o 5% ar gyfer rhanbarthau sydd â lefelau isel o amrywiaeth o ran ethnigrwydd.
- xxxi.** Datblygu panel adolygu allanol ac annibynnol sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd ar gyfer strategaeth, polisi ac ymarfer recriwtio, cadw a datblygu i bob asiantaeth Cyfiawnder Troseddol lle mae angen i 70% o gynrychiolaeth o'r aelodaeth fod o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd.
- xxxii.** Oherwydd y dylanwad ar anghymesuredd hiliol mewn dargyfeiriadau cyn achos llys, dylid canolbwyntio'n benodol ar gynyddu lefel amrywiaeth o ran ethnigrwydd swyddogion heddlu llinell flaen a rhingylliaid heddlu dalfeydd. Er mwyn canolbwyntio ar wella amrywiaeth o ran ethnigrwydd swyddogion heddlu sydd newydd gymhwyso drwy'r radd bydd angen cydweithio â Sefydliadau Addysg Uwch i sicrhau eu hymrwymiad i'r cam gweithredu hwn. Yn y 12-18 mis nesaf, dylai pob penodiad a/neu ddychafiad i rôl rhingyll dalfeydd gael o leiaf 15% o gynrychiolaeth o grwpiau amrywiol o ran ethnigrwydd.
- xxxiii.** Dylai'r holl asiantaethau Cyfiawnder Troseddol a gweithwyr proffesiynol cysylltiol roi prosesau mentora a chymorth myfyriol ar waith gan ymarferwyr amrywiol o ran ethnigrwydd profiadol ar bob lefel o'u gweithlu gan gynnwys mentora i unigolion mewn rolau uwch-arweinwyr.

Ffeithlun ar gyfer Cefnogi Ymarfer Dargyfeirio Cyn Achos Llys Gwrth-hiliol gyda Phlant ac Oedolion Ifanc o Gefndiroedd Amrywiol o ran Ethnigrwydd

Er mwyn helpu i ddeall a datblygu ymarfer dargyfeirio cyn achos llys gwrth-hiliol ar gyfer pob ymarferwr a sefydliad sy'n rhan o gyd-destunau dargyfeirio cyn achos llys gyda phlant a phobl ifanc, datblygwyd y ffeithlun isod. Mae'r ffeithlun hwn wedi adeiladu ar y ffeithlun a ddyluniwyd ac a gynlluniwyd gyda hybiau ACE Cymru yn dilyn cam cyntaf y prosiect ymchwil hwn (Jones, 2024d).

Gobeithio y gall y ffeithlun hwn fod yn adnodd dysgu gweledol a chryno o ddydd i ddydd ar gyfer pawb sy'n rhan o'r broses dargyfeirio cyn achos llys ac y gellir ei argraffu fel poster ffeithlun mawr i dywys ymarfer.



CEFNOGI DARGYFEIRIO PLANT AC OEDOLION IFANC O GEFNDIROEDD ETHNIG AMRYWIOL

1. Hyrwyddo Dargyfeirio

Mae plant ac oedolion ifanc o gefndiroedd ethnig amrywiol yn llai tebygol o ddewis/cael cynnig Datrysiaid y Tu Allan i'r Llys (OoCD)/Rhybuddiad Ieuenctid oherwydd:

- Ofn a diffyg ymddiriedaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) yn dilyn profiadau personol, teuluol a chymunedol
- Straen a thrawma hiliol wrth iddynt gael eu harestio a rhyngweithiadau blaenorol â'r Heddlu
- Rhagfarn hiliol a lens risg/peryl wrth asesu yn y ddalfa yn arwain at dariffau uwch a thrin plant fel oedolion
- Cyngor cyfreithiol aneglur
- Diffyg cymorth a gwneud penderfyniadau holistaidd yn ystod y cyfnod cadw yn y ddalfa rhwng yr Heddlu a gwasanaethau cymorth Dargyfeirio



2. Deall Realiti Bywyd

Gall plant ac oedolion ifanc o gefndiroedd ethnig amrywiol wynebu realiti cymhleth yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Straen a thrawma hiliol
- Diffyg ymddiriedaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) a phrofiadau gwael o'r system, yn enwedig mewn perthynas â'r Heddlu
- Hunan-barch isel
- Chwalfa deuluol
- Trais a cham-drin domestig
- Defnyddio sylweddau
- Iechyd meddwl a hunan-niweidio
- Rheolaeth emosiynol wael
- Perthnasoedd afiach
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod (profiadau ACE) a Thrawma
- Profiadau gwael yn yr ysgol a gwaharddiadau
- Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)
- Anabledd (heb) ddiagnosis
- Tlod
- Atebolrwydd rhieni

5. Cydweithio

Dylai penderfyniadau ynghylch dargyfeirio a datblygu cynllun gynnwys yr holl randdeiliaid:

- Y plentyn/oedolyn ifanc
- Heddlu Cyfiawnder Ieuenctid/yr Heddlu
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Darparwr dargyfeirio arbenigol
- Prif ddarparwr gofal
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Addysg
- Gwasanaethau arbenigol eraill h.y. iechyd meddwl



8. Cofiwch...

Gwrth-hiliol
Y Plentyn yn Gyntaf
Holistaidd ac wedi'i Arwain
gan Blant
Diwallu anghenion
Hyrwyddo Dargyfeirio
Ystyriol o Drawma Hiliol
Cydweithio



Anghymesured

Mae hyn yn golygu bod nifer anghymesur o blant ac oedolion ifanc o'r fath yn treiddio'n ddyfnach i'r System Cyfiawnder Troseddol. Mae hyn yn niweidiol i gyfleoedd bywyd yn y dyfodol, yn drawmatig, ac yn creu profiad o gyfiawnder sy'n rhagfarnlyd a gwahaniaethol o ran hil.

Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn hyrwyddo'r angen am fwy o ffocws, ymrwymiad a darpariaeth o brofiadau a chyfleoedd dargyfeirio cynhwysol sy'n wrth-hiliol ac yn gymwys yn ddiwylliannol i blant ac oedolion ifanc o gefndiroedd ethnig amrywiol.

3. Y Plentyn yn Gyntaf a Chanolbwyntio ar Anghenion

Mae angen i blant gael eu:

- Trin fel plant
- Cefnogi i ddatblygu hunaniaeth rhag-gymdeithasol
- Cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau
- Dargyfeirio i ffwrdd o'r system cyfiawnder troseddol

Mae egwyddorion y Plentyn yn Gyntaf yn:

- seiliedig ar dystiolaeth
- canolbwyntio ar gryfderau plant
- atal (aii)droseddu
- creu cymunedau mwy diogel gyda llai o ddiodefwyr

6. Cytuno ar Ddargyfeiriad

Dylech chi gynnig cymorth sydd:

- Dan arweiniad darparwr dargyfeirio
- Wedi'i gyd-gynhyrchu gyda'r plentyn
- Ar ffurf cyfyrddiad ysgafn 3-5 ymyriad
- Yn diwallu anghenion ac yn holistaidd
- Yn rhag-gymdeithasol
- Ar gael bob ymlyn fel arfer am gyfnod o 3 mis o leiaf

7. Cymorth Dargyfeirio

§Mae cymorth a darpariaeth dargyfeirio fel arfer yn cael eu darparu er mwyn diwallu anghenion holistaidd. Byddant yn **cynnwys 3-5 ymyriad** yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

Cymorth emosiynol a chymdeithasol	Cymorth defnyddio sylweddau	Profiadau cymdeithasol
Cyfiawnder Adferol	Therapi Iechyd Meddwl	Datblygu perthnasoedd iach
Addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant		Profiadau cyfoethogi
Datblygu hunan-alluedd ac atebolrwydd personol		Asesiad/cymorth anabledd

4. Ystyriaethau Penodol

Ydych chi'n myfyrio ar eich ymarfer a'ch dull o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r canlynol:

- Eich rôl a'ch grym
- Eich arddull cyfathrebu
- Rhagfarn hiliol a diarwybod
- Rhagfarn o ran rhywedd, oedran a chrefydd
- Tariffau uwch/trin plant fel oedolion
- Defnyddio lens risg
- Plant a theuluoedd yn ymddiried yn och chi
- Meddyliau darparwyr dargyfeirio

Ydych chi'n...?

- Rhoi'r plentyn yn gyntaf
- Ystyriol o Drawma
- Ystyriol o Rywedd
- Ystyriol o Drawma Hiliol
- Gwrth-hiliol
- Cynnwys yn ddiwylliannol
- Adfero

Ydych chi wedi ystyried?

- Anghenion anabledd
- Anghenion iechyd meddwl
- Anghenion iaith
- Anghenion cymorth dargyfeirio
- Anghenion cyngor cyfreithiol
- Profiad ac anghenion dioddefwyr



Cynnwys gan: Mark Jones

Cyfarwyddwr yn Higher Plain, Athro Gwadd yn y Ganolfan Trosedddeg, Prifysgol De Cymru

Dyluniwyd gan: Lauren Hopkins

Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Cymru sy'n Ystyriol o Drawma



Anghenion Menywod o Gefndiroedd Amrywiol o ran Ethnigrwydd mewn Prosesau Dargyfeirio

Gwersi i'w Dysgu ac Argymhellion ar gyfer Ymarfer Dargyfeirio Gwrth-hiliol yn y Dyfodol:

1. Model a ddiffiniwyd ac y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gyfer Prosesau Dargyfeirio Cyn Achos Llys ar gyfer Menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd (er bod llawer o'r argymhellion hefyd yn gymwys i fenywod ag ethnigrwydd Gwyn y DU) sy'n:

xxxiv. Defnyddio dull system gyfan gyda chanolfannau i fenywod a sefydliadau arbenigol i fenywod sydd wedi'u cydgysylltu drwy'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cyhoeddus).

xxxv. Dylid defnyddio amodau cymhwysra cynhwysol ar gyfer dargyfeirio cyn achos llys / Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys heb fod angen pledio'n euog, cwmipas ar gyfer sawl ymgais i ddargyfeirio a ffocws cychwynnol ar amodau cyffyrddiad ysgafn. Pan fydd angen, ar gyfer anghenion mwy cymhleth, dylai ymyriadau dargyfeirio gefnogi anghenion hollataidd a realiti'r menywod a gefnogir ganddo a chynnig cymorth tymor hwy sydd fel arfer yn golygu 12-16 wythnos o gymorth er mwyn gweld newid gwirioneddol mewn ymddygiad a thwf personol.

xxxvi. Dylid rhoi'r cyfle i fenywod gael cyngor a chymorth cyfreithiol gan gyfreithiwr benywaidd gan fod llawer o fenywod sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol wedi neu yn wynebu trais neu gam-drin domestig ac felly gall cael ymgysylltiad ac ymyriad gyda dyn arwain at drawma a straen.

xxxvii. Dylid cytuno ar ddarpariaeth dargyfeirio a chynllun ymyriad gan ddefnyddio proses lunio ar y cyd gan ganolbwyntio ar yr unigolyn ac ar feithrin cydberthnasau yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch gan ddefnyddio ymarfer gwrth-hiliol sy'n adferol ac yn ystyriol o rywedd a thrawma. Nod y dull hollataidd hwn yw cefnogi anghenion a realiti menywod.

xxxviii. Mae dod i adnabod menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a'u hiaith a'u terminoleg ddewisol yn bwysig a dylai fod yn ffocws i'r holl wasanaethau cymorth i fenywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

xxxix. Cynnig profiad cynhwysol o ddull gweithredu cyfiawnder adferol fel bod dioddefwyr yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod ganddynt ddewis a rheolaeth o fewn eu profiad o raglenni dargyfeirio.

xl. Mae angen diffinio cyfiawnder adferol mewn anghenion darpariaeth dargyfeirio cyn achos llys yn glir a chytuno arno ar lefel genedlaethol er mwyn osgoi ymarfer arwynebol a chamlabellu ymarfer dargyfeirio presennol fel ymarfer adferol am fod hyn yn gwanhau ei ystyr, y ddealltwriaeth o'r effaith bosibl a chanlyniadau dull gweithredu gwirioneddol adferol.

xli. Mae dargyfeirio cyn achos llys yn defnyddio model o waith rhyngasiantaethol cryf gyda gweledigaeth a rennir, gwybodaeth gywir a rhannu data a phroses gwneud penderfyniadau ar gyfer Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys. Lle bynnag y bo modd, mae angen canolbwyntio ar ddefnyddio'r lefel rhybudd isaf er mwyn cefnogi menywod yn effeithiol a lleihau'r trawma sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn achos llys. Dylai darparwyr dargyfeirio fod yn ganolog i'r broses hon ac i brofiadau menywod, er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi mewn profiadau o ddalfeydd.

xlii. Sicrhau bod asesiad ac ymyriad dargyfeirio yn amserol (48 awr) i gefnogi prosesau dargyfeirio ac ymgysylltu â menywod.

xliii. Caiff Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys eu nodi fel canlyniad cadarnhaol gan yr Heddlu a'u cynlluniau rheoli perfformiad.

xliv. Caiff rhaglenni dargyfeirio eu rheoli a'u cefnogi gan ymarferwyr dargyfeirio penodedig i fenywod nad ydynt yn rhan o ddarpariaeth statudol er mwyn cefnogi ymddiriedaeth ac ymgysylltiad.

xliv. Mae cymorth cyfieithu cyflym ac effeithiol ar gael yn gyson i fenywod sydd ei angen mewn dalfeydd.

xlvi. Mae cymorth dargyfeirio yn defnyddio mentoriaid arbenigol sydd o gefndiroedd

amrywiol o ran ethnigrwydd ac sydd, lle y bo modd, wedi cael profiadau bywyd o'r System Cyfiawnder Troseddol i gefnogi menywod o gefndiroedd tebyg i ymgysylltu yn effeithiol.

xlvi. Dylai asesiad o anghenion ar gyfer dargyfeirio ystyried hunaniaeth ddiwylliannol, treftadaeth a chrefyddol menyw.

xlvi. Dylai cymorth dargyfeirio ganolbwyntio ar ymyriadau yn y gymuned â menywod sy'n:

- a.** Cefnogi'r broses o feithrin agweddau ac ymgysylltiad cadarnhaol â theulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymdeithasol cadarnhaol eraill.
- b.** Cefnogi cyfleoedd dysgu, hyfforddiant, cyflogaeth a sgiliau bywyd cyffredinol.
- c.** Lle y bo'n briodol, cefnogi'r broses o ddatblygu dulliau rhianta cadarnhaol.
- d.** Pan fo angen, cynnig cymorth dargyfeirio ar gyfer defnyddio sylweddau, trais ar sail rhywedd, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma hiliol, llesiant ac iechyd meddwl gwael, a lefelau isel o hunan-barch a hyder.
- e.** Cefnogi'r broses o ddatblygu hunanreolaeth, rheolaeth emosiynol a chyfalaf cymdeithasol a hunanalluogedd.
- f.** Cefnogi menywod i gael gobaith, diben ac ymdeimlad o berthyn o fewn eu cymuned

xlix. Dylai dargyfeirio gynnig gwasanaethau cymorth iechyd meddwl cyflym (o fewn 2 wythnos) gan fod hyn yn angen cyffredin ac arwyddocaol iawn. Os nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigon i ddiwallu angen lleol, yna dylid datblygu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl dargyfeirio newydd.

i. Mae angen i wasanaethau anstatudol arbenigol ar gyfer menywod amrywiol o ran ethnigrwydd sy'n rhan o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach fod yn ganolog o ran cefnogi menywod sy'n rhan o broses ddargyfeirio. Dylai darparwyr arbenigol o'r fath gynnig cymorth a phrosesau mentora i ddarparwyr dargyfeirio eraill i gefnogi'r broses o ddatblygu eu hymarfer gwrth-hiliol. Pan na fydd gwasanaethau arbenigol o'r fath ar gael, mae angen datblygu'r gwasanaethau hyn er mwyn diwallu anghenion unigolion amrywiol o ran ethnigrwydd yn lleol. Mae angen

nodi gwasanaethau arbenigol amrywiol er mwyn hwyluso'r broses o fapio a rhannu arferion gorau a sicrhau llwybrau atgyfeirio effeithiol ar gyfer dargyfeirio.

ii. Dylid llunio pob gwasanaeth dargyfeirio newydd ar y cyd â menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.

2. Addysg a Hyfforddiant Hirdymor o Ansawdd Uchel a gaiff eu Llunio ar y Cyd

iii. Mae angen i'r System Cyfiawnder Troseddol a gwasanaethau statudol eraill, fel gwasanaethau cymdeithasol, sy'n rhan o'r broses o asesu menywod a/neu sy'n cefnogi gwaith dargyfeirio, gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ymarfer gwrth-hiliol sy'n ystyriol o rywedd a thrawma, yn enwedig swyddogion yr heddlu ar y llinell flaen a swyddogion heddlu mewn dalfeydd. Dylai addysg a hyfforddiant ganolbwyntio ar y canlynol:

- a.** Meithrin sgiliau cyfathrebu cyfeillgar heb farnu sy'n gymwys yn ddiwylliannol ac sy'n defnyddio iaith a therminoleg briodol.
- b.** Deall mai menyw yn gyntaf yw menyw a all fod wedi troseddu ac felly dylid canolbwyntio ar ddangos empathi, deall anghenion sy'n ystyriol o rywedd, straen a thrawma hiliol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a meithrin cydberthynas er mwyn hwyluso proses ddargyfeirio, asesu a chymorth effeithiol.
- c.** Deall ei realiti a'i brofiadau personol ei hun a sut mae gwahaniaethu ar sail hil, oedran, rhyw a chrefydd yn dod i'r amlwg mewn cymdeithas a diwylliant yng Nghymru / y DU yn ehangach.
- d.** Mae angen canolbwyntio ar ddeall ei ragfarn fwriadol ac anfwriadol ei hun a herio hyn er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol ymarfer gwrth-hiliol, sy'n ystyriol o oedran, rhywedd a chrefydd fel nad yw'r nodweddion hyn yn lens sy'n arwain at anghymesuredd ac asesiad annheg a mesurau cosbol i fenywod fel 'uwch-dariffio'.
- e.** Creu diwylliant o ymarfer myfyriol i gefnogi trafodaeth fyfyril hyderus ag asiantaethau, cydweithwyr, timau a goruchwylwyr ar gymhwysedd diwylliannol a materion gwrth-hiliaeth a chefnogi menywod o gefndiroedd ethnig leiafrifol er mwyn sicrhau ymarfer myfyriol diwylliannol a gostyngedd rwydd diwylliannol.

- liii. Mae angen i swyddogion heddlu dalfeydd gael addysg a hyfforddiant fel y gallant adnabod cyfleoedd atgyfeirio ar gyfer dargyfeirio i fenywod yn well a chefnogi dulliau priodol o asesu risg a rhoi'r gorau i uwch-risgio menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.
- liv. Mae angen i gyfreithwyr gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ganlyniadau ac effeithiau cadarnhaol dargyfeirio cyn achos llys a Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys fel y gallant gynghori eu cleientiaid yn briodol.
- lv. Dylai Addysg a Hyfforddiant mewn perthynas ag ymarfer gwrth-hiliaeth a gwrth-hiliol, gyda chymorth priodol, gael ei ddatblygu a'i hwyluso gan bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sydd â realiti bywyd o gymryd rhan yn y System Cyfiawnder Troseddol.
- lvi. Mae angen i sefydliadau darparwyr dargyfeirio gael addysg a hyfforddiant parhaus ar ymarfer hiliol sy'n ystyriol o drawma ac ymarfer gwrth-hiliol ar bob lefel o'r sefydliad, gan gynnwys uwch-arweinwyr. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi proses effeithiol o ddarparu gwasanaethau a datblygu arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol gwrth-hiliol fel nad oes ofn 'ei gael yn anghywir' ac fel bod gan bob ymarferydd yr hyder i drafod iaith, terminoleg, materion a realiti o'r fath.



3. Ymchwil o ansawdd uchel sy'n cynnwys realiti bywyd unigolion amrywiol o ran ethnigrwydd

- lvii. Mae angen data y cytunir yn gyffredinol arnynt a phroses effeithiol o gaffael data a'u rhannu yn amlasiantaethol fel y gall yr holl wasanaethau dargyfeirio ddeall a chefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn effeithiol. Mae angen prosesau cywir i gofnodi a monitro anghenion ethnigrwydd, iaith a ffydd fel y gellir dadansoddi i gefnogi dealltwriaeth a phroses barhaus o ddatblygu ymarfer.
- lviii. Mwy o ymchwil i ddeall gorgynrychiolaeth o fenywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd yn y system cyfiawnder troseddol.
- lix. Mae angen mwy o waith ymchwil ar gyd-destunau lleol, er mwyn datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a phrofiadau lleol a chefnogi prosesau ymgysylltu ac ymatal dargyfeirio yn well. Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil ansoddol er mwyn deall realiti bywyd rhingylliaid dalfeydd yng Nghymru mewn perthynas â'r prosesau gwneud penderfyniadau Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys yn fwy cyffredinol ac mewn perthynas â chefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.
- lx. Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil i ddeall profiadau ac anghenion menywod ifanc o gefndiroedd ethnig leiafrifol o fewn dargyfeiriadau cyn achos llys a llunio gwasanaethau dargyfeirio arbenigol ar y cyd gyda / ar gyfer menywod ifanc os bydd angen.

4. Meithrin ymddiriedaeth â phobl amrywiol o ran ethnigrwydd ac allgymorth cymunedol

- lxi.** Mae angen i'r System Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu yn benodol ddatblygu prosiectau allgymorth i feithrin cydberthnasau cadarnhaol ag unigolion, grwpiau a chymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd, i feithrin ymddiriedaeth fel y gallant hyrwyddo canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol ymarfer dargyfeirio cyn achos llys yn fwy effeithiol. Dylid creu'r prosiectau hyn ar y cyd a'u darparu gyda gwasanaethau ac aelodau cymunedol o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.
- lxii.** Dylai darparwyr dargyfeirio i fenywod fynd ati'n gyson i herio'r hiliaeth a'r rhywiaeth wynebwr gan fenywod amrywiol o ran ethnigrwydd mewn perthynas â phroffilio hiliol a'r lens gwyredd rhywedd negyddol sy'n arwain yn aml at driniaethau llymach gan y system mewn cyd-destunau dargyfeirio cyn achos llys (a phrofiadau o'r System Cyfiawnder Troseddol yn ehangach).



5. Mwy o Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar Lefel Sefydliadol

- lxiii.** Mae angen mwy o ffocws ar wella'r amrywiaeth ethnig drwy'r System Cyfiawnder Troseddol ac ar bob lefel o'r sefydliad er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi a'r amrywiaeth o bobl y mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn eu gwasanaethu.
- lxiv.** Datblygu strategaeth, polisi ac ymarfer recriwtio, cadw a datblygu sy'n amlinellu nodau, camau gweithredu ac ymrwymadau asiantaethau Cyfiawnder Troseddol o ran sut y byddant yn sicrhau bod ganddynt weithlu amrywiol o ran ethnigrwydd yn eu sefydliadau, ar bob lefel o ymarfer, gan gynnwys uwch-arweinwyr. Dylai canlyniadau amrywiaeth ethnig gyd-fynd â demograffeg ranbarthol a chynrychioli'r cyhoedd a wasanaethir ganddo, gyda meincnod sylfaenol o 5% ar gyfer rhanbarthau sydd â lefelau isel o amrywiaeth o ran ethnigrwydd.
- lxv.** Datblygu panel adolygu allanol ac annibynnol sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd ar gyfer strategaeth, polisi ac ymarfer recriwtio, cadw a datblygu i bob asiantaeth Cyfiawnder Troseddol lle mae angen i 70% o gynrychiolaeth o'r aelodaeth fod o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd.
- lxvi.** Oherwydd y dylanwad ar anghymesurededd hiliol mewn dargyfeiriadau cyn achos llys, dylid canolbwyntio'n benodol ar gynyddu lefel amrywiaeth o ran ethnigrwydd swyddogion heddlu llinell flaen a rhingylliaid heddlu dalfeydd. Er mwyn canolbwyntio ar wella amrywiaeth o ran ethnigrwydd swyddogion heddlu sydd newydd gymhwyso drwy'r radd bydd angen cydweithio â Sefydliadau Addysg Uwch i sicrhau eu hymrwymiad i'r cam gweithredu hwn. Yn y 12-18 mis nesaf, dylai pob penodiad a/neu ddyrchafiad i rôl rhingyll dalfeydd gael o leiaf 15% o gynrychiolaeth o grwpiau amrywiol o ran ethnigrwydd.
- lxvii.** Dylai'r holl asiantaethau Cyfiawnder Troseddol a gweithwyr proffesiynol cysylltiol roi prosesau mentora a chymorth myfyriol ar waith gan ymarferwyr amrywiol o ran ethnigrwydd profiadol ar bob lefel o'u gweithlu gan gynnwys mentora i unigolion mewn rolau uwch-arweinwyr.

Ffeithlun ar gyfer Ymarfer Dargyfeirio Cyn Achos Llys Gwrth-hiliol gyda Menywod o Gefndiroedd Amrywiol o ran Ethnigrwydd

Er mwyn helpu i ddeall a datblygu ymarfer dargyfeirio cyn achos llys gwrth-hiliol ar gyfer pob ymarferwr a sefydliad sy'n rhan o gyd-destunau dargyfeirio cyn achos llys gyda Menywod, datblygwyd y ffeithlun isod. Mae'r ffeithlun hwn wedi adeiladu ar y ffeithlun a ddyluniwyd ac a gynlluniwyd gyda hybiau ACE

Cymru yn dilyn cam cyntaf y prosiect ymchwil hwn (Jones, 2024d).

Gobeithio y gall y ffeithlun hwn fod yn adnodd dysgu gweledol a chryno o ddydd i ddydd ar gyfer pawb sy'n rhan o'r broses dargyfeirio cyn achos llys ac y gellir ei argraffu fel poster ffeithlun mawr i dywys ymarfer.



1. Hyrwyddo Dargyfeirio

Mae menywod sydd yn amrywiol o ran ethnigrwydd yn llai tebygol o ddewis/cael cynnig Datrysiaid y Tu Allan i'r Llys (OoCD) oherwydd:

- Ofn a diffyg ymddiriedaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) yn dilyn profiadau personol, teuluol a chymunedol
- Straen a thrawma hiliol wrth iddynt gael eu harestio a rhyngweithiadau blaenorol â'r Heddlu
- Rhagfarn hiliol a rhagfarn ar sail rhyw a lens risg/peryl wrth asesu yn y ddalfa yn arwain at dariffau uwch
- Cynghor cyfreithiol aneglur
- Diffyg cymorth a gwneud penderfyniadau hollataidd yn ystod y cyfnod cadw yn y ddalfa rhwng yr Heddlu a gwasanaethau cymorth Dargyfeirio



2. Deall Realiti Bywyd

Gall menywod o gefndiroedd ethnig amrywiol wynebu realiti cymhleth yn cynnwys:

- Straen a thrawma hiliol
- Diffyg ymddiriedaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) a phrofiadau gwael o'r system, yn enwedig mewn perthynas â'r Heddlu
- Hunan-barch isel
- Chwalfa deuluol
- Trais rhywiol a cham-fanteisio
- Trais domestig a thrais ar sail rhywedd
- Defnyddio sylweddau
- Iechyd meddwl a hunan-niwaidio
- Rheolaeth emosiynol wael
- Perthnasoedd afiach
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (profiadau ACE) a Thrawma
- Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)
- Anabledd (heb) ddiagnosis
- Tlodi
- Cyfrifoldeb riant

5. Cydweithio

Dylai penderfyniadau ynghylch dargyfeirio a datblygu cynllun gynnwys yr holl randdeiliaid:

- Y menywod
- Yr Heddlu/Heddlu Diogelu Plant
- Darparwr dargyfeirio menywod
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Iechyd
- Darparwyr arbenigol eraill i fenywod h.y. gwasanaethau trais domestig



8. Cofiwch...

Wedi'i leoli yn y gymuned
Wedi'i arwain gan fenywod
Hollataidd
Diwallu anghenion
Hyrwyddo Dargyfeirio
Bod yn ystyriol o rywedd a hil
Bod yn ystyriol o drawma hiliol
Cydweithio



Anghymesuredd

Mae hyn yn golygu bod nifer anghymesur o fenywod o'r fath yn treiddio'n ddyfnach i'r System Cyfiawnder Troseddol (CJS). Mae hyn yn niweidiol i gyfleoedd bywyd yn y dyfodol, yn drawmatig, ac yn creu profiad o gyfiawnder sy'n rhagfarnllyd a gwahaniaethol o ran hil.

Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn hyrwyddo'r angen am fwy o ffocws, ymrwymiad a darpariaeth o brofiadau a chyfleoedd dargyfeirio cynhwysol sy'n wrth-hiliol ac yn gymwys yn ddiwyllianol i fenywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sydd wedi'u lleoli yn y gymuned mewn mannau diogel i fenywod o ran rhywedd gyda darparwyr arbenigol.

3. Yn ystyriol o Hil a Rhywedd

Mae menywod o gefndiroedd ethnig amrywiol angen:

- Dull system gyfan, cydweithredol ac amlasiantaethol
- Ymyriad cynnar ac arbenigol
- Mannau diogel i fenywod/canolfannau yn y gymuned
- Cymorth wedi'i seilio ar anghenion a chymorth wedi'i deilwra
- Ffocws ar ddargyfeirio, adsefydlu ac ymatal
- Hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i fenywod a'u teuluoedd
- Deall amrywiaeth ethnig, treftadaeth ac anghenion diwyllianol

6. Cytuno ar Ddargyfeiriad

Dylech chi gynnig cymorth sydd:

- Dan arweiniad darparwr dargyfeirio
- Wedi'i gyd-gynhyrchu gyda Menywod
- Wedi'i leoli yn y gymuned mewn mannau/canolfannau sy'n ddiogel i fenywod
- Ar ffurf cyffwrddiad ysgafn 3-5 ymyriad
- Yn diwallu anghenion ac yn hollataidd
- Yn rhag-gymdeithasol
- Ar gael bob wythnos fel arfer am gyfnod o 3 mis o leiaf

7. Cymorth Dargyfeirio

Mae cymorth a darpariaeth dargyfeirio fel arfer yn cael eu darparu er mwyn diwallu anghenion hollataidd. Byddant yn **cynnwys 3-5 ymyriad** yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

Cymorth emosiynol a chymdeithasol	Cymorth defnyddio sylweddau	Profiadau cymdeithasol
Cyfiawnder adferol	Therapi Iechyd Meddwl	Datblygu perthnasoedd iach
Addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant	Profiadau cyfoethogi	Cymorth magu plant
Datblygu hunan-alluedd ac atebolrwydd personol		Asesiad/cymorth anabledd

4. Ystyriaethau Penodol

Ydych chi'n myfyrio ar eich ymarfer a'ch dull o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r canlynol:

- Eich rôl a'ch grym
- Eich arddull cyfathrebu
- Rhagfarn hiliol a diarwybod
- Rhagfarn ar sail rhywedd
- Rhagfarn grefyddol
- Tariffau uwch a defnyddio lens risg
- Menywod yn ymddiried yn och chi
- Meddyliau darparwyr dargyfeirio

Ydych chi'n...?

- Ystyriol o Hil a Rhywedd
- Ystyriol o Drawma
- Ystyriol o Drawma Hiliol
- Gwrth-hiliol
- Cymwys yn ddiwyllianol
- Adferol

Ydych chi wedi ystyried?

- Cyfrifoldebau magu plant
- Anghenion anabledd
- Anghenion iechyd meddwl
- Anghenion defnyddio sylweddau
- Anghenion iaith
- Anghenion cymorth dargyfeirio
- Anghenion cynghor cyfreithiol
- Profiad ac anghenion dioddefwyr



Cynnwys gan: Mark Jones
Cyfarwyddwr yn Higher Plain, Athro Gwadd yn y Ganolfan Troseddeg, Prifysgol De Cymru
Dyluniwyd gan: Lauren Hopkins
Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Cymru sy'n Ystyriol o Drawma

Ffeithlun i gefnogi Dealltwriaeth o Drawma Hiliaeth ac Ymateb iddo

Er mwyn cefnogi dealltwriaeth well o drawma hiliol ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma hiliol i bob ymarferydd a sefydliad sy'n rhan o gyd-destunau cyfiawnder troseddol, datblygwyd y ffeithlun isod. Mae'r ffeithlun hwn wedi adeiladu ar y ffeithlun a ddyluniwyd ac a gynlluniwyd gyda hybiau ACE Cymru yn dilyn cam cyntaf y prosiect ymchwil hwn (Jones, 2024d).

Gobeithio y gall y ffeithlun hwn fod yn adnodd dysgu gweledol a chryno o ddydd i ddydd ar gyfer pawb sy'n rhan o leoliadau cyfiawnder troseddol ac y gellir ei argraffu fel poster ffeithlun mawr i dywys ymarfer.



1. Beth yw Trawma Hilioi?

- **Gall effaith gronnu hiliaeth ar unigolyn**
- Fod o ganlyniad i brofiadau o hiliaeth ar lefel unigol, grŵp, cymunedol, diwylliannol, sefydliadol, strwythurol a chymdeithasol
- Ymwneud â hiliaeth yn y gorffennol neu'r presennol neu boeni am hiliaeth yn y dyfodol
- Fod yn uniongyrchol ac anuniongyrchol
- Mae straen sy'n seiliedig ar hil yn debyg ac yn digwydd trwy achosion uniongyrchol neu anuniongyrchol o hiliaeth
- Mae straen sy'n seiliedig ar hil yn aml yn arwain at ganlyniadau iechyd meddwl yn cynnwys iselder, gorbryder, ac agwedd negyddol at fywyd
- Mae trawma hilioi yn fwy difrifol ac mae'n gysylltiedig â symptomau seicolegol a chorfforol cymhleth, yn cynnwys gorbryder, iselder, Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD), a hyd yn oed problemau iechyd corfforol. Gall hefyd effeithio'n negyddol ar ymdeimlad unigolyn o'i hun, ei hunaniaeth, a ffurfio a chynnal perthnasoedd iach.

2. Sut mae Trawma Hilioi yn Digwydd?

- Mae Straen Hilioi a Thrawma Hilioi yn brofiadau cyffredin yn y DU
- Mae pob sefydliad yn y DU yn hysbys am fod yn hiliol yn sefydliadol ac yn ddiwylliannol
- Mae'r grym gan y mwyafrif gwyn yn y DU sy'n creu **gwynder cymdeithas y DU**
- Mae llawer o **stereoteipiau a naratifau negyddol a hiliol** ar lefel strwythurol cymdeithas
 - Mae hyn yn treiddio i lawr ac yn cael ei dderbyn fel gwirionedd ac yn creu normau ac yn dylanwadu ar werthoedd ac ymddygiadau hiliol
- Mae gennym dystiolaeth gref o weithredoedd hiliol a micro-ymosodiadau ar lefel unigol a grŵp
 - Mae hyn yn golygu bod llawer o bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol yn profi hiliaeth sy'n aml yn arwain at straen a thrawma hiliol

3. Sut ydym ni'n cefnogi Trawma Hilioi?

Ydych chi'n myfrio ar eich **Cymhwysedd Diwylliannol** a sut y gallwch chi gefnogi pobl sy'n profi straen a thrawma hiliol?

Meddyliwch am y canlynol:

- Eich rôl a'ch grym
- Eich arddull cyfathrebu
- Eich iaith a'ch terminoleg
- Rhagfarn hiliol a diarwybod
- Stereoteipiau a rhagdybiaethau
- Rhagfarn o ran rhywedd, oedran a chrefydd
- Defnyddio lens risg

Daliwch ati i ddatblygu eich ymarfer:

- **Addysgu eich hun**
- **Myfrio a herio eich meddwl**
- **Trafodwch gydag eraill**
- **Herio Hiliaeth**



4. Beth am Gyfathrebu ac Iaith?

Teimlo'n gyfforddus i gael sgysiau gyda phobl o gefndiroedd ethnig amrywiol ynghylch:

- Hiliaeth
- Ethnigrwydd, treftadaeth a diwylliant
- Rhywedd, crefydd, rhywioldeb, dosbarth
- Eu diffiniadau a'u terminoleg
- Eu Hanghenion

Mae **Terminoleg Gadarnhaol a Chynhwysol** yn cynnwys:

- Lleiafrifoedd Hiliol ac Ethnig
- Amrywiol o ran Ethnigrwydd
- Mwyafrif Byd-eang



Cofiwch – Mae Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma yn cynnwys

Gofynnwch am Iaith ac Anghenion

Creu trafodaeth gadarnhaol

Myfrio a Deall Eich Grym

Myfrio, trafod, dal ati i ddysgu a herio Hiliaeth

Deall a Chydnabod Hiliaeth a Thrawma Hilioi





Casgliad

Roedd y broses o greu a chyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru yn 2022 yn ymrwymadau arwyddocaol a chryf i herio hiliaeth yng Nghymru a chreu cymdeithas wrth-hiliol erbyn 2030. Mae Cynllun Gweithredu Anghymesuredd mwy diweddar Gwasanaeth Erlyn y Goron (2024) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024 yn dangos y ffocws parhaus ar fynd i'r afael ag anghymesuredd hiliol yn y System Cyfiawnder Troseddol.

Yn anffodus, mae hiliaeth ac anghymesuredd hiliol yn dal i fod yn nodwedd gref o gymdeithas yng Nghymru a'r DU ac nid yw'n gyfyngedig i'r System Cyfiawnder Troseddol gan gynnwys ym meysydd iechyd, addysg, cyflogaeth ac mewn polisi mewnfudo. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, canfu Amnesty International ac Ymddiriedolaeth Runnymede (2024) fod hiliaeth a gwahaniaethu ar sail hil wedi gwaethygu ers 2020 yn bennaf oherwydd methiant parhaus llywodraeth y DU i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol ac mai'r diffyg gweithredu hwn sydd ar fai am y ffrwydrad diweddar o hiliaeth dde eithafol a thrais Islamoffobaidd ar strydoedd y DU yn 2024. Daw eu hadroddiad i'r casgliad, oherwydd methiant y llywodraeth i wella canlyniadau i bobl amrywiol o ran ethnigrwydd, drwy ymosod a chyfyngu ar

y ffyrdd y gall unigolion, grwpiau a chymunedau o'r fath anghydfurfio a phrotestion, mae'n creu sefyllfa drychinebus i lawer o bobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sydd wedi'u hamddiffyn yn annigonol ac sy'n cael eu plismona'n ormodol a phrofi realiti canlyniadau ac ansawdd gwasanaethau anghymesur mewn cymdeithas yn y DU (Amnesty International ac Ymddiriedolaeth Runnymede, 2024).

Felly, er y gellid dadlau y gwnaed rhywfaint o gynnydd yng Nghymru gyda thri ymrwymiad polisi clir o ran gwrth-hiliaeth, mae'n amlwg bod taith hir iawn o'n blaenau o hyd i fynd i'r afael â hiliaeth, gorgynrychiolaeth a thriniaeth wael o bobl amrywiol o ran ethnigrwydd. Mae realiti o'r fath yn arbennig o orthrymus i'r bobl hynny sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd ac sydd â nodweddion gwarchodedig ychwanegol a/ neu fregusrwydd fel menywod a phobl ifanc, nid dim ond mewn perthynas â'r System Cyfiawnder Troseddol ond hefyd o ran cymdeithas ehangach yng Nghymru a'r DU.

Roedd yr ymchwil hon yn canolbwyntio ar gyd-destunau dargyfeirio cyn achos llys gyda'r nod penodol o gyflawni ymrwymiad 7 o'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder troseddol yng Nghymru ag ymrwymiad i ganolbwyntio ar ddatblygu ymarfer gwrth-hiliol o fewn 'Atal, Ymyrraeth Gynnar ac Adsefydlu' yn y System Cyfiawnder Troseddol.

Mae'r ymrwymiad hwn yn nodi y bydd y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn:

"gweithio gyda'n gilydd i roi terfyn ar orgynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig sydd wedi cyflawni trosedd a diffynyddion yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru" a "Byddwn yn rhoi cymorth holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar drawma i droseddwyd a'r rheini sydd mewn perygl o droseddu er mwyn iddyn nhw allu gwneud dewisiadau bywyd gwybodus ar gyfer cyflogaeth, addysg, perthnasoedd cymdeithasol, ac iechyd a lles meddyliol a chorfforol."

Felly, prif ffocws y prosiect hwn oedd deall anghymesuredd y profiadau a wynebwr gan fenywod a phlant o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd wrth fanteisio ar gyfleoedd dargyfeirio cyn achos llys a Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys. Mae'r ymchwil hon wedi meithrin dealltwriaeth werthfawr a chlr o brofiadau o'r fath, ynghyd â'r gwasanaethau a'r ymarferwyr hynny sy'n cefnogi menywod a phlant o'r fath sy'n arwain at gyfres holistaidd a haenog o argymhellion i ddatblygu arferion gorau.

Mae'r ymchwil hon wedi rhoi argymhellion thematig ynghylch yr angen am fodel sydd wedi'i ddiffinio ac y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gyfer prosesau dargyfeirio cyn achos llys ar gyfer Plant (hyd at 17 oed) ac Oedolion Ifanc (18-25 oed) a Menywod o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd sy'n defnyddio model ymarfer gwrth-hiliol sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac sy'n ystyriol o rywedd a thrawma gan ddefnyddio dull rhyngasiantaethol cryf gyda phrosesu gwneud penderfyniadau ar y cyd a gan ddarparu cymorth dargyfeirio gan wasanaethau anstatudol arbenigol. Argymhellir hefyd yr angen i fuddsoddi mewn addysg a hyfforddiant hirdymor o ansawdd uchel wedi'i lunio ar y cyd ac sy'n datblygu gweithlu Cyfiawnder Troseddol sy'n llawn empathi, sy'n fyfyrion ac yn canolbwyntio ar feithrin cydberthnasau dyneiddiol llawn parch â phobl o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd. Canfu'r ymchwil hefyd fod angen mwy o ymchwil o ansawdd uchel sy'n cynnwys realiti bywyd amrywiol o ran ethnigrwydd ac sy'n datblygu dull data cyffredin ar draws pob gwasanaeth i gefnogi dealltwriaeth well a gwaith parhaus i ddatblygu cymorth priodol. Oherwydd diffyg ymddiriedaeth sylweddol o'r System Cyfiawnder Troseddol, canfu'r ymchwil hon angen enfawr i'r gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol, a'r Heddlu yn enwedig, feithrin ymddiriedaeth â phobl amrywiol o ran ethnigrwydd sy'n defnyddio prosiectau

allgymorth cymunedol wedi'u llunio ar y cyd â grwpiau a chymunedau o'r fath er mwyn diwallu anghenion yn effeithiol. Yn olaf, mae'r ymchwil hon yn tynnu sylw at yr angen i greu gweithlu Cyfiawnder Troseddol sy'n fwy amrywiol, teg a chynhwysol ar Lefel Sefydliadol.

Caiff y canfyddiadau a'r gwersi i'w dysgu o'r prosiect ymchwil hwn eu rhannu ledled Cymru, drwy'r trefniadau llywodraethu cyfiawnder troseddol yn y cynllun cyfredol ar gyfer Cymru, y Bwrdd Menywod mewn Cyfiawnder, Byrddau Cyfiawnder leuenctid a rhwydweithiau a fforymau proffesiynol, polisi ac academiaidd lle y bo'n briodol i lywio'r gwaith o ddylunio ac ymateb i wasanaethau dargyfeirio ar gyfer unigolion o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd ledled Cymru.



Llyfryddiaeth a Chyfeiriadau

Adebisi, F. (2019). The only accurate part of 'BAME' is the 'and' [Online]. Ar gael yn: <https://folukeafrica.com/the-only-acceptable-part-of-bame-is-the-and/>

Advance (2021). Gwasanaeth Dargyfeirio i Fenywod yn Llundain The impact of community support on diverting women from the criminal justice system. Ar gael yn: <https://www.advancecharity.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/London-Womens-Diversion-report-2021-final-.pdf>

Ames, A., Di Antonio, E., Hitchcock, J., Webster, S., Ellingworth, D., Meadows, L., McAlonan, D., Uhrig, N., a Logue, C. (2018) Adult Out of Court Disposal Pilot Evaluation – Final Report– Ministry of Justice Ministry of Justice Analytical Series 2018. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. ISBN 978-1-84099-750-7. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/718947/adult-out-of-court-disposal-pilot-evaluation.pdf

Amnesty International ac Ymddiriedolaeth Runnymede (2024). UNITED KINGDOM Submission to the Committee on the Elimination of Racial Discrimination, 113TH SESSION, 5–23 AUGUST 2024. Ar gael yn: <https://www.amnesty.org/en/documents/eur45/8384/2024/en/>

Anderson RE, a Stevenson HC (2019). Recasting racial stress and trauma: Theorizing the healing potential of racial socialization in families. *American Psychologist*, 74(1), 63–75. 10.1037/amp0000392.

Asmussen, K., Fischer, F., Drayton, E., a McBride, T. (2020) *Adverse childhood experiences: what we know, what we don't know, and what should happen next*. Ar gael yn: <https://www.eif.org.uk/files/pdf/adverse-childhood-experiences-report.pdf>

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (2012) Guidelines on the use of Community Resolutions Incorporating Restorative Justice. Ar gael yn: <https://library.college.police.uk/docs/appref/Community-Resolutions-Incorporating-RJ-Final-Aug-2012-2.pdf>

Back et al. (2014) Blended learning approach improves teaching in a problem- based learning environment in orthopaedics - a pilot study, *BMC Medical Education*, 14:17, 1-8.

Banwell-Moore, Rebecca. (2022). The Delivery of Restorative Justice in Youth Offending Teams in England and Wales: Examining Disparities and Highlighting Best Practice. *Laws* 11: 60. <https://doi.org/10.3390/laws11040060>

Bateman, T. a Hazel, N. (2014) The Resettlement of Girls and Young Women: Evidence From Research. *Beyond Youth Custody*. Ar gael yn: http://www.beyondyouthcustody.net/wp-content/uploads/421_research-report_04_8_w-front_cover.pdf

Bennett, L. a Corry-Roake, E. (2021). Evidence review: diverting young adults away from the cycle of crisis and crime. Revolving Door Agency. Ar gael yn: <https://barrowcadbury.org.uk/wp-content/uploads/2021/07/RDA-T2A-Diverting-young-adults-away-from-the-cycle-of-crisis-and-crime.pdf>

Bhatia, M. (2017) Racist Hate Crimes Against Those Seeking Asylum. Ar gael yn: <https://www.law.ox.ac.uk/research-subject-groups/centre-criminology/centreborder-criminologies/blog/2017/05/racist-hate>

Bhattacharya, A. (2021). Earning trust: improving criminal justice outcomes for ethnic minorities: BRIEFING PAPER. Social Market foundation. Ar gael yn: <https://www.smf.co.uk/publications/earning-trust/>

Boachie, V. (2021). A guide to understanding racial trauma [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://sparkandco.co.uk/blog/guide-understanding-racial-trauma>

Bolton, G. (2014). *Reflective Practice: Writing and professional development*. (4ydd argraffiad). Llundain: Sage.

Bowen a Slade (2020) *Delivering a Smarter Approach: Reforming Out of Court Disposals*. Llundain: Y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder. Ar gael yn: <https://justiceinnovation.org/sites/default/files/media/document/2020/Delivering%20a%20smarter%20approach.pdf>

Bransford, J. D., A. L. Brown, et al., Gol. (2000). *How People Learn: Brain, Mind, Experience, and School*, National Academy Press.

- Brockbank, A a McGill, I (2007) Facilitating Reflective Practice Through Mentoring and Coaching Llundain: Kogan Page
